



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Cynllun drafft i drechu tlodi tanwydd

Adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac
asesiad effaith integredig

Dyddiad Cyhoeddi 2 Mawrth 2021

ISBN 978-1-80195-333-7

OGL © Hawlfraint y Goron

Cynnwys

CYFLWYNIAD	4
Ymateb i'r Pandemig	4
Hanes cryno tlodi tanwydd yng Nghymru	5
Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL A PHOLISI	6
Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000	7
Arbed Ynni, Cymru – Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 fel y'u diwygiwyd	7
Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni	7
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	8
AMCANION POLISI	9
Symud Cymru Ymlaen	9
Ffyniant i Bawb – <i>Symud Cymru Ymlaen</i>	10
Pwyllgor Cynggori Llywodraeth Cymru ar ddatgarboneiddio tai	12
Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni Llywodraeth Cymru	12
Dull gweithredu seiliedig ar hawliau – plant a phobl ifanc	13
Heneiddio'n Dda	13
Anabledd	14
Cymorth i grwpiau blaenoriaeth (cyn-filwyr, plant, pobl hŷn sy'n 60 oed a throsodd, pobl anabl, teithwyr, pobl sy'n gadael gofal a phrentisiaid)	14
YMGYNGHORIAD AR Y CYNLLUN DRAFFT I DRECHU TLODI TANWYDD – CRYNODEB O'R CANLYNIADAU	15
Cwestiwn 1 – Camau ychwanegol posibl i leihau tlodi tanwydd yng Nghymru	17
Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 1	21
Cwestiwn 2 – Diffiniad o dlodi tanwydd	24
Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 2	25
Cwestiwn 3 – Lefel incwm is arfaethedig	26
Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 3	27
Cwestiwn 4 – Diffiniad o aelwydydd agored i niwed	27
Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 4	29
Cwestiwn 5 – Dulliau mesur tlodi tanwydd	29
Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 5	30
Cwestiwn 6 – Mesur effaith buddsoddiad y Rhaglen Cartrefi Clyd yn ôl lleihad mewn oriau cilowat (KWh)	32
Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 6	34

I grynhoi	34
PENDERFYNFYDDION TLODI TANWYDD	35
Incwm aelwydydd.....	35
Cost ynni	38
Effeithlonrwydd ynni domestig	43
ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG	45
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	45
Pobl hŷn – crynodeb	45
Pobl anabl – crynodeb.....	47
Cymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME).....	49
Cymorth i grwpiau blaenoriaeth (Cyn-filwyr a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr).....	51
Plant a Phobl Ifanc	52
Y Gymraeg.....	53
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.....	54
Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant	55
Prawfesur Gwledig	58
Trechu Tlodi	59
Effeithiau ar y Trydydd Sector.....	60
Newid yn yr Hinsawdd.....	61
Effaith Economaidd	62
Rheoliadau Cymorth Gwladol ac asesiad cystadleuaeth marchnadoedd.....	64
Asesiad o'r effaith ar breifatrwydd.....	65
Asesiadau effaith nas cyflawnwyd	66
Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.....	66
DADANSODDIAD O GOSTAU POSIBL Y CYNLLUN NEWYDD.....	67
Targedau.....	67
Cynllun Peilot ar gyfer Gwasanaeth Cyngor ac Allgymorth	71
Adrodd ar dlodi tanwydd.....	72
Gwydnwch dros y Gaeaf	72

CYFLWYNIAD

Ymateb i'r Pandemig

1. Ym mis Hydref, nododd y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol/y Gweinidog Pontio Ewropeaidd flaenoriaethau ar gyfer ail-greu wrth inni ddechrau dod allan o'r pandemig¹. Nod rhan helaeth o'n hymdrech i ail-greu yw helpu llawer o'r bobl sydd wedi colli eu bywoliaeth yn sgil COIVD-19, neu y mae'r pandemig wedi cael effaith andwyol arnynt, i ddod o hyd i waith a chael sicrwydd ar gyfer y dyfodol. Ein rôl bwysicaf, drwy ein Cronfa Cadernid Economaidd a'n cymorth sgiliau ehangach, yw helpu unigolion a chwmnïau yng Nghymru i bontio i economi a swyddi'r dyfodol. Mae helpu pobl i gadw eu swyddi drwy'r cyfnod cythryblus hwn a chefnogi pobl, yn enwedig pobl ifanc, drwy adeiladu ar ein rhaglenni sgiliau presennol a chreu amgylchedd sydd â phwyslais ar ddysgu gydol oes yn flaenoriaeth.
2. P'un a ydym yn sôn am adeiladu cartrefi newydd, ôl-osod cartrefi presennol, ail-fywiogi canol ein trefi lleol, newid y ffordd rydym yn teithio ac yn gweithio, neu'r ffordd rydym yn sicrhau ein gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr, fel y GIG a gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol, mae gennym gyfle i barhau i greu swyddi a chynnal cyflogaeth, er mwyn creu cymunedau cryfach a thecach ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd.
3. Fel y nododd Prif Swyddog Economaidd Llywodraeth Cymru yn 2020², ac eithrio cyllid COVID-19, ac yn dibynnu ar benderfyniadau gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol, ni ragwelir y bydd cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru fesul unigolyn yn adfer i'w lefel yn 2010-11 mewn termau real tan 2023-24³. Mae'r effaith ar y farchnad lafur, ac ar incwm, wedi bod yn ddifrifol ond mae wedi bod yn llawer llai na'r effaith ar allbwn, o ganlyniad i'r cynlluniau cymorth amrywiol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
4. Mae'r rhagolygon yn ansicr iawn; os caiff brechlynnau effeithiol eu rhoi ar waith yn gyflym, sy'n edrych yn ddigon tebygol ar hyn o bryd, mae'n ymddangos y bydd yn bosibl adfer yn gynnar ac yn gyflym. Fodd bynnag, ar sail y "brif" senario llai cadarnhaol a ddisgrifiwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, gallai nifer y bobl ddi-waith yng Nghymru gynyddu o 70,000 heddiw i oddeutu 114,000, gyda'r posibilrwydd na fyddai lefelau diweithdra yn dychwelyd i'r hyn a welwyd cyn yr argyfwng tan ddiwedd 2024.
5. Cyhoeddir y cynllun hwn i drechu tlogi tanwydd ar adeg pan fo'r rhagolwg economaidd yn ansicr o hyd. Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, gwnaeth nifer o randdeiliaid sylwadau ynghylch targedau a chmau gweithredu yr oedd angen eu cynnwys yn y cynllun, yn eu barn nhw. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrando. Gwnaed newidiadau mewn rhai achosion. Mewn rhai eraill, er y caiff teimladau ac uchelgeisiau rhanddeiliaid eu rhannu, byddai cynnwys y newidiadau a awgrymwyd yn afrealistig ar yr adeg hon, yn ein barn ni.

¹ <https://llyw.cymru/ail-greu-ar-ol-y-coronafeirws-yr-heriau-ar-blaenoriaethau-html#section-52303>

² <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/2020-adroddiad-y-prif-economegydd.pdf>

³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/2020-adroddiad-y-prif-economegydd.pdf>

6. Mae ymchwil bellach yn cael ei chomisiynu i asesu effaith COVID-19. Nes y bydd yr asesiad hwn wedi'i gwblhau, byddai'r gwaith o osod targedau dros dro yn dybiannol iawn, ac nid ydym yn argymhell y dylid eu cynnwys ar yr adeg hon.
7. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai camau gweithredu ychwanegol ar gyfer y tymor byr iawn, i ymateb i bandemig COVID-19, ac ar gyfer y tymor hwy (ar ôl 2023), gael eu cynnwys yn y cynllun hefyd. Mae mesurau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru eisoes wedi cael eu cyflwyno i gefnogi aelwydydd drwy'r pandemig, gan gynnwys taliadau tanwydd ychwanegol drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn helpu pobl i brynu nwy hylifedig ac olew gwresogi.
8. Mae mân ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i'r cynllun drafft.
 - (1) Mae'r cynnig i fesur budd mesurau effeithlonrwydd ynni a ddarperir drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd wedi cael ei ddiwygio, gan ychwanegu cadw targedau Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) yn ogystal â gostyngiadau KWh fel mesur gwella o dan y rhaglen.
 - (2) Mae'r nodau polisi yn y cynllun wedi cael eu diwygio er mwyn cyfeirio'n glir at egwyddorion dull gweithredu "adeiladwaith yn gyntaf" wrth osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, a dull gweithredu "y gwaethaf yn gyntaf" er mwyn blaenoriaethu aelwydydd incwm is y mae angen cymorth Llywodraeth Cymru arnynt fwyaf.

Hanes cryno tlodi tanwydd yng Nghymru

9. Cyhoeddwyd targedau statudol ar gyfer dileu tlodi tanwydd yng Nghymru am y tro cyntaf yn 2003 yn yr Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru. Y targed oedd dileu tlodi tanwydd, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, mewn:
 - Cartrefi sy'n agored i niwed erbyn 2010;
 - Tai cymdeithasol erbyn 2012; ac
 - Ym mhob cartref erbyn 2018.
10. Cafodd y targedau hyn eu cynnwys yn Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2010. Er gwaethaf y buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, a'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref gynt, ynghyd â'r buddsoddiad a gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr yng Nghymru i ariannu mentrau gan Lywodraeth y DU, nid yw'r targedau wedi cael eu cyflawni eto.
11. Ers 2000, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn cartrefi lle mae pobl wedi bod yn ei chael hi'n anodd talu am gostau eu hanghenion ynni domestig. O dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, a oedd ar waith rhwng 2001 a 2009, cafodd mwy na 108,600 o gartrefi fudd o fesurau effeithlonrwydd ynni. Mae'r buddsoddiadau wedi parhau o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd. Ar ddiwedd mis Mawrth 2020, mae buddsoddiad o fwy na £366m⁴ yn y Rhaglen Cartrefi Clyd (Nyth ac Arbed) wedi gwella effeithlonrwydd dros 61,400 o gartrefi yng Nghymru.

⁴Mae hyn yn cynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac Ewrop drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd

12. Ar 21 Mai 2019, cyhoeddwyd prif amcangyfrifon newydd ar gyfer tlodi tanwydd yng Nghymru, ynghyd â gyda dadansoddiad manwl ym mis Awst 2019 ac amcangyfrifon fesul ardal leol ym mis Ebrill 2020. <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru>
13. Nodir isod yr amcangyfrifon ar gyfer 2018, sef y dyddiad diweddaraf y mae data ar gael ar ei gyfer:
- Roedd 155,000 o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd, sy'n gyfwerth â 12% o aelwydydd.
 - O blith yr aelwydydd hyn, roedd 32,000 yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol⁵, sy'n gyfwerth â 2% o aelwydydd.
 - Roedd 130,000 o aelwydydd agored i niwed⁶ yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd, sy'n gyfwerth ag 11% o aelwydydd.
 - Roedd 19,000 o aelwydydd agored i niwed yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol⁷, sy'n gyfwerth â 2% o aelwydydd
14. Mae'r gostyngiad amcangyfrifedig mewn lefelau tlodi tanwydd ers 2008 yn deillio o gynnydd mewn incymau aelwydydd a llai o ofynion ynni gan aelwydydd am fod gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn fwy na'r cynnydd mewn prisiau tanwydd. Rhwng 2008 a 2018, amcangyfrifir bod y 30% isaf o incwm aelwydydd wedi codi 26% (heb ei haddasu ar gyfer chwyddiant), a bod effeithlonrwydd ynni gwell wedi arwain at ostyngiad amcangyfrifedig o 37% yn y defnydd cyfartalog o ynni sy'n ofynnol i gynnal system wresogi foddhaol. Er bod prisiau cymedrig tanwydd ar gyfer pob math o ddulliau gwresogi wedi cynyddu 47%, mae'r defnydd llai o ynni ynghyd â'r cynnydd mewn incwm wedi lleihau canran yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd oddeutu hanner o gymharu â 2008.

Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL A PHOLISI

22. Mae ynni, gan gynnwys cynhyrchu, trosglwyddo, dosbarthu a chyflenwi trydan, olew a nwy yn faterion a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, ynghyd â diogelu defnyddwyr, safonau cynnyrch, pwysau a mesurau.
23. Mae rhwydweithiau gwresogi ac oeri (ond nid y gwaith o'u rheoleiddio) a chynlluniau sy'n cynnig cymhellion i gynhyrchu, neu hwyluso'r broses o gynhyrchu, dulliau gwresogi neu oeri o ffynonellau ynni heblaw am danwyddau ffosil neu danwydd niwclear, ynghyd â mentrau i annog effeithlonrwydd ynni heblaw am drwy wahardd neu reoleiddio, yn faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru.

⁵ Mae meintiau'r samplau ar gyfer tlodi tanwydd difrifol yn fach ac nid ystyrir bod yr amcangyfrifon hyn mor gadarn â'r rhai ar gyfer tlodi tanwydd.

⁶ Diffinnir aelwyd agored i niwed fel y rhai sy'n cynnwys person sy'n 60 oed neu'n hŷn, plentyn neu berson ifanc dan 16 oed a/neu berson sy'n anabl neu sydd â chyflwr cyfyngol hirdymor.

⁷ Mae meintiau'r samplau ar gyfer tlodi tanwydd difrifol yn fach ac nid ystyrir bod yr amcangyfrifon hyn mor gadarn â'r rhai ar gyfer tlodi tanwydd

Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000

24. Gosododd y Ddeddf ofyniad ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru i gyhoeddi strategaeth ar gyfer lleihau tlodi tanwydd a'i rhoi ar waith, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt osod targedau ar gyfer rhoi'r strategaeth honno ar waith ac at ddibenion cysylltiedig.

25. Rhaid i'r strategaeth wneud y canlynol:

- disgrifio'r aelwydydd y mae'n gymwys iddynt,
- nodi pecyn cynhwysfawr o fesurau ar gyfer sicrhau y defnyddir ynni'n effeithlon, megis drwy osod cyfarpar priodol neu inswleiddio,
- nodi amcanion dros dro i'w cyflawni a dyddiadau targed ar gyfer eu cyflawni,
- nodi dyddiad targed ar gyfer cyflawni'r amcan o sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, nad yw pobl Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd.

Arbed Ynni, Cymru – Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 fel y'u diwygiwyd⁸.

26. Gwneir y rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru yn unol ag adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990. Mae'r Prif Reoliadau a wnaed yn 2011 yn cynnwys darpariaeth i feini prawf cymhwysedd gael eu defnyddio i ddiffinio pobl sy'n gymwys i gael cymorth o dan y cynllun (rheoliad 5), y dibenion y gellir cymeradwyo grant ar eu cyfer (rheoliad 6), uchafswm grant (rheoliad 7), gwybodaeth i'w darparu mewn cais am grant (rheoliad 8) a'r amodau a fydd ynghlwm wrth y grant (rheoliad 9). Diwygiwyd y Prif Reoliadau yn 2013 er mwyn diwygio'r diffiniad o gymorth sy'n gysylltiedig ag incwm yn seiliedig ar newidiadau a oedd yn cael eu gwneud i system fudd-daliadau'r DU.

27. Gwnaed diwygiad pellach yn 2018 er mwyn cael gwared ar geisiadau am grantiau rhannol a'r meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer pobl a oedd yn gwneud cais am y grantiau rhannol hynny, diweddarwyd y sgôr asedau leiaf ar gyfer anheddau cymwys a'r dull o asesu'r grant mwyaf sy'n daladwy o dan y cynllun, ac ychwanegwyd bylbiau golau rhad-ar-ynni at y dibenion y gellir cymeradwyo grant ar eu cyfer.

Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni

28. Ar 1 Ebrill 2018, daeth yn ofynnol i unrhyw eiddo a gaiff ei osod ar rent yn y sector rhentu preifat feddu ar sgôr perfformiad ynni o E o leiaf ar Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). Daeth y rheoliadau i rym ar gyfer eiddo gosod newydd ac eiddo lle roedd y contract yn cael ei adnewyddu yn y lle cyntaf, ond fe'u hestynnwyd i gynnwys tenantiaethau a oedd yn bodoli eisoes ar 1 Ebrill 2020. Mae bellach yn anghyfreithlon gosod eiddo ar rent sy'n torri'r gofyniad i feddu ar sgôr E o leiaf, oni bai bod eithriad cymwys. Er bod y rhan fwyaf o'r eiddo yn y sector rhentu preifat yn bodloni'r lefel hon

⁸ Diwygiwyd gan Reoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2013 a 2018

yn rhwydd, i rai landlordiaid, mae hyn yn golygu na fyddant yn gallu gosod eu heiddo ar rent mwyach os oes ganddo sgôr o F neu G.

29. Cwblhaodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ynghylch diwygiadau i'r Rheoliadau Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni ym mis Ionawr 2021. Ceisiodd yr ymgynghoriad safbwyntiau ar gynnig y llywodraeth i wella perfformiad ynni cartrefi yn y sector rhentu preifat yn y 2020au, er mwyn:

- Lleihau allyriadau yn sylweddol, a fydd yn cyfrannu at Gyllidebau Carbon 4 a 5 y DU ac yn cefnogi llwybr datgarboneiddio sy'n gyson â'n targedau ar y cyd, sef sero net erbyn 2050
- Lleihau biliau tenantiaid sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ar incwm isel, gan gefnogi targed tlodi tanwydd statudol Llywodraeth y DU;
- Cynyddu ansawdd, gwerth a dymunoldeb asedau landlordiaid;
- Lleihau biliau ynni tenantiaid a sicrhau cartrefi cynhesach;
- Cefnogi buddsoddiad mewn swyddi a sgiliau o safon uchel yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer gwaith ôl-osod domestig ledled Cymru a Lloegr;
- Rhoi mwy o sicrwydd ynni drwy leihau'r galw am ynni ar y grid a defnyddio llai o danwydd a gaiff ei fewnforio.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

30. Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan ddiogelu asedau ein gwlad ar gyfer y dyfodol. Drwy bum ffordd o weithio, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus (a restrir yn y Ddeddf) feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau rhag codi a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig.

31. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth yn y byd i gysylltu â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig drwy osod saith nod i Gymru er mwyn sicrhau bod pob un ohonom yn gweithio tuag at yr un weledigaeth. Mae cyfrifoldeb ar bob corff cyhoeddus i gyfrannu at gyflawni'r nodau hyn.

32. Mae'r saith nod yn bwysig wrth feddwl am yr angen i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a lleihau allyriadau carbon niweidiol, ond mae rhai yn fwy perthnasol wrth ystyried pam y mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â Thlodi Tanwydd a'r ffordd orau o wneud hynny.

33. Mae Cymru lewyrchus yn ei gwneud yn ofynnol inni ddatblygu mesurau gyda'r nod o annog pobl i ystyried sut y caiff ynni ei ddefnyddio yn y cartref a pha gamau y gellir eu cymryd i leihau eu galw am ynni. Mae cefnogi mesurau i wella effeithlonrwydd ynni a thermol cartrefi yn helpu i leihau cost diwallu anghenion ynni, ond mae hefyd yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi a'r sgiliau sydd eu hangen i ysgogi'r economi ddynamig sydd ei hangen ar Gymru i gystadlu mewn economi fyd-eang yn yr 21^{ain} ganrif.
34. Mae Cymru iachach yn ei gwneud yn ofynnol inni gymryd camau i osgoi'r peryglon sy'n gysylltiedig â byw mewn cartref oer. Dengys tystiolaeth fod pobl sy'n byw mewn cartref oer yn wynebu mwy o risg o gael salwch y gellid ei osgoi, bod pobl hŷn yn wynebu mwy o risg o farw cyn pryd, ac y caiff gallu plant i gyflawni eu potensial llawn ei danseilio os na ellir cynnal amgylchedd diogel a chyfforddus yn y cartref am gost fforddiadwy.
35. Mae creu Cymru sy'n fwy cyfartal yn berthnasol i bobl sy'n byw ar incymau is ac sy'n ei chael hi'n anodd talu am gostau anghenion ynni eu cartref. Mae hyn yn cynnwys pobl na allant fanteisio ar y cynigion ynni domestig gorau sydd ar gael ar y farchnad am eu bod wedi'u heithrio o'r farchnad gwasanaethau ariannol, am fod ganddynt ôl-ddyledion gyda'u cyflenwr ynni neu am fod yn well ganddynt dalu am eu hynni pan fyddant yn ei ddefnyddio er mwyn osgoi'r ofn o fynd i ddyled tanwydd na ellir ei rheoli.
36. O ganlyniad i fwy o achosion o dywydd garw a thywydd annisgwyl ar gyfer y tymor, a gaiff eu priodoli'n gynyddol i effeithiau hinsawdd sy'n newid, mae angen cymorth gan y Llywodraeth i gynnal Cymru gydnerth. Gall cost gynyddol tanwydd domestig yn ystod y gaeaf a'r galw am ynni i oeri ac awyru cartrefi yn ystod yr haf danseilio cydnerthedd ariannol pobl i ymdopi â digwyddiadau annisgwyl bywyd. Yn ogystal, mae tystiolaeth gynyddol bod cydnerthedd ariannol pobl yn cyfyngu ar eu gallu i wella pa mor barod ydynt yn bersonol ac fel teulu ar gyfer y gaeaf, gan arwain at argyfyngau y gellid eu hosgoi pan fydd tywydd eithafol.
37. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Lleihau lefel yr adnoddau naturiol a ddefnyddir gennym i ddiwallu ein hanghenion ein hunain yw'r prif ddull gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn ei fabwysiadu mewn perthynas â'n tai, ac mae'n cynnwys lleihau'r ynni y mae angen inni ei ddefnyddio i gynnal amgylchedd diogel a chyfforddus yn y cartref.


AMCANION POLISI

Symud Cymru Ymlaen

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru (2016/2021) yn darparu mwy o swyddi a swyddi gwell drwy economi gryfach a thecach, yn gwella ac yn diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus ac yn creu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

Ffyniant i Bawb – Symud Cymru Ymlaen

38. Rhoddodd y strategaeth eglurder uniongyrchol ynghylch addewidion y Llywodraeth ar gyfer tymor presennol y Cynulliad. Wedi'i rhannu'n bedair pennod, amlinellodd y prif ymrwymadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru. Mae Strategaeth Genedlaethol *Ffyniant i Bawb* yn nodi sut y caiff yr ymrwymadau eu cyflawni.



Figur 1 – Rhaglen Lywodraethu 2016-2021

39. Mae pedair thema allweddol y Strategaeth hon yr un peth â'r rhai yn *Symud Cymru Ymlaen*, sy'n dangos sut y bydd yr ymrwymadau yn cyfrannu at ffyniant i bawb. Gall cyflawni ymrwymadau mewn ffordd fwy integredig a chydweithredol wella llesiant pobl Cymru.
40. Ffyniannus a Diogel – Y nod yw creu economi yng Nghymru sy'n lledaenu cyfleoedd ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant unigol a chenedlaethol. Y bwriad yw galluogi pobl i gyflawni eu huchelgeisiau a gwella eu llesiant drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy, drwy ddileu'r rhwystrau i gael swydd, a chreu amgylchedd lle y gall busnesau dyfu a ffynnu.
41. Iach ac Egnïol – Y nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan helpu i gyflawni ein huchelgais o sicrhau ffyniant i bawb, a chymryd camau sylweddol tuag at newid ein dull gweithredu o drin i atal. Mae byw mewn cartref cynnes yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl.
42. Uchelgais a Dysgu – Y nod yw annog pawb i ddysgu drwy gydol eu hoes, gan eu hysbrydoli i wireddu eu potensial. Mae angen pobl greadigol, fedrus a hyblyg mewn Cymru ffyniannus, felly bydd addysg o'r oedran cynharaf yn sail i ddysgu a chyflawni gydol oes. Mae byw mewn cartref oer yn amharu ar allu plant i wireddu eu potensial.

Mae'n tanseilio eu hiechyd a'u llesiant yn y tymor hwy, yn peri risg y byddant yn datblygu salwch y gellid ei osgoi, ac yn cael effaith negyddol ar eu cyflawniad addysgol⁹.

43. Unedig a Chysylltiedig – Y nod yw creu cenedl lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymuned, yn hunaniaeth Cymru a'r Gymraeg, a'n lle yn y byd. Mae cysylltiadau hanfodol yn cael eu meithrin sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddod ynghyd, i'r economi dyfu ac inni ddod yn genedl hyderus sy'n gyfforddus â'i hun.

44. Wrth ddatblygu'r strategaeth genedlaethol ar gyfer rhoi'r Rhaglen Lywodraethu ar waith, daeth pum maes blaenoriaeth i'r amlwg yn y lle cyntaf fel y rhai sydd â'r potensial i gyfrannu fwyaf at ffyniant a llesiant hirdymor.

- **Y Blynyddoedd Cynnar:** mae profiadau unigolyn fel plentyn yn cael effaith sylweddol ar ei ddyfodol, ac maent yn hanfodol o ran ei gyfleoedd i fyw bywyd iach, ffyniannus a bodlon.
- **Tai:** conglaen byw'n dda yw cartref fforddiadwy o ansawdd sy'n cynnig ystod eang o fuddiannau i iechyd, dysgu a ffyniant.
- **Gofal Cymdeithasol:** mae gofal urddasol, tosturiol yn chwarae rhan hollbwysig mewn cymunedau cryf, gan sicrhau y gall pobl fod yn iach ac yn annibynnol am fwy o amser, ac mae'n sector economaidd arwyddocaol yn ei rinwedd ei hun.
- **Iechyd Meddwl:** bydd un o bob pedwar o bobl yng Nghymru yn profi salwch meddwl ar ryw adeg yn eu bywydau. Gall cael y driniaeth gywir ar gam cynnar, a bod yn fwy ymwybodol o gyflyrau, atal effeithiau andwyol hirdymor mewn sawl achos.
- **Sgiliau a Chyflogadwyedd:** mae gwell sgiliau yn gyfystyr â gwell siawns o gael swydd deg, ddiogel a boddhaol, a gorau po gryfaf yw sylfaen sgiliau Cymru, er mwyn gwella ein siawns o ddenu busnesau newydd a datblygu' rhai sy'n bodoli eisoes er mwyn gwella ffyniant.

45. Yn Adroddiad Blynyddol 2018, nododd Llywodraeth Cymru fod cyfres o gamau gweithredu'n cael eu datblygu a fydd yn cyfrannu at yr uchelgeisiau hyn. Un neges allweddol oedd canolbwyntio mwy ar ddatgarboneiddio gan y bydd lleihau allyriadau yn arwain at fuddiannau cyffredinol ac yn cyfrannu at nifer o'n blaenoriaethau, gan wella iechyd a llesiant a chreu cyfleoedd economaidd newydd. Felly, fel Llywodraeth, rydym wedi cytuno y bydd datgarboneiddio yn faes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu trawslywodraethol hefyd. Er mwyn annog twf cynaliadwy, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gwella tai, mae'r strategaeth genedlaethol yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Pennu llwybr carbon isel a fydd yn rhoi eglurder a sicrwydd ar gyfer gweithredu a buddsoddi mewn perthynas â'r economi carbon isel drwy osod targedau ar gyfer 2020, 2030 a 2040;

⁹ [Deall Nodweddion Aelwydydd Incwm Isel sydd yn y Perygl Mwyaf o Fyw mewn Cartrefi Oer](#) - t. 16

- Buddsoddi mewn cartrefi i wella eu cynhesrwydd a'u heffeithlonrwydd ynni, er mwyn gwella iechyd a lleihau costau tanwydd;
- Cyflymu ein cymorth ar gyfer dyluniadau tai newydd ac arloesol er mwyn ymateb i heriau, gan gynnwys yr angen enbyd am dai, Tlodi Tanwydd, y newid yn yr hinsawdd a newid demograffig.

Pwyllgor Cyngori Llywodraeth Cymru ar ddatgarboneiddio tai

46. Mae'r pwyllgor cyngori wedi gwneud argymhellion o ran y ffordd orau o gyflawni'r targed datgarboneiddio, sef gostyngiad o 95% erbyn 2050¹⁰, yn y sector tai domestig yng Nghymru. Roedd yr argymhellion a gyhoeddwyd gan y grŵp ar 18 Gorffennaf 2019 fel a ganlyn:

- Dylai'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru wneud ymrwymiad strategol i ddatgarboneiddio preswyl cenedlaethol, a chadw ato;
- Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau tai uchelgeisiol er mwyn cyflawni ei dyhead i gyflawni carbon sero net erbyn 2050;
- Dylai Llywodraeth Cymru roi'r system ansawdd a'r dulliau cyflawni cywir ar waith ar draws pob deiliadaeth er mwyn helpu i gyrraedd y targedau;
- Dylai Llywodraeth Cymru, drwy weithio gydag eraill, ddatblygu pecyn cymorth cyfannol ym mhob deiliadaeth er mwyn ysgogi a hwyluso camau gweithredu;
- Dylai Llywodraeth Cymru gasglu data am statws a chyflwr y stoc dai er mwyn llywio penderfyniadau a mesur cynnydd tuag at y targedau;
- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro a phrofi datrysiadau newydd i ddatgarboneiddio cartrefi;
- Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wneud y defnydd mwyaf o gymunedau, rhwydweithiau, cymdeithasau a sefydliadau'r Trydydd Sector er mwyn helpu i ddatgarboneiddio cartrefi.

Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni Llywodraeth Cymru

47. Cyhoeddwyd y Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni yn 2010,¹¹ ac mae'n nodi'r dull gweithredu ar gyfer y 10 mlynedd nesaf er mwyn cyflawni'r weledigaeth o sicrhau bod *'... Cymru yn y sefyllfa orau bosibl i wireddu ei photensial llawn o ran effeithlonrwydd ynni, a dod yn un o brif allforwyr technoleg a gallu ym maes effeithlonrwydd ynni.'*

48. Mae'r Strategaeth yn nodi pum maes gweithredu allweddol i gyflawni'r nod hwn:

¹⁰ Ym mis Mai 2019, argymhellodd cyngor gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd (UKCCC) ostyngiad o 95% mewn allyriadau carbon ar linell sylfaen 1990

¹¹ <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/efficiency/energy-efficiency-strategy-for-wales/?lang=en>

- Mae pobl, cymunedau, busnesau a sefydliadau eraill yn cydnabod manteision effeithlonrwydd ynni ac yn gweithredu;
- Cadwyn gyflenwi ledled Cymru i gyflawni gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni: i adeiladau, cynnyrch a phrosesau, ac mae'r busnesau hynny'n mynd ymlaen i dyfu ac allforio'u harbenigedd a'u gallu;
- Gweithlu hyddysg a medrus sy'n gallu ymateb i her effeithlonrwydd ynni, ac mae cyflogwyr yn cefnogi hyn drwy ymgysylltu a buddsoddi;
- Arloesi mewn cynnyrch effeithlonrwydd ynni newydd er mwyn darparu datrysiadau yng Nghymru, ac mae ein busnesau'n elwa ar y cyfleoedd a gynigir gan yr her fyd-eang hon;
- Mecanweithiau ariannu clir, llwybr clir at lai o allyriadau carbon a fframwaith sefydlog sy'n ddeniadol i fuddsoddwyr a defnyddwyr.

Dull gweithredu seiliedig ar hawliau – plant a phobl ifanc.

49. Llywodraeth Cymru oedd y Llywodraeth gyntaf yn y DU i gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ein fframwaith deddfwriaethol domestig. Drwy wneud hynny, mabwysiadwyd egwyddor Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus flaenoriaethu hawliau plant yn ei waith gyda phlant a theuluoedd er mwyn gwella bywydau plant. Mae CCUHP yn sail i bolisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru.
50. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus sy'n cyfrannu at wireddu hawliau plant.
51. Mae Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yn gyson â'r dyletswyddau hyn. Mae byw mewn cartref oer yn difetha bywydau ein plant ac yn amharu ar eu gallu i wireddu eu potensial yn llawn. Mae'n tanseilio eu hiechyd a'u llesiant yn y tymor hwy, yn achosi salwch y gellid ei osgoi, ac yn cael effaith negyddol ar gyflawniad addysgol¹².

Heneiddio'n Dda

52. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i greu cymunedau sydd o blaid pobl hŷn yn seiliedig ar naw thema Sefydliad Iechyd y Byd¹³. Ar y sail hon, rhaid i dai fod yn fforddiadwy, fod wedi'u dylunio'n hygyrch ac o fewn cyrraedd rhwydd i wasanaethau. Mae pobl hŷn, a ddiffinnir fel pobl 60 oed a throsodd, yn wynebu mwy o risg o ddatblygu salwch y gellid ei osgoi a marw cyn pryd am eu bod yn byw mewn cartref oer. Gan eu bod yn byw ar incwm sefydlog yn aml, mae risg y bydd buddsoddi yn y cartref er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni yn tanseilio cydnerthedd ariannol yn y tymor hwy a'r gallu i fyw'n annibynnol am fwy o amser.

¹² [Deall Nodweddion Aelwydydd Incwm Isel sydd yn y Perygl Mwyaf o Fyw mewn Cartrefi Oer](#) - t. 16

¹³ <https://www.who.int/about/who-we-are/constitution>

Anabledd

53. Rhaid i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru fod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y'u nodir yn adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau¹⁴. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn gytuniad rhyngwladol sy'n hyrwyddo, yn diogelu ac yn sicrhau y gall pobl anabl fwynhau pob hawl ddynol yn llawn ac yn gyfartal.

54. Mae erthyglau'r Confensiwn yn ymwneud ag amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys hygyrchedd, byw'n annibynnol, addysg, iechyd a gwaith a chyflogaeth. O ran byw'n annibynnol, mae Erthygl 19 (Byw'n annibynnol a chynhwysiant yn y gymuned) yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- Bod gan bobl anabl hawl gyfartal i fyw yn y gymuned a chymryd rhan ynddi.
- Bod gan bobl anabl hawl i'r un dewis a rheolaeth â phobl nad ydynt yn anabl.

Cymorth i grwpiau blaenoriaeth (cyn-filwyr, plant, pobl hŷn sy'n 60 oed a throsodd, pobl anabl, teithwyr, pobl sy'n gadael gofal a phrentisiaid)

55. Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cymorth i grwpiau penodol mewn cymdeithas wrth ddatblygu a darparu rhaglenni a ariennir. Gall cyn-filwyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd presennol a nodir yn y Cynllun Cartrefi Clyd gael cymorth i ddiwallu eu hanghenion yn well yn ystod misoedd y gaeaf, ond nid yw hyn yn sicrhau darpariaeth llawn.

56. Mae nifer o gynlluniau iawndal a weinyddir gan Veterans UK ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gael i bersonél sy'n gwasanaethu a chyn-bersonél a anafwyd o ganlyniad i wasanaeth yn y Lluoedd Arfog. Bydd y cynllun sy'n gymwys i bob unigolyn yn dibynnu ar ble y gwasanaethodd y cyn-filwr a phryd. Gellir hawlio Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog ar gyfer salwch neu anaf a achoswyd o ganlyniad i wasanaethu ar 6 Ebrill 2005 neu ar ôl hynny.

57. Gellir hawlio'r Cynllun Pensiwn Rhyfel os nad yw unigolyn yn gwasanaethu mwyach a chafodd anabledd ei achosi o ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog cyn 6 Ebrill 2005. Gellir hawlio'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (Dramor) os dioddefodd y cyn-filwr neu ei ddibynyddion drosedd dreisgar wrth wasanaethu dramor, a hynny'n gwbl ddiniwed.

¹⁴ <https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html>

58. Mae cymunedau teithwyr ymhlith grwpiau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, ond mae'r meini prawf cymhwysedd presennol yn peri rhwystr i'r gymuned hon. Cynigiwyd prosiect o dan y Cynllun Arbed presennol ond nid yw wedi'i ddatblygu eto. Adroddwyd 1,092 o garafannau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ar 23 Ionawr 2020¹⁵. Roedd 136 o safleoedd ledled Cymru. O gymharu cyfrifiadau Ionawr 2019 ac Ionawr 2020, mae nifer y carafannau wedi cynyddu 6% (59 o garafannau) ar safleoedd awdurdodedig. Darparwyd 405 o leiniau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar 23 Ionawr 2020. Gallai ymdrechion i wella effeithlonrwydd ynni gan ddefnyddio'r gronfa gyfalaf hon arwain at fwy o fanteision.
59. Nodir bod angen cymorth ychwanegol drwy Raglenni'r Llywodraeth ar Brentisiaid a Phobl sy'n gadael Gofal. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diwygio deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r modd y caiff y dreth gyngor ei thalu ar gyfer pobl sy'n gadael gofal.

YMGYNGHORIAD AR Y CYNLLUN DRAFFT I DRECHU TLODI TANWYDD – CRYNODEB O'R CANLYNIADAU


60. Lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngghoriad ar gynllun i drechu tlodi tanwydd ym mis Hydref 2020. Cynigiodd y cynllun drafft dargedau diwygiedig i'w cyflawni erbyn 2035, ynghyd â deg cam gweithredu byrdymor i'w cyflawni erbyn diwedd 2023. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 30 Medi. Cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ddatganiad ysgrifenedig mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar 20 Hydref. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Rhagfyr 2020.
61. Mae copi o'r datganiad ar gael yn <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllun-drafft-i-fynd-ir-afael-thlodi-tanwydd>
62. Cafodd y cynllun drafft ei lywio gan waith ymgysylltu helaeth â'r trydydd sector sy'n cefnogi ein cymunedau, gan gynnwys cyfarfod bord gron i Weinidogion ym mis Mehefin 2019. Cafodd ei lywio ymhellach gan yr Adroddiad Tirwedd ar Dlodi Tanwydd yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019 gan Archwilio Cymru, a'r gwaith a wnaed fel rhan o ymchwiliad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd i dlodi tanwydd, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2020. Yr adroddiadau pwysig hyn oedd asgwrn cefn y cynllun drafft, a oedd yn cynnig gostwng lefelau amcangyfrifedig tlodi tanwydd dros y 15 mlynedd nesaf.
63. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd cyfarfodydd dwyochrog rhwng Llywodraeth Cymru ac ymgynghoreion statudol, gan gynnwys y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cynhaliwyd tri gweithdy rhithwir gan Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd, ac roedd 79 o gynrychiolwyr yn bresennol (Ffigur 2). Canolbwyntiodd un gweithdy ar dlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig.

¹⁵ <https://gov.wales/gypsy-and-traveller-caravan-count-january-2020>

	Llywodraeth Leol	Tai Cymdeithasol	Y Byd Academaidd	Diwydiant	Y Trydydd Sector	Arall	CYFANSWM
10 Tach	5	5	1	5	7	1	24
16 Tach	8	2	1	8	9	2	30
17 Tach	4	1	0	2	16	2	25
CYFANSWM	17	8	2	15	32	5	79
%	21.5%	10.1%	2.5%	19.0%	40.5%	6.3%	


Ffigur 2 – Cynrychiolwyr yn cymryd rhan mewn gweithdai i drafod yr ymgynghoriad ar y cynllun drafft i drechu tlodi tanwydd

64. Gallai pobl ymateb i'r ymgynghoriad mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys drwy anfon e-bost neu drwy lenwi ffurflen ar-lein. Ni chafwyd unrhyw ymatebion drwy'r post i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays yng Nghaerdydd.



Ffigur 3 – Nifer yr ymatebion a gafwyd erbyn 31 Rhagfyr 2020 fesul sector


65. Ar 31 Rhagfyr, roeddem wedi cael 57 o ymatebion unigol i'r ymgynghoriad, yr oedd 16 ohonynt gan Sefydliadau'r Trydydd Sector. Gan sefydliadau sy'n gweithredu ledled Cymru y cafwyd y nifer mwyaf o ymatebion i'r ymgynghoriad o bell ffordd.



Ffigur 4 – Nifer yr ymatebion a gafwyd erbyn 31 Rhagfyr 2020 fesul lleoliad

Cwestiwn 1 – Camau ychwanegol posibl i leihau tlodi tanwydd yng Nghymru

66. Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd Llywodraeth Cymru gyflawni 10 cam dros y ddwy flynedd nesaf fel rhan o'n hymdrechion i drechu tlodi tanwydd. Gwnaethom ofyn i bobl a oeddent yn gwybod am gamau ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd, a allai gyfrannu at ein hymdrechion i leihau tlodi tanwydd yn y ddwy flynedd nesaf?



Ffigur 5 – Ymateb i gwestiwn 1 – Camau a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru

67. Roedd pob ymatebydd heblaw un a atebodd y cwestiwn hwn yn croesawu'r camau a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru. Er bod 16% o'r farn bod y camau yn rhesymol, roedd mwyafrif helaeth yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol, neu gynnwys mwy o fanylion am y camau arfaethedig yn y cynllun drafft. Mynegodd nifer o ymatebwyr, ond nid mwyafrif, bryder nad oedd y cynllun yn cynnwys targedau dros dro ac nad oedd y camau yn mynd y tu hwnt i 2023.
68. Awgrymodd un ymatebydd fod angen troi'r ddadl ynghylch fforddiadwyedd ynni ar ei phen gan honni bod **"Gormod o ymdrech yn cael ei gwneud i osgoi neu leihau tlodi tanwydd (mae dadl flynyddol yn San Steffan erbyn hyn hyd yn oed!) ac nid oes digon yn cael ei wneud i hybu a sicrhau cyfoeth ynni. Drwy ganolbwyntio ar gyfoeth ynni, gall pob un ohonom ystyried lleihau'r galw am ynni A chynyddu perchenogaeth dros ynni yn lleol, yn gymunedol ac fel cartref yn arbennig, a fydd, yn ei dro yn lleihau, neu hyd yn oed yn dileu, tlodi tanwydd"**.
69. Ysgrifennodd un ymatebydd **"un pryder ynghylch yr holl gamau cadarnhaol hyn yw bod diffyg manylion am lawer ohonynt, byddant ond yn cael eu rhoi ar waith yn iawn ar ôl 2023, neu byddant ond ar waith rhwng 2021 a 2023. Mae angen cyfres gynhwysfawr o gamau ar strategaeth tlodi tanwydd lwyddiannus er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi, lleihau prisiau ynni a hybu incwm aelwydydd."** Adlewyrchwyd y safbwynt hwn yn y mwyafrif o'r ymatebion.
70. Er y croesawyd y buddsoddiad parhaus yn y Rhaglen Cartrefi Clyd, roedd llawer o'r farn bod y meini prawf cymhwysedd o ran incwm yn seiliedig ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, yn rhy gyfyngol. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ymestyn cynlluniau i wella effeithlonrwydd ynni i bob aelwyd yn hytrach na bod yn seiliedig ar brawf modd. **"Nid dim ond pobl sydd ar fudd-daliadau sy'n ei chael hi'n anodd talu biliau tanwydd ac nid yw rhai pobl am gael eu stigmatiddio gan dlodi pan fyddant yn defnyddio cynllun. Byddai hyn yn helpu ein targedau ar gyfer yr amgylchedd yn ogystal â helpu gyda thlodi tanwydd"**. Awgrymodd tri ymatebydd fod angen cymryd camau pellach i godi ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Cartrefi Clyd.
71. Dywedodd ymatebydd arall fod angen rhoi mwy o gymorth i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr gan ddweud, **"Mae llawer o'm cleientiaid yn byw mewn tlodi tanwydd ac nid ydynt yn gymwys i gael unrhyw gymorth o dan y cynlluniau presennol am eu bod yn byw ar safleoedd a gaiff eu rheoli gan y cyngor lle nad oes prif gyflenwad nwy ar gael, felly ni allant gael unrhyw gymorth ariannol i brynu poteli nwy. Y broblem arall yw nad nhw yw'r cwsmer ar gyfer eu trydan (yr awdurdod lleol sy'n berchen ar y safleoedd yw cwsmer y cyflenwr ynni, nid preswylwyr lleiniau unigol). Mae hyn yn golygu nad yw preswylwyr, unwaith eto, yn gymwys ar gyfer unrhyw rai o'r cynlluniau cymorth cartrefi clyd. Ni allant fynegi eu barn am y ffordd y maent yn cael eu hynni ac nid oes hawl ganddynt i newid cyflenwr"**.
72. Awgrymodd rhai ymatebwyr a oedd yn cynrychioli darparwyr tai cymdeithasol a landlordiaid preifat fod angen pecyn ystyrlon o gyllid i gefnogi'r sector tai preifat a chymdeithasol er mwyn gwella perfformiad ynni'r stoc dai. Gwnaethant awgrymu y dylid darparu cyllid er mwyn gwneud gwelliannau i adeiladwaith yn y lle cyntaf, yna uwchraddio systemau gwresogi ac, yn olaf, darparu datrysiadau ynni adnewyddadwy.

73. Awgrymodd saith ymatebydd fod angen gwneud mwy i gefnogi ardaloedd gwledig. Awgrymodd un ymatebydd y gall nwy hylifedig chwarae rôl allweddol o ran helpu eiddo nad yw ar y grid i wella ei effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau (carbon). ***“Gan mai dyma'r ffynhonnell ynni gonfensiynol carbon isaf ar gyfer cartrefi a busnesau nad ydynt ar y grid, mae annog pobl i newid o olew a glo i LPG yn cynnig arbedion clir ac uniongyrchol o ran allyriadau”***
74. Roedd chwe ymatebydd o'r farn bod y cynnig i adrodd ar gynnydd o ran lleihau lefelau amcangyfrifedig tlodi tanwydd bob dwy flynedd yn annigonol, ac awgrymwyd y dylid adrodd yn flynyddol. Mynegodd un ymatebydd hyn drwy ddweud ***“Dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu ystadegau tlodi tanwydd blynyddol ac ystyried arferion da gwledydd eraill wrth ddylunio'r ffordd y caiff data am dlodi tanwydd yng Nghymru eu cyflwyno. Dylai'r adolygiad cyntaf o berfformiad yn erbyn yr amcanion tlodi tanwydd gael ei gwblhau erbyn diwedd 2022 fel y gellir gweithio ar unrhyw ganfyddiadau yn 2023 ac wedi hynny”***.
75. Mynegodd saith ymatebydd bryder ynghylch diffyg targedau dros dro a chmau tymor hwy yn y cynllun drafft hefyd. Pwysleisiodd un ymateb a gyflwynwyd ar ran deg sefydliad sy'n gweithio i drechu tlodi tanwydd y pwynt canlynol: ***“Nid yw'r targedau newydd yn bodloni rhwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru a nodir yn Neddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ynni 2013, i nodi amcanion dros dro i'w cyflawni a dyddiadau targed ar gyfer eu cyflawni”***. Nid yw'r cynllun arfaethedig yn cynnwys unrhyw dargedau dros dro o'r fath, a fyddai'n darparu llwybr cliriach i 2035, yn ein barn ni, ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn atebol o ran cynnydd. Hefyd, gan fod 15 mlynedd rhwng nawr a'r dyddiad targed, rydym yn bryderus bod targedau anstatudol, sy'n cwmpasu tri chyfnod y Senedd, heb gerrig milltir yn y cyfamser, yn peri risg ddifrifol na fydd y camau gweithredu na'r buddsoddiad parhaus sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn yng Nghymru yn cael eu hysgogi”.
76. ***“Yn ogystal, nid yw rhoi dyddiad targed o 2035 i'r tri tharged anstatudol arfaethedig yn blaenoriaethu'r 'gwaethaf yn gyntaf' – dylid blaenoriaethu'r rhai mwyaf anghenus. Roedd cefnogi'r 'gwaethaf yn gyntaf' yn un o egwyddorion allweddol strategaeth 2010, a dylai barhau i fod yn brif ffocws yn y cynllun newydd wedi'i ddiweddarau. Felly, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddod â'r targed i ddileu tlodi tanwydd difrifol ymlaen i 2028. Gall hyn sicrhau bod y cynllun yn bodloni rhwymedigaethau statudol ac yn cyflymu camau gweithredu i'r rhai mwyaf anghenus”***.
77. Tynnodd ymatebydd arall sylw at fesurau eraill a drafodwyd yn yr atodiad technegol a oedd yn cyd-fynd â'r cynllun, gan nodi ei fod o'r farn y dylid eu cynnwys yn y cynllun terfynol. ***“Mae'r atodiad technegol yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gyflwyno dau gynllun peilot fel rhan o'r cynllun. Byddai'r rhain yn cwmpasu: Cronfa arloesi i ystyried sut y gellir lleihau'r ynni a ddefnyddir mewn tai 'anodd eu cyrraedd' fel y rhai mewn ardaloedd nad ydynt ar y grid. Darparu mwy o gynhyrchion effeithlonrwydd ynni i aelwydydd incwm is er mwyn lleihau faint o ynni a ddefnyddir ganddynt drwy osod poptai â hobiau anwytho a darparu offer coginio priodol”***.

78. Awgrymodd ymatebydd a oedd yn cynrychioli cwmni ynni y dylai'r cynllun trechu tlodi tanwydd terfynol nodi'n fanylach sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid drwy gynlluniau, megis y Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni. ***“Mae angen i'r Cynllun terfynol gynnwys manylion pellach o ran sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu'r ddarpariaeth yng Nghymru o dan gynlluniau rhwymedigaeth cyflenwyr megis y Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) drwy ddefnyddio arian cyfatebol o adnoddau cyhoeddus a gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn helpu i nodi'r aelwydydd hynny sy'n gymwys i gael cymorth. Yn y cyd-destun hwn, nodwn fod y Cynllun arfaethedig yn nodi'n gywir ddigon fod angen rhoi mwy o gymorth i awdurdodau lleol ddatblygu a hyrwyddo datganiadau LA Flex ECO effeithiol i hwyluso'r gwaith o gyflwyno mesurau ECO i'r rhai anghenus yn eu hardaloedd awdurdod lleol. Dylai'r Cynllun hefyd amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, ynghyd ag Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, i nodi'r ffordd orau o hyrwyddo gwelliant o ran effeithlonrwydd ynni'r sector Tai Rhent Cymdeithasol a'r sector Rhentu Preifat.***

79. Gan ystyried yr holl ymatebion, roedd y newidiadau a awgrymwyd yn yr ymatebion i gwestiwn 1 fel a ganlyn:

- Targedau a chymau gweithredu
 - i. Mae angen targedau tymor hwy a cherrig milltir yn y cyfamser
 - ii. Dod â tharged tlodi tanwydd difrifol ymlaen i 2028/Targedau i fynd i'r afael â'r gwaethaf yn gyntaf
 - iii. Cynnwys targedau EPC yn unol â Llywodraeth y DU erbyn 2030
 - iv. Gwneud targedau yn statudol
- Cyswllt cryfach â datgarboneiddio a chyflawni'r uchelgais sero net
- Monitro a gwerthuso'n flynyddol ac ar lefel Awdurdodau Lleol
- Y Rhaglen Cartrefi Clyd
 - i. Cymorth ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat, gan ehangu Safon Ansawdd Tai Cymru i'r sector rhentu preifat o bosibl
 - ii. Croesawyd y buddsoddiad parhaus ym Mhartneriaeth Tai Cymru a'r newidiadau arfaethedig, ond awgrymodd rhai y dylid cynnwys ffenestri a drysau newydd a gwaith galluogi ac atgyweirio i systemau gwresogi
 - iii. Technoleg newydd arloesol – addysg well ar sut i'w defnyddio
- Mwy o gymorth i ardaloedd gwledig, gan gynnwys cyllid ar gyfer prynu tanwydd
- Ceisio datganoli'r cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes a thaliadau Tywydd Oer – cyflwyno taliadau tywydd oer fel rhan o gynllun gwydnwch dros y gaeaf
- Cyflwyno Cynllun Talebau Cartrefi Gwyrdd, neu wella cymorth i aelwydydd incwm canolog

- Cymorth i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
- Cynllun peilot i annog pobl i brynu nwyddau sy'n defnyddio ynni.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 1

80. **Targedau a champau gweithredu** – Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu awgrymiadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ac mewn perthynas â thargedau dros dro y gellid eu cynnwys yn y cynllun trechu tlodi.
81. Mae digwyddiadau 2020 yn tanseilio dibynadwyedd yr amcangyfrifon tlodi tanwydd a gyhoeddwyd yn 2018 y gellir seilio amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol arnynt. Mae'r pandemig byd-eang parhaus a'i effaith ar aelwydydd, ynghyd â'r effaith bosibl ar weithgarwch economaidd yn sgil ymadawiad y DU â'r UE, yn gwneud ein cyd-destun presennol hyd yn oed yn fwy ansicr. Er bod ymatebwyr wedi cyflwyno achos cymhellol dros gynnwys y targedau dros dro a awgrymwyd yn y cynllun terfynol, byddai gwneud hynny ar hyn o bryd yn dybiannol iawn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid gwneud gwaith ymchwil pellach i ystyried targedau dros dro realistig y gellir eu cyflwyno fel rhan o'r adolygiad cyfnodol cyntaf o'r cynllun yn 2023.
82. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen i dargedau i drechu tlodi tanwydd gael eu corffori yng Nghyfraith Cymru er mwyn bod yn effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i strategaeth trechu tlodi tanwydd gael ei llunio a'i chyhoeddi. Nododd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad nad oedd y cynllun drafft yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol yn eu barn nhw, am nad oedd yn cynnwys targedau dros dro. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno cynigion i gyflwyno i fil drafft gael ei gyflwyno gerbron y Senedd ar yr adeg hon ac, fel y trafodwyd uchod, byddai cyflwyno targedau dros dro ar hyn o bryd yn dybiannol iawn heb gael tystiolaeth bellach fel sail iddynt.
83. **Cyswllt cryfach â datgarboneiddio a chyflawni'r uchelgais sero net.** Ym mis Rhagfyr 2020, rhoddodd Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd wybod i Lywodraeth Cymru y bydd angen i bobl a busnesau ddewis mabwysiadu datrysiadau carbon isel wrth i opsiynau carbon uchel gael eu dileu'n raddol. Erbyn dechrau'r 2030au, bydd pob car a fan newydd a phob boeler newydd a gaiff ei osod mewn cartrefi ac adeiladau eraill yn rhai carbon isel – trydan yn bennaf. Nododd y dylid cael gwared ar foeleri nwy naturiol preswyl yn raddol erbyn 2033, a chael gwared ar foeleri olew erbyn 2028.
84. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol na ddylai'r manteision y gellir eu cyflawni drwy ddatgarboneiddio tai fod ar draul aelwydydd incwm is. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynegi opsiynau ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn seiliedig ar y dysgu yr adroddir arno yn sgil y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ac argymhellion a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ym mis Rhagfyr 2020, gan geisio gwneud y cynnydd gorau posibl yn erbyn amcanion amrywiol.

85. **Monitro a gwerthuso'n flynyddol ac ar lefel Awdurdodau Lleol.** Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn bod angen gwella prosesau casglu data ac adrodd ar lefelau amcangyfrifedig tlodi tanwydd. Roedd y lefelau tlodi tanwydd amcangyfrifedig a gyhoeddwyd yn 2019 yn seiliedig ar yr Arolwg Cyflwr Tai a gynhaliwyd yn 2017-18. Cynhaliwyd yr arolwg blaenorol yn 2008. Er ein bod yn cytuno nad yw adrodd bob deng mlynedd yn ddigonol i fod yn arwyddocaol ac mai adrodd yn flynyddol fyddai'r opsiwn a ffefrir, byddai cost gwneud hynny'n anghymesur, yn ein barn ni. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cylch bob dwy flynedd ar gyfer adrodd ar lefelau amcangyfrifedig tlodi tanwydd.
86. **Y Rhaglen Cartrefi Clyd –** Bydd y sylwadau ynghylch y Rhaglen Cartrefi Clyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu ein cynigion ar gyfer iteriad nesaf y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynigion hyn yn dechrau yn yr haf. Yn y cyfamser, ein bwriad yw cynnal yr hyblygrwydd a gyflwynwyd yn 2017, ac y gwnaethom ei wella yn 2019, i gefnogi pobl sy'n byw ar incwm is, nid o reidrwydd ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, sydd â chyflwr iechyd sy'n cynyddu'r risgiau sy'n gysylltiedig â byw mewn cartref oer. Bydd cynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd yn parhau i gefnogi aelwydydd cymwys yn y Sector Rhentu Preifat ac mewn Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, lle y bo'n ymarferol gwneud hynny, tan ddiwedd y contract presennol yn 2023.
87. Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Cynllun Talebau Cartrefi Gwyrdd yn Lloegr ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r Cynllun Talebau Cartrefi Gwyrdd bellach wedi cael ei ymestyn tan fis Mawrth 2022. Pan gyhoeddwyd y cynllun, cafodd Llywodraeth Cymru sylwadau yn gofyn a fyddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno yng Nghymru ac, os na fyddai, pam?
88. Nid yw'r Cynllun Talebau Cartrefi Gwyrdd mor hael â'r hyn a nodwyd i ddechrau. Bydd angen i ddeiliaid tai, oni bai eu bod yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, dalu am draean cost unrhyw fesurau effeithlonrwydd ynni cartref a gaiff eu gosod o dan y cynllun. Cafodd ffenestri a drysau lawer o sylw yn y cyfryngau yn ystod y lansiad, ond mesurau eilaidd yn unig yw'r rhain ac mae gwerth y cyfraniad yn gyfyngedig i'r gwerth a fuddsoddwyd mewn mesurau cynradd, megis inswleiddio a systemau gwresogi ynni isel. Mae hyn yn golygu y byddai deiliad tŷ sy'n cael £1000 fel cyfraniad o ddau draean tuag at bwmp gwres ffynhonnell aer yn cael £1000 ar y mwyaf tuag at gost ffenestri newydd.
89. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i hargyhoeddi mai'r cynllun a roddwyd ar waith yn Lloegr yw'r ateb cywir i gefnogi aelwydydd incwm is i godi allan o dlodi neu annog perchen-feddianwyr i fuddsoddi mewn gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni eu cartref. Mae'n bosibl na fydd gosod mesurau effeithlonrwydd ynni heb gynnal asesiad o'r tŷ cyfan yn cyflawni'r gostyngiadau carbon a'r arbedion ynni sydd eu hangen i sicrhau ein llwybr tuag at gyflawni sero net erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i annog deiliaid tai i wella effeithlonrwydd ynni eu cartref a, lle y bo'n briodol, darparu cymorth ariannol i aelwydydd incwm is i'w galluogi i wneud gwelliannau.

90. Mwy o gymorth i ardaloedd gwledig, gan gynnwys cyllid ar gyfer prynu tanwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd yn dilyn ei ymchwiliad i dlodi tanwydd. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r strategaeth tlodi tanwydd newydd gynnwys darpariaethau sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r heriau gwahanol a wynebwr mewn ardaloedd gwledig. Dylai hyn gynnwys rhaglen bwrpasol gyda lefelau priodol o gyllid sy'n ystyried y mesurau mwy cymhleth a drutach sydd eu hangen yn aml i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynigion o ran cymorth yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig yn yr ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd.

91. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi mesurau ychwanegol ar waith i aelwydydd nad ydynt wedi'u cysylltu â'r grid nwy. Mae Taliadau Cymorth mewn Argyfwng o hyd at £175 wedi'u darparu drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn helpu gyda chost prynu olew gwresogi neu nwy hylifedig. Bydd y cynllun peilot yn cwmpasu cyfnod gaeaf 2021/21 hyd at 31 Mawrth 2021.


92. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarpar sy'n defnyddio ynni i aelwydydd incwm is drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau i sicrhau mai'r cyfarpar trydanol a ddarperir i aelwydydd drwy'r rhaglen hon yw'r rhai mwyaf ynni effeithlon sydd ar gael, er mwyn helpu i leihau costau rhedeg aelwydydd ymhellach.

93. Ceisio datganoli'r cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes a thaliadau Tywydd Oer – cyflwyno taliadau tywydd oer fel rhan o gynllun gwydnwch dros y gaeaf. Caiff taliadau a ddarperir gan Lywodraeth y DU i helpu gyda chostau gwresogi yn ystod y gaeaf eu cymhwyso'n gyffredinol i bobl hŷn. Caiff y taliadau eu gwneud drwy'r system fudd-daliadau neu, yn achos y Gostyngiad Cartrefi Cynnes, drwy gyflenwyr ynni fel gostyngiad i'r bil ynni, sy'n lleihau costau gweinyddu.

94. Daw Taliadau Tywydd Oer yn daladwy mewn ardaloedd lle ceir cyfnodau estynedig o dywydd oer er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae pobl yn byw mewn cartrefi oer am fod arnynt ofn cael biliau ynni uwch. Mae'r budd-dal hwn yn canolbwyntio ar deuluoedd incwm is sy'n cael rhai budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod deiliaid tai yng Nghymru yn cael eu trin yn llai ffafriol nag aelwydydd ym Mhrydain Fawr yn sgil y trefniadau presennol. Y dull gweithredu a ffefrir gennym yw parhau i weithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru ac yn Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau y gall aelwydydd yng Nghymru fanteisio i'r eithaf ar y cynlluniau presennol.

Cwestiwn 2 – Diffiniad o dlodi tanwydd

95. Yn dilyn yr ymchwiliad i dlodi tanwydd, argymhellodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Seneddy dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu diffiniad mwy priodol o dlodi tanwydd: un sy'n adlewyrchu profiad byw cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru yn fwy cywir. Fel man cychwyn, dylai ystyried y dull 'incwm gweddilliol', gan ddysgu gwersi o Loegr a'r Alban. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol a'i gwblhau o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.
96. Yn ei hymateb i'r pwyllgor, cytunodd Llywodraeth Cymru y dylai'r diffiniad a'r mesurau a ddefnyddir i asesu tlodi tanwydd fod yn briodol i bobl Cymru. Mae angen i unrhyw fesur ystyried natur fyrhoedlog tlodi tanwydd. Yn ôl y diffiniad yn Neddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000, dylid ystyried bod unigolyn yn byw "mewn tlodi tanwydd" os yw aelod o'r aelwyd yn byw ar incwm is mewn cartref na ellir ei gadw'n gynnes am gost resymol. Mae'r diffiniad hwn yn parhau i fod yn gymwys i Gymru a Lloegr. Yng Nghymru, roedd Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cadw'r diffiniad a'r dulliau presennol o fesur tlodi tanwydd yn seiliedig ar incwm llawn, gan gyflwyno mesur newydd i helpu i nodi pobl sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd, neu bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd parhaus. Cytunodd Llywodraeth Cymru i ystyried y mater ymhellach, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun trechu tlodi tanwydd newydd. Gwnaethom ofyn a ddylid parhau i ddefnyddio'r diffiniad presennol o dlodi tanwydd, neu a ddylid mabwysiadu diffiniad amgen.



Figur 6 – Ymateb i gwestiwn 2 – Diffiniad o dlodi tanwydd i'w ddefnyddio yng Nghymru

97. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y dylid cadw'r diffiniad presennol o dlodi tanwydd yng Nghymru, ond awgrymodd 16% y dylid defnyddio diffiniad amgen megis yr un a ddefnyddir yn yr Alban. Mae'r diffiniad yn Adran 2 o Ddeddf Tlodi Tanwydd (Targedau, Diffiniad a Strategaeth) (Yr Alban) 2019 yn nodi yr ystyrir bod aelwyd mewn tlodi tanwydd os byddai angen mwy na 10% o'i hincwm net sy'n weddill, ar ôl talu costau tai, i dalu am ei hanghenion tanwydd rhesymol, ac ar ôl talu am ei hanghenion tanwydd rhesymol, ei chostau gofal plant a'i chostau tai, na allai'r aelwyd gynnal safon byw dderbyniol. Y dull incwm gweddilliol yw'r enw ar y dull hwn.


98. Dywedodd un ymatebydd a oedd yn cefnogi diffiniad yr Alban ***"Mae diffiniadau sydd wedi'u mabwysiadu gan nifer o lywodraethau Ewrop yn cwmpasu mwy nag anghenion gwresogi'n unig. Er enghraifft, yn Ffrainc, mae Deddf ""Grenelle II"" yn diffinio tlodi tanwydd fel sefyllfa lle mae unigolyn yn ei chael hi'n anodd cael yr ynni angenrheidiol yn ei gartref i ddiwallu ei anghenion sylfaenol (gan gynnwys golau, coginio, dŵr poeth a gwres) o ganlyniad i adnoddau neu amodau byw annigonol"***.
99. Awgrymodd ymatebydd arall y byddai cadw'r diffiniad presennol o dlodi tanwydd yn gwneud y gwaith o ddadansoddi tueddiadau ystadegol mewn data tlodi tanwydd dros amser yn fwy ymarferol, gan nodi nad yw'r diffiniad presennol yng Nghymru yn ystyried incwm gwario'r aelwyd. Gyda chostau byw cynyddol, awgrymodd y gall aelwydydd fod yn gwneud arbedion mewn meysydd eraill, er enghraifft drwy brynu ystod lai o fwydydd o safon is, byw mewn anheddau llai a rhannu llety ag eraill. Mae diffiniad yr Alban o dlodi tanwydd yn ystyried costau tai, costau gofal plant, costau byw i bobl anabl a chostau eraill wrth bennu faint o incwm sydd ar gael i dalu am danwydd. Mae hyn yn cynnig dull mwy sensitif o fesur tlodi tanwydd.
100. Gan gyfleu sylwadau a wnaed gan eraill, dywedodd yr ymatebydd ***"O dan y dull presennol o fesur tlodi tanwydd, mae'n bosibl y bydd gan y rhai sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd incymau sy'n eu heithrio o'r diffiniad o dlodi tanwydd cyn iddynt dalu am y cymorth sydd ei angen i fyw'n annibynnol. Byddai ystyried costau eraill yn galluogi pobl anabl a'r rhai sy'n byw mewn tai a rennir sydd ar yr incymau isaf i gael eu hystyried wrth bennu nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd"***.
101. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gadw'r diffiniad presennol ac yn derbyn bod y diffiniad yn parhau i fod yn berthnasol a, pan gaiff ei gyfuno â'r dulliau mesur sydd ar waith ar hyn o bryd, yn haws ei gyfleu a'i ddeall. Fodd bynnag, nodwyd y dylid cymryd gofal. ***"Rhaid i'r diffiniad sicrhau nad yw'n seiliedig ar daliadau ynni gwirioneddol yn sgil yr aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd a all fod yn tanwresogi eu cartref ac felly'n atal eu hunain rhag talu mwy na 10% (er y dylent fod yn gwario mwy er mwyn gallu bodloni eu gofynion gwresogi mewn gwirionedd)"***. Roedd y risg hon o danwresogi, hunanddatgysylltu neu hunanddogni yn thema gyson drwy gydol yr ymarfer ymgynghori.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 2

102. Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r diffiniad presennol o dlodi tanwydd. Cydnabyddir y pwyntiau a wnaed gan randdeiliaid ynghylch y risg o hunanddogni, hunanddatgysylltu a thanwresogi. Rhaid cymryd gofal i nodi aelwydydd lle mae hyn yn amlwg.

Cwestiwn 3 – Lefel incwm is arfaethedig

103. Yn y cynllun drafft, gofynnodd Llywodraeth Cymru a yw'r diffiniad arfaethedig o incwm is yn briodol neu a ddylid ystyried lefel wahanol. Mae adroddiad Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog¹⁶ (HBAI) yn cyflwyno gwybodaeth am safonau byw yn y DU yn seiliedig ar ddulliau mesur incwm yr aelwyd. Darperir amcangyfrifon ar gyfer incwm cyfartalog, anghydraddoldeb incwm a nifer a chanran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. At ddiben y cynllun hwn ac ar gyfer diffinio cymhwysedd incwm is er mwyn darparu mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, diffinnir incwm is fel incwm sy'n llai na 60% o incwm cyfartalog aelwyd cyn costau tai, fel y cyhoeddir yn flynyddol yn yr adroddiad Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog¹⁷.



Ffigur 7 – Ymateb i gwestiwn 3 – Diffiniad o incwm is i'w ddefnyddio yng Nghymru

104. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r lefel incwm is arfaethedig. Dywedodd un ymatebydd a oedd yn cefnogi'r cynnig, ***"Credwn fod hyn yn ffordd briodol a sefydledig o asesu incymau is. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir a yw'n bwriadu defnyddio ffigurau Cymru neu ffigurau'r DU. Mae ein dadansoddiad o ddata 2018/19 yn dangos y byddai incwm blynyddol yr aelwyd tua £14,850 yng Nghymru o gymharu ag £16,016 yn y DU"***.

105. Dadleuodd rhai ymatebwyr fod gorddibynnu ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd i benno incwm is yn golygu na all rhai aelwydydd gael y cymorth sydd ei angen arnynt. ***"Rydym yn cefnogi'n gryf y cynnig i ehangu cymorth i aelwydydd incwm is nad ydynt yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. Bydd hyn yn gam pwysig i ddarparu ymyriadau effeithiol i aelwydydd sydd mewn tloidi tanwydd neu sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd ac sy'n syrthio drwy rwydi'r rhaglenni presennol"***.

¹⁶ <https://www.gov.uk/government/statistics/households-below-average-income-199495-to-201718>

¹⁷ Fel yr argymhellwyd yn "Understanding the characteristics of low income households most at risk from living in a cold home" a gyhoeddwyd 11 Gorffennaf 2016 SRN/41/2016

106. Awgrymodd cyfran helaeth o'r ymatebwyr y dylid gosod y lefel incwm is ar ôl costau tai hanfodol ac, yn achos pobl anabl, ar ôl taliadau annibyniaeth personol. Felly, byddai'r dull gweithredu hwn yn gyson â'r model incwm gweddilliol a gyflwynwyd yn yr Alban.
107. Mynegodd ymatebydd a oedd o blaid y model incwm gweddilliol bryder a fynegwyd gan nifer o randdeiliaid mewn gweithdai ynghylch y ffordd y caiff taliadau anabledd eu trin fel rhan o'r cyfrifiad incwm. ***"Nid wyf yn credu bod y diffiniad presennol hwn yn cynnwys pawb sy'n agored i niwed. Er enghraifft, nid oes gan bobl anabl ac y mae angen mwy o gymorth arnynt 10% o'u cyllideb i wario ar wres"***. Mynegodd ymatebydd arall bryder y bydd cymhwyso'r trothwy incwm is yn anhyblyg, gan ddweud ***"Dylai Llywodraeth Cymru roi dull ar waith sy'n gallu cynnig cymorth i aelwyd sy'n ennill ychydig mwy na'r trothwy incwm is ond sy'n ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd oherwydd costau uchel. Er enghraifft, aelwyd sy'n ennill 80% o'r incwm canolrifol sydd â 5 o blant"***


Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 3

108. At ddiben y cynllun hwn ac ar gyfer diffinio cymhwysedd incwm is er mwyn darparu mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, caiff incwm is ei ddiffinio fel incwm sy'n llai na 60% o incwm cyfartalog aelwyd cyn costau tai, fel y cyhoeddir yn flynyddol yn yr adroddiad Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog.
109. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed mewn cymdeithas. I rai pobl anabl neu gymunedau Sipsiwn a Theithwyr, mae'n bosibl na fydd y dull o gyfrifo incwm aelwyd yn briodol. Mae cadw'n gaeth at fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd fel procsi ar gyfer incwm is wedi arwain at rai canlyniadau anfwriadol yn ystod yr iteriad diweddaraf hwn o'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd person sengl sy'n byw mewn cartref oer sy'n ennill incwm isel iawn ond nad yw'n cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, yn gymwys i gael cymorth o dan gynllun Nyth. Gallai glynu wrth drothwy incwm is gael yr un effaith.
110. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cynlluniau i osod mesurau effeithlonrwydd ynni cartref mewn aelwydydd lle y nodwyd bod angen mesurau o'r fath ond lle mae amgylchiadau personol wedi golygu bod yr aelwyd ychydig y tu allan i ddiffiniad y meini prawf cymhwysedd. Felly, mae'n bwysig cynnal trefniadau i sicrhau y gellir rhoi cymorth pan fydd achos cymhellol dros wneud hynny, a bydd yr ystyriaeth hon yn llywio'r ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Cwestiwn 4 – Diffiniad o aelwydydd agored i niwed

111. Yn ein hymgyngghoriad, gwnaethom gynnig y dylid newid y diffiniad o aelwyd sydd "mewn perygl" o fyw mewn tlodi tanwydd er mwyn cynnwys cartrefi lle mae un person dan 25 oed yn byw. Yr opsiwn amgen oedd cadw'r diffiniad presennol yn strategaeth 2010, a oedd yn diffinio aelwydydd agored i niwed fel rhai sy'n cynnwys rhywun sy'n 60 oed neu drosodd, plant dibynnol dan 16 oed neu unigolyn anabl neu sydd â chyflwr hirdymor.

CYNNIG NEWID Y DIFFINIAD O AELWYD SYDD "MEWN PERYGL" O FYW MEWN TLODI TANWYDD ER MWYN CYNNWYS CARTREFI LLE MAE UN PERSON DAN 25 OED YN BYW.



Ffigur 8 – Ymateb i gwestiwn 4 – Diffiniad o aelwydydd agored i niwed

112. Roedd cyfran helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio'r diffiniad. Wrth groesawu'r diwygiad, awgrymodd un ymatebydd bod **"grwpiau eraill yn cyflwyno eu hunain fel rhai sy'n wynebu risg o fod yn agored i fyw mewn tlodi tanwydd. Mae dadansoddiad diweddar a wnaed gan y Ganolfan Ymchwilio i Atebion Galw am Ynni (CREDS) drwy brosiect FAIR wedi nodi nifer o grwpiau penodol sy'n agored i fyw mewn tlodi tanwydd. Roedd cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (yn enwedig mudwyr neu ffoaduriaid diweddar sy'n anghyfarwydd â strwythurau sefydliadol y DU, ac a allai wynebu rhwystrau iaith), teuluoedd un rhiant, aelwydydd ag aelod sydd â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n bodoli eisoes, a'r rhai a ailgartrefwyd yn ddiweddar ymhlith rhai o'r grwpiau ychwanegol a nodwyd gan FAIR fel rhai sy'n wynebu risg o fod yn agored i dlodi tanwydd. Yn unol â newid arfaethedig Llywodraeth Cymru, mae ymchwil FAIR hefyd yn cadarnhau bod pobl dan 25 oed, gan gynnwys poblogaethau myfyrwyr, hefyd yn wynebu mwy o risg o fyw mewn tlodi tanwydd"**.

113. Nododd rhai ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r diwygiad fod yr amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019 yn awgrymu bod aelwydydd lle mae pobl rhwng 16 a 34 oed yn byw yn wynebu mwy o risg o fyw mewn tlodi tanwydd. Nododd un ymatebydd **"Mae costau byw cynyddol a'r cyfyngiadau ar daliadau cymorth y wladwriaeth i'r rhai dan 35 oed wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n byw mewn tai amlfeddiannaeth. Mae pobl ifanc hefyd yn byw yn y math hwn o lety neu mewn llety rhent am gyfnod hwy am eu bod yn dibynnu'n gynyddol ar lety rhent preifat. O ganlyniad i'r gynrychiolaeth fwy o bobl sydd ar incwm is mewn eiddo amlfeddiannaeth, mae mwy a mwy ohonynt yn agored i dlodi tanwydd"**.


114. Ychydig o ymatebwyr oedd yn anghytuno â'r diwygiad, ond cynigiodd un safbwynt gwahanol am bobl ifanc yn cyfuno aelwydydd. ***"Nid wyf yn teimlo bod pobl ifanc yn fwy agored i niwed yn hyn o beth. Oni bai eu bod yn anabl, mae gan bobl ifanc lai o gostau o lawer, ac mae gan y rhai sy'n cael budd-daliadau hyd yn oed fwy o allu i wario os ydynt yn cael budd-dal tai. Mae gan bobl ifanc fwy o hyblygrwydd a gallant gyfuno aelwydydd er mwyn grwpio gyda'i gilydd ac arbed arian fel y gwnaeth llawer ohonom pan oeddem yn ifanc. Mae'n rhan o dyfu i fyny a dysgu i wneud y tro gydag ychydig; mae bywyd yn her, nid yw am ddim"***.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 4

115. Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r diffiniad o aelwyd agored i niwed i gynnwys aelwydydd lle mae un person dan 25 oed yn byw. Drwy wneud hynny, cydnabyddir y gall grwpiau penodol eraill mewn cymdeithas brofi lefelau o dlodi tanwydd sy'n uwch na'r cyfartaledd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid ehangu'r diffiniad o aelwyd agored i niwed ymhellach ar hyn o bryd, ond bydd yn ystyried diwygiadau pellach i ddiffiniadau yn y cynllun newydd wrth i'r sylfaen dystiolaeth ddatblygu.

Cwestiwn 5 – Dulliau mesur tlodi tanwydd

116. Cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylid cadw'r dulliau presennol a ddefnyddir i fesur tlodi tanwydd yng Nghymru, gan ychwanegu'r dull mesur 8% (o incwm a ddefnyddir i gadw'r cartref yn ddiogel ac yn gynnes) i fesur cartrefi sydd "mewn perygl" o wynebu tlodi tanwydd, ynghyd â dull o fesur tlodi tanwydd parhaus, sef bod yn dlawd o ran tanwydd am ddwy o'r tair blynedd diwethaf.



Ffigur 9 – Ymateb i gwestiwn 5 – Dulliau mesur tlodi tanwydd

117. Cefnogodd cyfran fwy o'r ymatebwyr y cynnig i gadw'r dulliau presennol a ddefnyddir i fesur tlodi tanwydd, gan ychwanegu'r dulliau mesur arfaethedig ar gyfer aelwydydd sydd "mewn perygl" a'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd "parhaus". Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch argaeledd setiau data addas i adrodd ar y dulliau mesur newydd. Nododd un ymatebydd ***"mae pobl yn ei chael hi'n anodd cyfrifo'n fanwl gywir faint y maent yn ei wario ar filiau ynni, ac yn enwedig faint roeddent yn ei wario dair blynedd yn ôl, fel canran o'u hincwm cyffredinol, yn enwedig os yw eu sefyllfa o ran tŷ neu sefyllfa ariannol wedi newid neu os oedd yn ansefydlog yn ystod y cyfnod hwn. Mae risg y gallai'r rhai mwyaf anghenus, sydd lleiaf tebygol o allu darparu data digon manwl neu ddata hirdymor, gael eu hystyried yn rhai sydd â blaenoriaeth is oherwydd eu hanhawster i ddarparu'r data hyn. O safbwynt polisi, mae gosod meini prawf diffiniedig ar gyfer targedau yn ddeniadol, ond rhaid cydbwyso hyn ag ymarferoldeb rhoi dull gweithredu o'r fath ar waith"***
118. O ran y mater ehangach yn ymwneud â chadw'r dulliau mesur 10% ac 20% ar gyfer tlodi tanwydd a thlodi tanwydd difrifol, nododd ymatebwyr ei bod yn haws i bartneriaid cyflawni weithio gyda'r dulliau mesur 10% ac 20%. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i safbwynt Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru, a awgrymodd y dylid gosod terfyn incwm ar y dull mesur hwn er mwyn atal aelwydydd cyfoethog sy'n gallu bodloni eu gofynion ynni rhag cael eu hystyried yn aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd. Gallai'r cap incwm fod yn seiliedig ar 60% o incwm canolrifol, fel yr hyn a ddefnyddir yn Lloegr a'r Alban. Byddai hyn hefyd yn gyson â gofynion cymhwysedd newydd arfaethedig y Rhaglen Cartrefi Clyd a byddai'n parhau i fod yn hawdd ei ddeall ar gyfer ymarferwyr, gan sicrhau y gellir cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed.
119. Awgrymodd un ymatebydd nad oedd yn cefnogi'r dulliau mesur arfaethedig y dylai Cymru gyflwyno dull mesur sy'n cyd-fynd â'r dull incwm isel costau uchel a ddefnyddir i fesur tlodi tanwydd yn Lloegr. Gallai mesur y "bwlch tlodi tanwydd", gan ddilyn trywydd yr hyn a wneir gan Lywodraeth y DU yn Lloegr, roi gwell syniad o gynnydd dros amser.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 5

120. Yn dilyn ei ymholiad i dlodi tanwydd yn 2020, gofynnodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth bellach i ddulliau mesur tlodi tanwydd sydd wedi'u mabwysiadu yn Lloegr a'r Alban, ynghyd â'r posibilrwydd o'u cyflwyno yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft i drechu tlodi tanwydd wedi cynnig cyfle i ystyried yr opsiynau'n fwy llawn gyda rhanddeiliaid. Fel yr adlewyrchir yn yr adroddiad hwn ar ganlyniad yr ymgynghoriad, mae cefnogaeth o blaid cyflwyno diffiniad o dlodi tanwydd a dull o'i fesur yn seiliedig ar y model incwm gweddilliol a gyflwynwyd yn yr Alban yn 2019. Derbynnir bod y dull gweithredu incwm gweddilliol yn cynnig sail ar gyfer cydberthynas fwy cywir rhwng incwm gwario a chostau ynni aelwyd o gymharu â diffiniad "Boardman" a ddefnyddir yng Nghymru ar hyn o bryd.

121. Awgrymodd un o wendidau allweddol y diffiniad presennol yng Nghymru a amlygwyd mewn tystiolaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban yn 2017¹⁸ nad yw tlodi tanwydd yn gyfyngedig i aelwydydd incwm is. Nododd fod llai na hanner yr holl aelwydydd a oedd mewn tlodi tanwydd yn yr Alban rhwng 2013 a 2015¹⁹ yn dlawd o ran incwm hefyd (46%). Awgrymodd pwynt a fynegwyd gan randdeiliaid yn yr ymgynghoriad hwn, gan gefnogi'r cynnig i gadw'r diffiniad a'r dulliau mesur presennol yng Nghymru, y dylid gosod cap incwm ar amcangyfrifon tlodi tanwydd sy'n defnyddio'r dull mesur presennol. Ystyriodd y dystiolaeth a gyhoeddwyd yn yr Alban Ddangosydd Incwm Isel Costau Uchel (LIHC) Hills hefyd, gan awgrymu bod y ffaith bod LIHC yn defnyddio canolrif symudol yn golygu ei fod yn ansensitif i newidiadau mewn prisiau tanwydd i raddau helaeth, ac eithrio drwy waith craffu ail haen ar y bwlch tlodi tanwydd. Mae hyn yn golygu bod y dull mesur ychydig yn fwy heriol o ran ymgysylltiad a dealltwriaeth y cyhoedd, pwynt a gydnabuwyd gan randdeiliaid yng Nghymru yn ystod yr ymgynghoriad hwn.
122. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ddiwygiadau i LIHC ac mae'n cynnig diweddarau'r ffordd y caiff tlodi tanwydd ei fesur er mwyn olrhain cynnydd yn erbyn y targed tlodi tanwydd statudol yn well. Byddai'r dull mesur wedi'i ddiweddarau yn parhau i adlewyrchu tri phrif ffactor ysgogi tlodi tanwydd (incwm, effeithlonrwydd ynni a phrisiau tanwydd), a byddai'n parhau i fesur nifer yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd a'r bwlch tlodi tanwydd. Yn unol â'r mesur arfaethedig, Incwm Isel Effeithlonrwydd Ynni Isel (LILEE), byddai aelwyd yn cael ei hystyried yn dlawd o ran tanwydd os yw'n byw mewn eiddo sydd â sgôr effeithlonrwydd ynni ym Mand D, E, F neu G, fel y nodir gan y Fethodoleg Sgôr Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd ddiweddaraf, ac os yw incwm gwario'r aelwyd (ar ôl costau tai ac anghenion ynni) yn is na'r llinell tlodi. Mae risg wrth ddefnyddio'r model hwn y bydd gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni cartref yn unig yn tynnu aelwydydd o lefelau amcangyfrifedig tlodi tanwydd ar gam. Yng Nghymru²⁰, ystyriwyd bod oddeutu 5% o aelwydydd mewn annedd â sgôr EPC B-C yn byw mewn tlodi tanwydd, gan awgrymu nad yw cartref sy'n thermol effeithlon o reidrwydd yn golygu nad yw'r aelwyd mewn tlodi tanwydd.
123. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad bod manteision ac anfanteision i'r holl ddiffiniadau a dulliau mesur a ddefnyddir, neu a gynigir, ledled Prydain Fawr. Fel y mynegwyd yn nhystiolaeth Gweithredu Ynni Cenedlaethol i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd ym mis Chwefror 2020, mae risg y gallai datblygu a chyflwyno polisi a dulliau mesur sydd â'r nod o leddfu a lleihau tlodi tanwydd heb ymgysylltu â phobl sy'n gweithio i drechu tlodi yn y gymuned gael ei ystyried yn ddibwys. Mae darparu ymyriadau sydd â'r nod o ddiwallu anghenion cymunedau lleol yn bwysig.

¹⁸ <https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/independent-report/2017/11/new-definition-fuel-poverty-scotland-review-recent-evidence/documents/00527017-pdf/00527017-pdf/govscot%3Adocument/00527017.pdf>


¹⁹ <https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/independent-report/2017/11/new-definition-fuel-poverty-scotland-review-recent-evidence/documents/00527017-pdf/00527017-pdf/govscot%3Adocument/00527017.pdf> tudalen 65

²⁰ <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru>

124. Ar y sail hon, bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r diffiniad a'r dulliau presennol o fesur tlodi tanwydd yng Nghymru, gan ychwanegu dulliau o fesur tlodi tanwydd "parhaus" ac aelwydydd sydd "mewn perygl" o fod mewn tlodi tanwydd. Caiff y dulliau mesur hyn eu defnyddio i adrodd ar dlodi tanwydd yng Nghymru, gan ddadgyfuno'r amcangyfrifon yn ôl aelwydydd sydd uwchlaw ac islaw'r trothwy incwm isel. Bydd amcangyfrifon tlodi tanwydd a gyhoeddir ar gyfer Cymru yn cynnwys amcangyfrifon yn seiliedig ar fethodolegau a ddefnyddir yn Lloegr a'r Alban er mwyn meincnodi.

Cwestiwn 6 – Mesur effaith buddsoddiad y Rhaglen Cartrefi Clyd yn ôl lleihad mewn oriau cilowat (KWh)

125. Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylai cynlluniau arfaethedig ar gyfer y dyfodol sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd ynni cartref fel rhan o'n hymdrechion i drechu tlodi tanwydd, anelu at leihau'r ynni a ddefnyddir i wresogi 21%²¹, ac o leiaf 15%²². Bydd lleihad mewn KWh yn golygu y bydd modd cymryd mesuriadau mwy cywir pan fydd gwaith ôl-osod tai wedi'i wneud. Yn ei dro, bydd hyn yn arwain at welliannau o ran SAP ac EPC drwy ein buddsoddiad parhaus, yn seiliedig ar fesuriadau gwirioneddol ac nid amcangyfrifon a fodelwyd. Gwnaethom ofyn am farn rhanddeiliaid am ein cynnig i ddefnyddio lleihad mewn KWh fel y dull mesur a ffefrir ar gyfer iteriadau o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn y dyfodol, neu a ddylid cadw gwelliannau i sgoriau EPC.



Ffigur 10 – Ymateb i gwestiwn 6 – Dulliau mesur gwelliant ar gyfer iteriadau'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn y dyfodol

126. Yr opsiwn a ffafriwyd oedd cadw sgoriau EPC i fesur y gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni a gyflawnir drwy osod mesurau effeithlonrwydd ynni cartref. Fel y nododd un ymatebydd, ***“At ei gilydd, rwy'n credu mai'r lleihad arfaethedig mewn KWh yw'r lefel gywir o uchelgais ar gyfer cynlluniau effeithlonrwydd ynni yn gyffredinol – mae'n cyd-fynd yn fras â'r uchelgais sydd ei hangen i gyflawni'r weledigaeth sero net. Fodd bynnag, rwy'n credu y gallai targed i leihau'r ynni a***

²¹ <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/Net-Zero-Technical-report-CCC.pdf> – tudalen 79

²² Yn seiliedig ar argymhelliad yn adroddiad UKCCC *Homes Fit for the Future?* Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019

ddefnyddir fod yn amhriodol i gynllun tlodi tanwydd o ystyried y risg o hunanddogni a hunanddatgysylltu”.

127. Ategodd nifer o ymatebwyr y pryder y bydd aelwydydd sy'n elwa ar fesurau effeithlonrwydd ynni cartref drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn hunanddatgysylltu neu'n hunanddogni'n aml er mwyn arbed arian. Bydd enghreifftiau pan fydd KWh yn cynyddu er mwyn cynnal trefn wresogi foddhaol, ond bydd yn fforddiadwy oherwydd y gwelliannau a wnaed.
128. Dywedodd un ymatebydd wrthym, **"Mae Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU wedi ymchwilio i'r broses o ddogni'r defnydd o ynni mewn aelwydydd gwahanol. Canfu'r astudiaeth hon fod aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn gwario £319 yn llai ar ynni ar gyfartaledd na'r hyn sydd ei angen mewn egwyddor i sicrhau ffordd iach o fyw, o gymharu â £110 yn llai ar gyfer aelwydydd nad ydynt yn dlawd o ran tanwydd."**
129. Cyfeiriodd ymatebydd arall at y mater yn ymwneud â hunanddogni, gan nodi ei fod yn agored i ddefnyddio KWh fel y prif ddull mesur ond nad yw'n gwbl gefnogol. **"Er bod y lleihad mewn defnydd KWh ar gyfer nwy a thrydan yn ddull mesur da ar gyfer ardal gymunedol neu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), nid yw o reidrwydd yn gweithio ar gyfer aelwyd unigol a all fod wedi bod yn dogni'r defnydd o ynni ac felly'n byw mewn cartref oer a llaith o ganlyniad. Felly, ni ddylid ystyried bod y cynnydd mewn defnydd ar ôl gosod mesurau yn broblem, os yw'r defnydd o fewn disgwyliadau. Gellid cyfeirio at y gwerthoedd Defnydd Domestig Nodweddiadol ar gyfer trydan a nwy a gyhoeddir gan Ofgem yn flynyddol fel canllaw i dargedu defnydd"**.
130. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnydd, gan gydnabod y caiff biliau ynni domestig eu cyflwyno mewn KWh a bod defnyddwyr yn eu deall yn well. Nododd un ymatebydd hefyd fod dulliau mesur EPC yn llai priodol i aelwydydd mewn ardaloedd gwledig. **"Byddem yn cefnogi'r lleihad mewn KWh fel dull mesur mwy effeithiol i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Nid yw'r EPC yn unig, oherwydd ei diffygion cynhenid, yn gwobrwo cartrefi gwledig sy'n buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni, felly byddai dull mesur sy'n seiliedig ar KWh yn dangos lle mae gwelliannau wedi'u gwneud"**.
131. Gwnaeth nifer tebyg o ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig i ddefnyddio KWh fel y prif ddull o fesur gwelliant, oddeutu 14%, awgrymu metrigau amgen y dylid eu defnyddio i fesur gwelliant. Rhoddodd un ymatebydd esboniad manwl o un opsiwn amgen o'r fath. **"Mae'n glir mai mesur absoliwt yw'r unig ffordd o barhau os ydym am weld datblygiadau gwirioneddol o ran perfformiad ynni cartrefi, osgoi 'chwarae' metrigau cymharol a symud ymlaen o ddiffygion hysbys y model EPC. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i reoli a dileu tlodi tanwydd a sefydlu cyfoeth ynni. Mae gormod o newidynnau a thybiaethau yn gysylltiedig â sgoriau EPC. Mae defnyddio dull mesur absoliwt yn rhoi darlun cywir ac felly'n cefnogi strategaeth ar gyfer symud ymlaen. Rydym yn cytuno mai KWh a lleihad mewn Wh (fesul msq) yw'r dulliau mwyaf effeithiol o fesur llwyddiant; sy'n awgrymu y dylid mabwysiadu dau ddull mesur – y ddau'n defnyddio kWh/m2/yr."**

- ***Dwyster Defnydd Ynni – ynni dan reolaeth ac ynni nad yw dan reolaeth, ac eithrio cynhyrchu ynni adnewyddadwy***
- ***Galw am wres.***

132. Awgrymodd oddeutu 14% o'r ymatebwyr y dylid defnyddio'r ddau ddull mesur i fesur gwelliannau, gan gydnabod bod gan y ddau fetrig gryfderau a gwendidau.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 6

133. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y teimladau a fynegwyd gan ymatebwyr yn tynnu sylw at wendidau sgoriau EPC a KWh i fesur gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni cartrefi pan gaiff mesurau eu gosod. Sgoriau EPC yw'r dull a ffefrir o hyd ar gyfer sefydlu targedau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â gwelliannau effeithlonrwydd ynni i'r stoc dai. Serch hynny, mewn achosion lle y caiff mesurau eu gosod, mae'n bosibl na welir yr arbedion disgwylidig a fodelwyd mewn biliau a gostyngiadau carbon.

134. Yn yr un modd, mynegwyd pryderon gan y mwyafrif o'r ymatebwyr ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â disgwyliadau afrealistig mewn aelwydydd lle mae tanwresogi, hunanddogni a hunanddatgysylltu yn amlwg. Yn gryno, gallai gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi a chael gwared ar yr ofn o fod mewn dyled tanwydd arwain at gynnydd yn y defnydd o ynni. Drwy gynnal asesiad o'r tî cyfan, dylid ystyried tystiolaeth o danwresogi ac, mewn achosion o'r fath, gellid defnyddio anghenion ynni nodweddiadol ar gyfer y math o aelwyd fel meincnod ar gyfer gwella, fel y cynigir gan Lywodraeth Cymru. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch newid y math o danwydd pan gaiff mesurau effeithlonrwydd ynni cartref eu gosod. Gallai hyn amharu ar asesiadau cyn ac ar ôl gosod y mesurau.

135. Er bod gan y ddau ddull mesur wendidau, gall diffyg data cywir a gorddibyniaeth ar ganlyniadau wedi'u modelu arwain at ganlyniadau camarweiniol, gan danseilio hygredded adroddiadau ar ymdrechion i drechu tlodi tanwydd. Mae canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn amhendant, a chafwyd dadleuon rhesymol o blaid y ddau ddull. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid defnyddio'r ddau ddull mesur pan gyflwynir cynigion ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd ar gyfer ymgynghoriad yn ddiweddarach yn 2021.

I grynhoi

136. Rhoddodd y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn gipolwg gwerthfawr ar yr heriau rydym yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf wrth inni drechu tlodi tanwydd yn ystod cyfnod o ansicrwydd digynsail. Er eu bod yn croesawu'r cynllun drafft a'r cyfle i gyflwyno sylwadau arno, ceisiodd nifer o ymatebwyr sicrwydd ynghylch ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drechu tlodi tanwydd, gan ofyn sut roedd y camau gweithredu yn cyfrannu at ein hamcanion polisi ehangach, megis datgarboneiddio tai a chyflawni sero net erbyn 2050. Roedd llawer o blaid ychwanegu targedau neu gerrig milltir dros dro. Roedd y rhan fwyaf yn croesawu'r cynllun gweithredu 10 pwynt i drechu tlodi, ond roedd rhai am i'r camau gweithredu hynny gynnwys mwy o fanylion.

137. *"Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digartrefedd, tai a gwasanaethau cymorth yn rhan o'i hystyriaethau wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer darparu cynlluniau cymorth a chynghor mewn cymunedau. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod y newid mewn patrymau gwaith yn ystod y pandemig, gan nodi bod rhai aelwydydd, yr amheuir eu bod yn gweithio gartref, wedi gweld cynnydd o hyd at 32% yn eu defnydd o drydan, a nododd un cyflenwr nwy fod defnydd chwarter o'i gwsmeriaid nwy wedi cynyddu cymaint ag 20%. Fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i fonitro effaith a nodi'r aelwydydd sy'n wynebu risg, argymhellwn y dylai'r duedd hon gael ei monitro wrth i frechlynnau gael eu rhoi. Er y bydd llawer o bobl yn dychwelyd i weithio mewn swyddfeydd, mae'n debygol y bydd cyfran fwy o bobl yn gweithio gartref am o leiaf ran o'r wythnos. Os felly, dylid ystyried sut y gall y llywodraeth atal pobl rhag byw mewn tlodi tanwydd (yn enwedig y rheini sydd yn y grŵp 'mewn perygl') a sut y dylai cyflogwyr roi cymorth ariannol i weithwyr y mae angen iddynt weithio gartref. Mae adroddiad Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ddatgarboneiddio Tai, 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell', yn cyflwyno achos cryf dros osod targedau uchelgeisiol, gwneud ymrwymiad strategol hirdymor i ddatgarboneiddio, a datblygu pecyn cymorth i gyflawni hyn. Er y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i hyn drwy ddatblygu cynllun gweithredu gwahanol, credwn ei bod yn bwysig achub ar bob cyfle i bwysleisio pwysigrwydd cymorth ariannol er mwyn i landlordiaid cymdeithasol wneud y canlynol:*

- *Datgarboneiddio eu heiddo presennol,*
- *Adeiladu niferoedd sylweddol o gartrefi newydd, carbon isel dros y blynyddoedd nesaf.*

138. *Bydd angen cymorth ariannol sylweddol a hirdymor gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud hyn, ac rydym yn annog Gweinidogion, a'r Llywodraeth newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd, i wneud ymrwymiad clir i ddarparu'r cymorth hwn. Gan fod tai cymdeithasol yn chwarae rôl mor hanfodol o ran darparu llety i bobl ar yr incymau isaf, mae'n hollbwysig bod landlordiaid yn cael y cymorth ariannol i liniaru tlodi tanwydd ymhlith eu tenantiaid.*

PENDERFYNFYDDION TLODI TANWYDD

Incwm aelwydydd

139. Mae camau gweithredu i ddatblygu Strategaeth 2010 Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi Tanwydd wedi bod ymhlith y cyfraniadau allweddol at amcanion ehangach Llywodraeth Cymru i drechu tlodi o bob math. Mae tlodi'n cael effaith negyddol ddifrifol ar fywydau pobl ac ar gymunedau. Er bod camau wedi'u cymryd i drechu tlodi ymhlith plant, pobl ifanc a phobl hŷn, mae deng mlynedd o gyni wedi arwain at duedd gynyddol a phryderus o dlodi bwyd, llwgu yn ystod y gwyliau a thlodi mewn gwaith.

140. Mae tystiolaeth glir o faint ac effaith dyled yng Nghymru²³, ac i lawer o unigolion ac aelwydydd, mae dyled a phwysau ariannol yn ffynhonnell wirioneddol a pharhaus o straen, gorbryder ac ansicrwydd o ddydd i ddydd. Mewn llawer o achosion, caiff y pwysau hyn eu gwaethygu gan anawsterau megis ansicrwydd incwm, diweithdra neu faterion eraill sy'n gwneud pobl yn agored i niwed, megis problemau iechyd meddwl.
141. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru²⁴ yn adrodd ar amddifadedd materol fel dull o fesur tlodi a'i effeithiau. Cafodd cwestiynau am amddifadedd materol eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol am y tro cyntaf yn 2014-15, ac eto rhwng 2016-17 a 2019-20. Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer amddifadedd materol a thlodi tanwydd hefyd. Dyma rai o ganfyddiadau'r adroddiadau diweddaraf ar gyfer 2018-19 a 2019-20:
- Yn 2019-20, roedd 13% o oedolion yng Nghymru yn wynebu amddifadedd materol, felly hefyd 32% o rieni â thri neu fwy o blant a 49% o rieni sengl.
 - Yn 2018-19, roedd 9% o oedolion wedi cael o leiaf un diwrnod heb bryd sylweddol yn ystod y pythefnos diwethaf, ac nid oedd 1% yn gallu fforddio bwyta cig (neu fwydydd cyfatebol) o leiaf bob yn ail ddiwrnod.
 - Yn 2019-20, roedd 41% o'r bobl mewn tai cymdeithasol yn wynebu amddifadedd materol, o gymharu â 23% mewn llety rhent preifat a 5% mewn tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr.
142. Cyhoeddwyd data ar incwm cyfartalog aelwydydd yn y DU gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Ionawr 2021²⁵. Yn gyffredinol, nid oedd incwm canolrifol rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2019 (mis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019) a'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020 (mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020) wedi newid llawer, sef £29,900. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd cyn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020, cynyddodd incwm canolrifol 7%, sef 0.8% y flwyddyn ar gyfartaledd. Yn yr un modd, ar gyfer yr un cyfnod, cynyddodd incwm cymedrig 6.2%, sef 0.7% y flwyddyn ar gyfartaledd, a rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2019 ac yn 2020, cynyddodd incwm cymedrig 0.7%. Gellir priodoli'r twf mewn incwm canolrifol ac incwm cymedrig i gynnydd mewn incwm gwreiddiol (sy'n cynnwys incwm o gyflogaeth, pensiwn preifat, buddsoddiad a ffynonellau incwm eraill) ond ychydig iawn o newid yn swm cyffredinol y budd-daliadau a gafwyd a'r trethi a dalwyd.
143. Drwy gydol 2020, mae'r cyfyngiadau a'r mesurau cymorth ariannol dilynol a roddwyd ar waith yn sgil y coronafeirws wedi effeithio ar sefyllfa ariannol aelwydydd. Mae'r bwletin Llesiant Personol ac Economaidd²⁶ yn cyflwyno dadansoddiad er mwyn deall sut mae'r rhain wedi effeithio ar incwm aelwydydd yn y DU yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ergydion i'r farchnad lafur sy'n gysylltiedig â phandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio mwy ar bobl ifanc a'r bobl sydd ar y cyflogau isaf. Roedd pobl dan 30 oed

²³ StepChange 2015, 2018b; Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol 2017b.

²⁴ <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebryll-2019-i-mawrth-2020>

<https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebryll-2018-i-mawrth-2019>

<https://llyw.cymru/tlodi-ac-amddifadedd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebryll-2017-i-fawrth-2018>

²⁵ <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/bulletins/householddisposableincomeandinequality/financialyear2020>

²⁶ <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/personalandeconomicwellbeingintheuk/january2021>

a'r rhai lle roedd incwm yr aelwyd yn llai na £10,000 35% a 60%, yn ôl eu trefn, yn fwy tebygol o gael eu rhoi ar ffyrlo na'r boblogaeth gyffredinol.

144. O blith y rhai nad oeddent yn gallu gweithio (naill ai am eu bod ar ffyrlo neu am reswm arall), parhaodd dros hanner (52%) y rhai yn y cwintel incwm uchaf i gael eu talu'n llawn, ond dim ond 28% o'r rhai yn y cwintel incwm isaf. Roedd incwm pobl â swydd neu bobl a oedd yn chwilio am waith yn fwy tebygol o fod wedi gostwng yn ystod y pandemig, ac yn enwedig yr 20% tlotaf, ond cafodd pobl eraill – megis pobl sydd wedi ymddeol y tu allan i'r farchnad lafur – eu diogelu'n fwy.
145. Drwy gydol y pandemig, roedd rhieni cyflogedig bron ddwywaith yn fwy tebygol o nodi bod eu hincwm wedi gostwng o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, er i'r bwlch hwn leihau'n raddol yn ystod 2020 wrth i ysgolion ailagor. Roedd pobl hunangyflogedig yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi gweithio llai o oriau a bod eu hincwm wedi gostwng, hyd yn oed os oeddent wedi cael cymorth drwy'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig.
146. Erbyn mis Rhagfyr 2020, bu'n rhaid i bron 9 miliwn o bobl fenthyca mwy o arian o ganlyniad i bandemig y coronafeirws; cynyddodd y gyfran a oedd yn benthyca £1,000 neu fwy o 35% i 45% o fis Mehefin 2020 hefyd. Mae'r effeithiau ar wariant aelwydydd wedi amrywio ar draws grwpiau gwahanol, gyda rhieni'n llai tebygol o allu fforddio gwyliau neu gost annisgwyl ond angenrheidiol na phobl heb blant; roeddent hefyd tua 50% yn fwy tebygol o gael trafferthion wrth geisio talu eu costau arferol.
147. Mae pandemig COVID-19 wedi dirwasgu incwm aelwydydd yng Nghymru ymhellach. Mae ystadegau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 28 Ionawr 2021²⁷ yn dangos bod 123,000 o gyflogeion ar ffyrlo yng Nghymru ar 31 Hydref. Cynyddodd y ffigur hwn i 125,000 o gyflogeion ar ffyrlo ar 30 Tachwedd. Mae amcangyfrifon dros dro yn dangos bod nifer y cyflogeion a oedd ar ffyrlo wedi cynyddu 30,500 i 155,500 ar 31 Rhagfyr.
148. Mae data dros dro ar gyfer mis Rhagfyr 2020 (a gyhoeddwyd ar 28 Ionawr 2021) yng Nghymru yn dangos mai yn ardal Dwyfor Meirionnydd y manteisiodd y gyfradd uchaf o bobl ar y cynllun, sef 18%. Etholaeth De Caerdydd a Phenarth oedd â'r nifer uchaf o gyflogeion ar ffyrlo, sef 5,500. Y pwyntiau allweddol i'w nodi yw mai'r sector gwasanaethau llety a bwyd oedd â'r nifer uchaf o gyflogeion ar ffyrlo o hyd ar 31 Rhagfyr, a hynny ym mhob gwlad a rhanbarth. Gyda'i gilydd, roedd 101,700 o gyflogeion ar ffyrlo yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y sector cyfanwerthu a manwerthu.
149. Mae dangosyddion cynnar eraill²⁸ hefyd yn awgrymu pwysau ar i lawr ar incwm aelwydydd. Mae prif ddangosyddion y farchnad lafur a amcangyfrifwyd o'r Arolwg o'r Llafur yn dangos effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19) ar y farchnad lafur. Yn ystod y tri mis a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2020 (cyhoeddwyd ar 26 Ionawr 2021), y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru oedd 72.4%. Mae'r gyfradd hon 0.2 pwynt canran yn is ar gyfer y chwarter, a 2.4 pwynt canran yn is ar gyfer y flwyddyn.

²⁷ <https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-january-2021>

²⁸ <https://llyw.cymru/ystadegau-economaidd-allweddol-ionawr-2021>

150. Dyma'r ail ostyngiad blynyddol mwyaf ers i'r gyfres ddechrau yn 1992. Yn ystod y dirwasgiad a ddechreuodd yn 2008 y cofnodwyd y gostyngiad mwyaf. Gostyngodd y gyfradd cyflogaeth 2.7 pwynt canran rhwng mis Mehefin a mis Awst 2009. Y gyfradd diweithdra yng Nghymru yn ystod y tri mis a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2020 (cyhoeddwyd ar 26 Ionawr 2021) oedd 4.6%. Mae'r gyfradd hon 0.8 pwynt canran yn uwch ar gyfer y chwarter, ac 1.6 pwynt canran yn uwch ar gyfer y flwyddyn. Dyma'r cynnydd blynyddol mwyaf yn y gyfradd diweithdra ers y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2011.
151. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chyllid a Thollau EM yn cyhoeddi data ar gyfer Cymru ar gyflogaeth sydd ar y gyflogres, cyflog cymedrig, cyflog cyfanredol ac amcangyfrifon o gyflog canolrifol ar gyfer misoedd unigol. Ar y cyfan, mae nifer y gweithwyr cyflogedig wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae wedi lleihau yn ystod y pandemig. Mae amcangyfrifon cynnar ar gyfer mis Rhagfyr 2020 (cyhoeddwyd ar 26 Ionawr 2021) yn dangos bod 1.23 miliwn o weithwyr cyflogedig yng Nghymru. Roedd hyn yn ostyngiad o 30,300 (2.4%) o gymharu â mis Chwefror 2020, ond yn gynnydd bach o 3,000 (0.2%) o gymharu â'r pwynt isaf ym mis Tachwedd 2020.

Cost ynni


152. Mae Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU yn cyhoeddi mynegeion prisiau ynni domestig misol ar gyfer tanwydd domestig²⁹. Gostyngodd y prisiau a dalwyd ar gyfer pob math o danwydd domestig 8.7% mewn termau cyfredol rhwng Ch4 2019 a Ch4 2020. Mewn termau cyfredol, rhwng Ch4 2019 a Ch4 2020: gostyngodd prisiau trydan domestig, gan gynnwys TAW, 3.2%; gostyngodd prisiau nwy domestig, gan gynnwys TAW, 15%; cynyddodd prisiau tanwyddau solet 3.9% a gostyngodd prisiau tanwyddau hylifedig 35%.
153. Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn cyhoeddi amcangyfrifon blynyddol o wariant aelwydydd yn y DU ar danwydd a biliau tanwydd domestig³⁰. Un o dri achos sylfaenol tlodi tanwydd yw **prisiau tanwydd**. Ar ôl tuedd fer o ostyngiad mewn costau, cynyddodd y gwariant wythnosol cyfartalog ar bob math o danwydd yn y DU (ac eithrio tanwyddau modur) o £22.36 yn 2016/17 i £22.80 yn 2017/18 a £24.92 yn 2018/19³¹. Rhwng 2017/18 a 2018/19, cynyddodd gwariant cyfartalog yn y DU ar drydan 8.4% ar gyfer aelwydydd a oedd yn ei ddefnyddio. Roedd y cynnydd mewn gwariant yn fwy i'r rhai â systemau gwres canolog trydan, sef 10.5%. Rhwng 2017/18 a 2018/19, cynyddodd gwariant cyfartalog yn y DU ar nwy 6.7% ar gyfer aelwydydd a oedd yn ei ddefnyddio, a gostyngodd 3.1% ar gyfer y rhai heb system gwres canolog nwy.

²⁹ <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/monthly-domestic-energy-price-stastics>

³⁰ <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/annual-domestic-energy-price-statistics>

³¹

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/875756/table_262.xlsx



Figur 11 – Gwariant wythnosol cyfartalog yn y DU ar bob math o danwydd (ac eithrio tanwyddau modur). Cyhoeddwyd gan BEIS

154. Er i bris domestig trydan ostwng 3.2% mewn termau cyfredol, cynyddodd biliau cwsmeriaid. Yn 2020, o gymharu â 2019, cynyddodd biliau trydan cyfartalog yn y DU:

- £7 i £705 ar gyfer pob dull talu;
- £6 i £688 ar gyfer taliadau Debyd Uniongyrchol;
- £2 i £755 ar gyfer taliadau credyd safonol;
- £22 i £721³² ar gyfer mesuryddion rhagdal, ar gyfartaledd.

155. Nodir bod biliau trydan cyfartalog ar gyfer pob dull talu yn £745 y flwyddyn yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys Glannau Mersi, ac yn £722 yn Ne Cymru, y naill a'r llall yn fwy na chyfartaledd y DU, sef £705³³.

156. Gostyngodd prisiau nwy domestig, gan gynnwys TAW, 15%. Mae ffigurau 2020 yn dangos bod bil Debyd Uniongyrchol cyfartalog yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng £34 o gymharu â 2019, tra bod bil credyd safonol wedi gostwng £19 a bil Rhagdal wedi gostwng £6. Yn 2020, o gymharu â 2019, gostyngodd biliau nwy cyfartalog yng Nghymru a Lloegr³⁴:

- O £561 i £512 (-9%) ar gyfer taliadau credyd safonol;
- O £503 i £446 (-11%) ar gyfer taliadau Debyd Uniongyrchol;
- O £536 i £499 (-7%) ar gyfer mesuryddion rhagdal.

157. I grynhoi, er bod prisiau tanwydd wedi gostwng yn y DU yn 2020, cynyddodd biliau trydan aelwydydd a gostyngodd biliau nwy ychydig, gan awgrymu ein bod yn talu ychydig yn llai am ynni domestig ond yn defnyddio mwy.

³²https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/956494/table_221.xlsx

³³https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/956498/table_223.xlsx

³⁴https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/956504/table_232.xlsx

158. Er bod y dystiolaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Arolwg Cyflwr Tai Cymru ym mis Hydref 2019³⁵ yn nodi mai tai cymdeithasol sydd fwyaf ynni effeithlon yng Nghymru, mae'r arolwg hefyd yn nodi bod cyfran fwy o bobl sy'n talu am anghenion ynni eu cartref drwy ddefnyddio mesurydd rhagdalau yn byw mewn tai cymdeithasol³⁶.
159. Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ystadegau mewn perthynas â'r farchnad ynni. Yn 2017, nodwyd bod 199,529³⁷ o fesuryddion rhagdalau trydan yng Nghymru. Mae ystadegau o Arolwg Cyflwr Tai Cymru³⁸ yn awgrymu bod aelwydydd yn y sector tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod â mesuryddion rhagdalau nag anheddau a gaiff eu rhentu'n breifat neu sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Mae gan 46% o anheddau tai cymdeithasol fesurydd rhagdalau trydan ac mae gan 44% fesurydd rhagdalau nwy. Mae gan oddeutu 5% o gartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr fesuryddion rhagdalau nwy/trydan, ac yn y sector rhentu preifat, mae'r canrannau'n cynyddu i 23% ar gyfer mesuryddion rhagdalau trydan a 26% ar gyfer rhai nwy.
160. Mae'n well gan rai pobl fesuryddion rhagdalau am eu bod yn eu galluogi i reoli eu gwariant ar ynni. Er bod cyflenwyr yn honni bod tariffau'n dod yn fwy cystadleuol, wrth i newid cyflenwyr ddod yn fwy cyffredin, mae tariffau talu wrth ddefnyddio yn parhau i fod yn ddrutach na thariffau sydd ar gael ar delerau talu credyd safonol neu Ddebyd Uniongyrchol.
161. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion eraill, gellir gosod mesuryddion rhagdalau er mwyn rheoli taliadau i bobl sydd ag ôl-ddyledion gyda'u cyflenwr ynni. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl sy'n ei chael hi'n anodd talu am gostau eu hanghenion ynni domestig dalu ymlaen llaw am yr ynni y maent yn ei ddefnyddio a gwneud taliad ychwanegol er mwyn talu'r ôl-ddyledion. Dim ond fel y dewis olaf y dylid defnyddio mesuryddion rhagdalau gorfodol, a gaiff eu gosod dan warant, gan y gall y tariffau rhagdalau fod yn ddrutach, ond mae rhai cwmnïau yn dewis gwneud hyn yn hytrach na defnyddio cynlluniau talu traddodiadol y gall cwsmeriaid eu hosgoi.
162. Mae Llywodraeth y DU wedi cymryd camau i sicrhau y caiff pobl na allant newid eu cyflenwr ynni, neu nad ydynt am wneud hynny, eu diogelu rhag yr amrywiadau ym mhrisiau'r farchnad ynni. Cafodd Deddf Nwy a Thrydan Domestig (Cap ar Darriffau) 2018 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2018, a daeth i rym ar 1 Ionawr 2019. Fe'i rhoddir ar waith gyda'r bwriad o ddiogelu cwsmeriaid domestig presennol ac yn y dyfodol sy'n talu cyfraddau amrywiadwy safonol a chyfraddau diofyn, a rhaid ystyried yr angen i wneud y canlynol:
- creu cymhellion i ddeiliaid trwyddedau cyflenwi wella eu heffeithlonrwydd;
 - gosod y cap ar lefel sy'n galluogi deiliaid trwyddedau cyflenwi i gystadlu'n effeithiol am gontractau cyflenwi domestig;
 - cynnal cymhellion i gwsmeriaid domestig newid i gontractau cyflenwi domestig gwahanol;

³⁵ <https://llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru-effeithlonrwydd-ynni-anheddau-ebrill-2017-i-fawrth-2018>

³⁶ <https://llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru-prif-ganlyniadau-ebrill-2017-i-mawrth-2018>

³⁷ <https://www.gov.uk/Government/statistics/electric-prepayment-meter-statistics>

³⁸ Arolwg Cyflwr Tai Cymru a gyhoeddwyd yn 2017 <https://llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru-dangosydd-canlyniadau>

- sicrhau bod deiliaid trwyddedau cyflenwi sy'n gweithredu mewn modd effeithlon yn gallu ariannu gweithgareddau a awdurdodir gan y drwydded.

163. Mae'r cap ar brisiau yn cyfyngu ar gost nwy a thrydan fesul uned, gan ystyried costau sefydlog. Nid cap ar filiau ynni cwsmeriaid ydyw, a fydd yn dibynnu ar faint o ynni a ddefnyddir o hyd. Caiff lefel y cap ei gosod gan ddefnyddio'r Gwerthoedd Defnydd Domestig Nodweddiadol a thaliadau'r rhwydwaith cenedlaethol cyfartalog. Mae'r Gwerthoedd Defnydd Domestig Nodweddiadol yn cynrychioli lefel ganolrifol defnydd gan ddefnyddwyr ynni domestig.
164. Gan ddefnyddio methodolegau cyhoeddedig, bydd Ofgem³⁹ yn addasu'r cap ddwywaith y flwyddyn i adlewyrchu costau amcangyfrifedig cyflenwi trydan a nwy i gartrefi ar gyfer y chwe mis nesaf. Bydd Ofgem yn cynyddu neu'n gostwng lefel y cap ddwywaith y flwyddyn fel na all cyflenwyr adfer mwy na chostau rhesymol cyflenwi ynni i'w cwsmeriaid, gan dybio y cânt eu rhedeg yn effeithlon. Mae hyn yn golygu y bydd defnyddwyr yn cael budd o filiau ynni is pan fydd costau'n gostwng. Ym mis Hydref, gostyngodd Ofgem lefel cap y tariff diodyn £84 y flwyddyn fesul aelwyd ar gyfer y gaeaf hwn⁴⁰ i'w lefel isaf erioed ar ôl i gostau ynni cyfanwerthol byd-eang ostwng yn sylweddol yn sgil COVID-19.
165. Wrth newid methodoleg y cap ar brisiau er mwyn galluogi cyflenwyr ynni i adfer o lefelau uwch o ddrwgddyled, nododd y rheoleiddiwr fod caniatáu i gyflenwyr ddechrau adfer rhywfaint o'r costau ychwanegol hyn o'r cap nesaf ar brisiau er budd cwsmeriaid. Ar 5 Chwefror, cyhoeddodd Ofgem y lefel nesaf ar gyfer y cap ar brisiau tariffau ynni diodyn, a fydd yn codi £96 o 1 Ebrill o £1,042 i £1,138⁴¹. Mae Ofgem yn honni mai adferiad byd-eang mewn prisiau ynni cyfanwerthol dros y misoedd diwethaf ynghyd â chostau rhwydwaith a pholisi uwch. I gwsmeriaid sy'n talu drwy fesurydd rhagdal, bydd y lefel yn codi £87 o £1,070 i £1,156.
166. Mae oddeutu 15 miliwn o aelwydydd, gan gynnwys 4 miliwn o gwsmeriaid sydd â mesurydd rhagdal, ar darriff diodyn ac felly'n ddarostyngedig i'r cap. Mae Ofgem hefyd yn nodi bod y cap ar brisiau wedi lleihau refeniw cyflenwyr tua £1 biliwn y flwyddyn ers ei gyflwyno yn 2019, gan arbed tua £75-£100 y flwyddyn i ddefnyddwyr ar eu biliau ynni hyd yn hyn.
167. Mae Ofgem⁴² a'r diwydiant ynni yn parhau i annog pobl i newid eu cyflenwr ynni er mwyn sicrhau eu bod yn cael y fargen orau i ddiwallu anghenion ynni eu cartref. Mae oddeutu 28 miliwn o bwyntiau mesurydd trydan a 23 miliwn o bwyntiau mesurydd nwy (y cyfeirir atynt fel defnyddwyr yn y datganiad hwn) ym Mhrydain Fawr. Mae llawer o'r rhain yn cael eu nwy a'u trydan gan yr un cyflenwr, gyda 70% o gwsmeriaid trydan ar gyfartaledd, ac 80% o gwsmeriaid nwy ar gyfartaledd, yn defnyddio cyfrifon tanwydd dwbl.

³⁹ <https://www.ofgem.gov.uk/cy/yngl-n-chapiau-ar-brisiau-ynni>

⁴⁰ <https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/default-tariff-cap-level-1-october-2020-31-march-2021>

⁴¹ https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/energy-price-cap-increase-april-consumers-should-switch-save-money?utm_source=Office%20of%20Gas%20and%20Electric%20Markets%20%28OFGEM%29&utm_medium=email&utm_campaign=12139804_Commentator%20-%20Price%20Cap%20Newsletter%20Jan%202021&utm_content=pricecap_consumer_Apr2021&dm_i=1OCB,7874S,TXM46L,TAHEW,1

⁴² <https://www.ofgem.gov.uk/data-portal/number-domestic-customers-switching-supplier-fuel-type-gb>

168. Mae nifer y bobl sy'n dewis newid cyflenwr wedi bod yn cynyddu ers 2014⁴³, ond mae arwyddion bod hyn wedi arafu yn ystod 2020. Bydd nifer y bobl sy'n newid cyflenwr nwy a thrydan domestig yn dilyn patrwm tymhorol fel arfer (gyda chyfnodau brig o gwmpas mis Mawrth a mis Tachwedd, a chyfnodau tawel ym mis Ionawr ac yn ystod misoedd yr haf). Torrwyd y patrwm newid tymhorol arferol pan arhosodd y nifer yn gymharol gyson ar gyfer pob mis o fis Chwefror 2018 yn hytrach na lleihau yn ystod misoedd yr haf. Roedd y lleihad ym mis Ebrill a Mai 2020 yn cyd-fynd â dechrau pandemig COVID-19.
169. Ym mis Rhagfyr 2020⁴⁴, gostyngodd nifer y bobl a newidiodd eu cyflenwr 2% o gymharu â mis Tachwedd 2020. Gostyngodd o 486,048 i 479,270 ar gyfer trydan, ac o 360,726 i 352,279 ar gyfer nwy. O gymharu â'r un mis yn 2019, cafwyd gostyngiad o 4% yn nifer y bobl a newidiodd eu cyflenwr trydan a gostyngiad o 15% yn nifer y bobl a newidiodd eu cyflenwr nwy. Ar gyfer y 12 mis cyn mis Rhagfyr 2020, newidiodd 5.8 miliwn o bobl eu cyflenwr trydan, a newidiodd 4.3 miliwn o bobl eu cyflenwr nwy. Mae hyn yn ostyngiad o 2% ar gyfer trydan a 10% ar gyfer nwy, o gymharu â'r 12 mis cyn mis Rhagfyr 2019.
170. Awgrymodd ymchwil a gyhoeddwyd gan Ofgem yn 2018⁴⁵ 170. Awgrymodd ymchwil a gyhoeddwyd gan Ofgem yn 2018 fod proffil defnyddwyr sy'n ymgysylltu â'r farchnad ynni wedi aros yn weddol debyg i flynyddoedd blaenorol fod proffil defnyddwyr sy'n ymgysylltu â'r farchnad ynni wedi aros yn weddol debyg i flynyddoedd blaenorol, gyda phobl ifanc, y rhai sy'n perthyn i radd gymdeithasol⁴⁶ ABC1 ac aelwydydd sydd ar incwm uwch, perchen-feddianwyr a'r rhai sy'n defnyddio'r rhyngwrdd yn aml yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi ymgysylltu â'r farchnad ynni.
171. Er mai pobl rhwng 16 a 34 oed sydd fwyaf tebygol o newid cyflenwr, pobl rhwng 35 a 64 oed sydd fwyaf tebygol o newid tariff. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn nifer y bobl sydd wedi bod yn newid cyflenwr dros amser wedi bod ymhlith pobl dan 65 oed a'r rhai sy'n perthyn i radd gymdeithasol ABC1. Er y gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n newid cyflenwr ymhlith y rhai sy'n perthyn i radd gymdeithasol C2 a'r rhai sy'n rhentu'n breifat yn ddiweddar, mae lefelau newid yn parhau'n gyson ymhlith pobl 65 oed a throsodd ac aelwydydd DE⁴⁷.
172. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Ofgem Strategaeth ddrafft ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Fregus 2025⁴⁸. Ar ôl cyfnod ymgynghori, cyhoeddwyd y strategaeth derfynol gan nodi blaenoriaethau er mwyn helpu i ddiogelu defnyddwyr nwy a thrydan sydd mewn sefyllfa fregus tan 2025. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y gwaith helaeth a wnaed eisoes o dan Strategaeth Defnyddwyr mewn Sefyllfa Fregus 2013. Yn ogystal, datblygodd Ofgem ddarpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni gefnogi

⁴³ <https://www.ofgem.gov.uk/data-portal/number-domestic-customers-switching-supplier-fuel-type-gb>

⁴⁴ <https://www.ofgem.gov.uk/data-portal/number-domestic-customers-switching-supplier-fuel-type-gb>

⁴⁵ <https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/consumer-engagement-survey-2018>

⁴⁶ Yn aml, caiff y graddau eu grwpio'n ABC1 ac C2DE, ac ystyrir bod y rhain yn gyfystyr â'r dosbarth canol a'r dosbarth gweithiol

⁴⁷ **AB:** Swyddi rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch neu ganolradd

C1: Swyddi rheoli, gweinyddol a phroffesiynol goruchwyliol, clercol ac iau

C2: Gweithwyr llaw medrus

DE: Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft, pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol ac ar y radd isaf, pobl ddi-waith sy'n cael budd-daliadau gwladol yn unig

⁴⁸ <https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/consumer-vulnerability-strategy-2025>

aelwydydd sydd ar incymau is yn ystod y pandemig, gan sicrhau na fydd unrhyw aelwydydd sydd â mesuryddion rhagdal, er enghraifft, yn colli cyflenwad.

173. Mae ynni domestig yn ddrutach i gartrefi nad ydynt yn cael eu cyflenwi gan y grid nwy cenedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn amcangyfrif bod oddeutu pedair miliwn o gartrefi ledled y DU nad ydynt yn cael eu cyflenwi gan y grid nwy cenedlaethol. Mae amcangyfrifon a gyhoeddwyd yn 2016 yn seiliedig ar ddata cyfrifiad o 2011 ar gyfer Cymru yn dangos bod 16.8%⁴⁹ o'r holl gartrefi oddi ar y rhwydwaith cenedlaethol nwy. Er bod system nwy yn bresennol yn 85%⁵⁰ o'r holl gartrefi yng Nghymru, mae 95% o'r cartrefi hyn ar y prif gyflenwad ac mae'r gweddill yn defnyddio cyflenwr LPG i ddiwallu eu hanghenion tanwydd domestig. Mae cartrefi mewn ardaloedd nad ydynt ar y grid nwy yn dibynnu ar Drydan, Olew Gwresogi neu LPG yn bennaf.
174. Mae'r farchnad swmpgyflenwi LPG wedi'i strwythuro mewn ffordd sylfaenol wahanol i olew gwresogi. Mae'r diwydiant LPG yn gweithredu system gyflenwi integredig ac, felly, mae'n gwbl gyfrifol am gyflenwi LPG o'r burfa neu'r derfynell i'r tanciau storio y mae'r cyflenwr LPG yn berchen arnynt ac sydd wedi'u lleoli ar eiddo cwsmeriaid domestig. Dim ond perchennog y tanc storio all lenwi'r tanc yn unol â chontract cyfreithiol gyfrwymol sy'n gosod cyfrifoldeb ar y cyflenwr LPG i gynnal diogelwch y cyflenwad er mwyn osgoi'r posibilrwydd y bydd y cyflenwad yn mynd yn brin ac y bydd y cwsmer heb wres. Ymchwiliodd y Swyddfa Masnachu Teg a'r Comisiwn Cystadlu yn helaeth i'r agwedd hon ar y farchnad swmpgyflenwi LPG a daeth y ddau i'r casgliad bod y trefniant hwn er budd cyffredinol y defnyddiwr, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Effeithlonrwydd ynni domestig

175. Mae tai o ansawdd yn fan cychwyn i unigolion a theuluoedd greu dyfodol sicr a llwyddiannus. Mae tai gweddus yn creu cymunedau gweddus lle y gall pawb chwarae rhan, ac mae tai cynnes a fforddiadwy yn atal salwch ac yn helpu plant i wneud yn dda yn yr ysgol. Dyma pam y mae'r ffocws ar greu cartrefi gweddus a threchu tlodi tanwydd mor bwysig. Drwy wneud hynny, gellir osgoi salwch a marwolaethau cyn pryd yn ystod y gaeaf, gellir gwella ansawdd bywyd pobl a gall plant gael y dechrau mewn bywyd y maent yn ei haeddu. Ar hyd y ffordd, dylai gwneud popeth o fewn ein gallu i fod yn ddinasyddion byd-eang da, drwy leihau ein hól troed carbon a lleihau'r gyfran o adnoddau'r byd rydym yn eu defnyddio i ddiwallu ein hanghenion ein hunain, fod yn egwyddor arweiniol.

⁴⁹ Tabl 8: Cyfran amcangyfrifedig yr aelwydydd nad ydynt wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2011, yn ôl rhanbarth (2016)
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/678653/Sub-national_electricity_and_gas_consumption_summary_report_2016.pdf

⁵⁰ Arolwg cyflwr tai Cymru 2017

176. Mae [Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#)⁵¹ yn casglu gwybodaeth am gyflwr ac effeithlonrwydd ynni pob math o dai yng Nghymru. Y prif ganlyniadau a gyhoeddwyd yn 2018 yw'r gyfres gyntaf o ganlyniadau cyflwr tai i Gymru ers yr arolwg diwethaf yn 2008. Cwblhawyd gwaith maes rhwng mis Awst 2017 a diwedd mis Ebrill 2018. Tynnwyd sampl o gyfeiriadau o blith aelwydydd cymwys a oedd yn cymryd rhan yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18](#). O ganlyniad, cynhaliwyd archwiliadau ffisegol o 2,549 o eiddo ledled Cymru, gan lywio amcangyfrifon cenedlaethol.
177. Ers yr arolwg diwethaf yn 2008, mae'r arolwg yn dangos bod effeithlonrwydd ynni tai wedi gwella ar gyfer pob deiliadaeth yng Nghymru. Cymru sydd â'r stoc dai hynaf yn y DU ac mae cyfran yr anheddau yn y sector rhentu preifat wedi cynyddu'n sylweddol ers 1986. Y sector rhentu preifat sydd â'r stoc dai hynaf yn gyffredinol, ac mae'n cynnwys cyfran uwch o dai o ansawdd gwael (e.e. yn cynnwys lleithder neu beryglon eraill).
178. Mae tai cymdeithasol o ansawdd gwell ar y cyfan (gyda sgôr Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP) o 68 ar gyfartaledd), o gymharu â thai preifat (sy'n eiddo i berchenfeddianwyr ac a gaiff eu rhentu'n breifat, sydd â sgôr SAP o 60 ar gyfartaledd). Mae band effeithlonrwydd ynni cyfartalog pob deiliadaeth wedi gwella o Fand E yn 2008 i Fand D yn 2017-18. Mae gan anheddau a adeiladwyd ers 2002 sgôr SAP gyfartalog o 73 o gymharu â sgôr SAP gyfartalog o 53 ar gyfer anheddau hŷn a adeiladwyd cyn 1919. Adeiladwyd mwy na 40% o anheddau a gaiff eu rhentu'n breifat cyn 1919.
179. Fel rhan o'r Strategaeth bresennol i Drechu Tlodi Tanwydd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a threchu tlodi tanwydd drwy fuddsoddi yn ein Rhaglen Cartrefi Clyd, sy'n cynnwys cynllun Nyth, a arweinir gan alw, a chynllun Arbed, sy'n seiliedig ar ardaloedd. Ers dechrau Cynllun Nyth⁵², ar ôl gosod mesurau, symudwyd 80% o eiddo i sgôr effeithlonrwydd ynni rhwng B a D, gydag 16% pellach yn symud i sgôr E a 3% yn symud i sgôr F.
180. Ym mis Mawrth 2020, mae mwy na £366m o fuddsoddiad a ddarparwyd drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd (Nyth ac Arbed) wedi gwella effeithlonrwydd dros 61,400 o gartrefi yng Nghymru. Mae Adroddiad Blynnyddol Nyth ar gyfer 2019/20 yn dangos bod mwy na 15,000 o ddeiliaid tai wedi cael cyngor a chymorth ynghylch ynni, gan gynnwys atgyfeiriadau at wasanaethau trydydd parti, megis gwiriadau hawl i fudd-daliadau, er mwyn gwneud y defnydd gorau o incwm yr aelwyd.
181. Mae mwy na 144,500 o aelwydydd wedi cael cyngor a chymorth dros yr wyth mlynedd y bu cynllun Nyth ar waith.

⁵¹ <https://gov.wales/national-survey-wales-april-2017-march-2018>.

⁵² Adroddiadau Blynnyddol Nyth 2011/2019

182. Mae cartrefi yng Nghymru wedi cael gwelliannau pellach drwy'r buddsoddiad parhaus yn Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Dyma'r safon a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fesur ansawdd tai. Cafodd ei chyflwyno gyntaf yn 2002, a'i nod yw sicrhau bod pob annedd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol. Pennodd Llywodraeth Cymru darged i bob landlord cymdeithasol, sef gwella ei stoc dai er mwyn cyrraedd SATC cyn gynted â phosibl, ac erbyn 2020 fan bellaf. Mae SATC yn mesur 42 o elfennau unigol o fewn y saith categori canlynol:

1. Mewn cyflwr da
2. Yn ddiogel ac yn saff
3. Wedi'i wresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi'i inswleiddio'n dda
4. Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern
5. Wedi'i reoli'n dda (o ran tai wedi'u rhentu)
6. Wedi'i leoli mewn amgylchedd deniadol a diogel
7. Bodloni gofynion penodol yr aelwyd cyn belled ag y bo modd (e.e. anabledau penodol).

183. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad yn erbyn y safonau hyn. Mae elfen casglu data ar effeithlonrwydd ynni SATC yn seiliedig ar sgôr SAP. Er mwyn cydymffurfio â SATC, rhaid i sgôr SAP cartrefi fod yn 65+. Mae ein data yn dangos ar 31 Mawrth 2014, roedd 67% o anheddau tai cymdeithasol (149,755 o anheddau) yn cydymffurfio â SATC (gan gynnwys methiannau derbyniol) o gymharu â 60 y cant flwyddyn ynghynt. Ar 31 Mawrth 2019, roedd 93% yn cydymffurfio.⁵³

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

184. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y gallai newid mewn polisi a darpariaeth effeithio ar nifer o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddff Cydraddoldeb 2010, yn benodol:

- Oedran, pobl hŷn, pobl ifanc a phlant
- Anabledd
- Hil, crefydd neu gred

Pobl hŷn – crynodeb

Pwyntiau allweddol

- Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁵⁴ yn nodi bod 21% o boblogaeth Cymru (662,376 o bobl) yn bobl hŷn sy'n 65 oed a throsodd.

⁵³ <https://llyw.cymru/safon-ansawdd-tai-cymru-ystadegau>

⁵⁴ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-age>

- Mae gan Gymru gyfran ychydig yn uwch (21%) o bobl o oedran ymddeol, 65 oed a throsodd, na gweddill y DU.
- Mae Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog y DU⁵⁵ yn nodi bod nifer y pensiynwyr sy'n wynebu amddifadedd materol wedi gostwng ychydig rhwng 2017/18 a 2018/19, o 7% i 6% ar y cyfrannau wedi'u talgrynnu (llai na 0.5 pwynt canran ar ddata heb eu talgrynnu). Rydym wedi gweld tuedd gyffredinol ar i lawr ers 2013/14.
- Fel y disgrifiwyd yn ein hatodiad technegol i'r ddogfen ymgynghori ar ein cynllun arfaethedig, mae nifer y bobl sy'n newid darparwyr ynni yn parhau'n gyson ymhlith pobl 65 oed a throsodd ac aelwydydd DE⁵⁶.
- Mae pobl hŷn yn treulio mwy o amser na'r cyfartaledd gartref ac yn wynebu mwy o risg o ddatblygu salwch y gellid ei osgoi neu farw cyn pryd am eu bod yn byw mewn cartref oer.
- Mae mwy na chyfartaledd Cymru o bobl 65 oed a throsodd fel cyfran o'r boblogaeth leol yn byw yn ardaloedd gwledig Ceredigion (25%) a Gwynedd (23%) lle mae lefelau amcangyfrifedig tlodi tanwydd yn uwch. Mae 21% o bobl yng Nghymru yn 65 oed a throsodd. Conwy sydd â'r gyfran uchaf o bobl hŷn, sef 28%, a Phowys sydd â'r ail gyfran uchaf, sef 27%.
- Yng Nghymru, amcangyfrifiwyd bod 2,000 o Farwolaethau Ychwanegol dros y Gaeaf yn 2019 i 2020⁵⁷, wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng dynion a menywod (1,000 yr un).

185. Mae canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar salwch a Marwolaethau Ychwanegol dros y Gaeaf a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chartrefi oer yn argymhell y dylid gwneud y canlynol: Gwneud i bob cyswllt gyfrif drwy asesu anghenion gwresogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau sylfaenol a gwasanaethau gofal cartref. Yn benodol, bod yn ymwybodol y gall byw mewn cartref oer gael mwy o effaith ar bobl y mae'n rhaid iddynt dreulio mwy o amser na'r cyfartaledd gartref. Gallai hyn gynnwys y rhai sydd â chyflyrau iechyd cronig (gan gynnwys salwch angheuol) neu anableddau.⁵⁸

⁵⁵https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/875261/household-s-below-average-income-1994-1995-2018-2019.pdf

⁵⁶ AB: Swyddi rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch neu ganolradd
C1: Swyddi rheoli, gweinyddol a phroffesiynol goruchwyliol, clercol ac iau
C2: Gweithwyr llaw medrus

DE: Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft, pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol ac ar y radd isaf, pobl ddi-waith sy'n cael budd-daliadau gwladol yn unig

⁵⁷<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/excesswintermortalityinenglandandwales/2019to2020provisionaland2018to2019final>.

⁵⁸ <https://www.nice.org.uk/guidance/ng6/chapter/1-Recommendations>

186. Mae lefelau amcangyfrifedig tlodi tanwydd yn uwch mewn ardaloedd gwledig lle mae poblogaeth hŷn yn ôl cyfran o gymharu ag ardaloedd mwy trefol yng Nghymru. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd i awgrymu bod pobl hŷn yn llai tebygol o gymharu'r farchnad ynni er mwyn cael borgen well, sy'n anos ynddo'i hun am fod llai o gyflenwyr olew gwresogi a nwy hylifedig yng Nghymru.
187. Yn ein cynllun i drechu tlodi, bydd buddsoddiad yn y Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol yn parhau tan fis Mawrth 2023. Mae'r cynllun peilot newydd sy'n rhan o'r rhaglen, a ddyluniwyd i ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau cyngor a chymorth yn y dyfodol, ar waith yng Ngheredigion a Gwynedd, dwy ardal lle mae lefelau amcangyfrifedig tlodi tanwydd ar eu huchaf a lle mae'r boblogaeth yn hŷn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymestyn Cynllun Peilot Nyth sy'n seiliedig ar Gyflyrau Iechyd er mwyn cefnogi pobl ar incwm is sydd â chyflwr iechyd ac sy'n byw mewn cartref oer, sy'n cynyddu eu risg o ddatblygu salwch y gellid ei osgoi. Fel rhan o'r cynllun, cynigiodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gwydnwch y gaeaf/tymhorol hefyd er mwyn rhoi cymorth pellach i bobl hŷn sy'n ei chael hi'n anodd cynnal trefn wresogi foddhaol am gost fforddiadwy.
188. Mae dystiolaeth ac ymatebion i'n hymarfer ymgynghori yn awgrymu y bydd camau gweithredu a gynigir yn ein cynllun newydd i drechu tlodi tanwydd yn diwallu anghenion pobl hŷn yn ein cymunedau yn well. Ar y sail hon, ni chynigir camau pellach er y byddwn yn adolygu'r effaith ar bobl hŷn fel rhan o'n hadolygiad cyfnodol. Mae'n bwysig bod iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, ynghyd â gwasanaethau cyngor gwell a gwaith cynllunio gwydnwch ar gyfer y gaeaf, yn parhau i gefnogi pobl hŷn.

Pobl anabl – crynodeb

Pwyntiau allweddol

189. Mae data yn seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o setiau data'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2017-19⁵⁹, yn awgrymu'r canlynol:
- Mae oddeutu 416,600 o oedolion o oedran gweithio yn anabl (28% o oedolion o oedran gweithio rhwng 16 65 oed).
 - Mae oddeutu hanner (212,700) yn byw yn ne-ddwyrain Cymru, traean (124,500) yn byw yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, a'r gweddill yn byw yng ngogledd Cymru (79,400).
 - Ym mis Mai 2018, galwodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol⁶⁰ ar Lywodraethau i ddarparu cyllid ychwanegol i sefydliadau ac asiantaethau cyngor sy'n gweithio gyda phobl anabl er mwyn cynyddu'r cyflenwad o gyngor a gwybodaeth annibynnol sydd ar gael ynghylch opsiynau tai, gan gynnwys addasiadau, gyda ffocws penodol ar y sector rhentu preifat.

⁵⁹ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/disabledstatus-by-region>

⁶⁰ <https://www.equalityhumanrights.com/en/our-work/news/disabled-people-wales-housing-crisis>

190. Ystyriodd gwaith ymchwil a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017⁶¹ nodweddion byw mewn cartref oer. Yn seiliedig ar adolygiad llenyddiaeth o dystiolaeth a gyhoeddwyd sy'n berthnasol o hyd, cydnabuwyd bod llawer o bobl anabl yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau a chadw eu cartrefi'n ddigon cynnes (Gore a Parckar, 2009). Mae cyfraddau cyflogaeth is na'r cyfartaledd ymhlith pobl anabl, ac incwm is na'r cyfartaledd sy'n gysylltiedig â hyn, yn golygu bod pobl anabl yn wynebu risg fwy na'r cyfartaledd o fyw mewn cartref oer. At hynny, mae cyfraddau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl anabl yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn treulio mwy o amser gartref, ac mewn cartref oer o bosibl. Mae anghenion sy'n gysylltiedig â chyflyrau neu namau, megis nychdod cyhyrol, hefyd yn esbonio pam mae rhai pobl anabl neu bobl sydd â chyflyrau hirdymor yn treulio mwy o amser gartref na'r cyfartaledd.
191. Gall pobl anabl sydd â llai o symudedd ddioddef o broblemau gyda chylchrediad y gwaed, sy'n golygu bod angen tymheredd uwch na'r cyfartaledd er mwyn sicrhau lefel gyfforddus o gynhesrwydd yn y cartref. Yn ôl grwpiau anabledd, mae'n fwy costus i bobl anabl gymryd rhan mewn gweithgareddau pob dydd, ac mae incwm isel (sy'n gysylltiedig â diweithdra neu gyflogaeth sydd â chyflog isel) yn lleihau gallu aelwydydd i fforddio biliau ynni. I bobl sy'n byw gyda rhai cyflyrau hirdymor, gall byw mewn cartref oer wneud eu cyflwr yn waeth a/neu amharu ar eu hadferiad. Mae'r llenyddiaeth yn nodi mai clefydau anadlol, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a chlefydau cylchrediad y gwaed sydd fwyaf tebygol o waethgu o ganlyniad i fyw mewn cartref oer.
192. Yn ein cynllun drafft, gwnaethom nodi nifer o gynigion sy'n berthnasol i gefnogi pobl anabl i gynnal trefn wresogi foddhaol am gost fforddiadwy. Ymhlith y cynigion roedd:
- Parhau i gynnwys pobl anabl yn y diffiniad o aelwyd agored i niwed;
 - Gwellu'r gwasanaethau cyngor a chymorth mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni a ddarperir i aelwydydd agored i niwed ac aelwydydd sydd wedi ymddieithrio o'r farchnad ynni. Cynllun peilot i ystyried cyfleoedd a ddechreuwyd ym mis Ionawr 2021 i lywio cynigion yn y dyfodol;
 - Parhau i fuddsoddi yn y Rhaglen Cartrefi Clyd, gan gynnwys cynllun peilot Nyth sy'n seiliedig ar gyflyrau iechyd, er mwyn rhoi gwell cymorth i bobl sydd ar incwm is ond nad ydynt o reidrwydd yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.
193. Mynegodd grwpiau sy'n gweithio gyda phobl anabl rywfaint o bryder ynghylch y broses o gyfrifo incwm aelwydydd fel rhan o'r cymhwysedd ar gyfer cynllun peilot Nyth sy'n seiliedig ar gyflyrau iechyd. Awgrymodd ymatebwyr fod cynnwys taliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd fel rhan o incwm aelwyd yn golygu nad yw rhai ymgeiswyr yn gymwys i gael cymorth o hyd. Gan mai diben taliadau yw ariannu cymorth ychwanegol sydd ei angen ar bobl anabl er mwyn gallu byw bywydau annibynnol, dadleuodd ymatebwyr y dylid diystyru taliadau o'r fath wrth gyfrifo incwm aelwydydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir yn y cynllun peilot sy'n seiliedig ar gyflyrau iechyd. Caiff cynigion eu cynnwys yn yr

⁶¹ <https://llyw.cymru/deall-pa-fath-o-bobl-syn-byw-mewn-cartrefi-incwm-isel-y-mae-byw-mewn-cartref-oer-yn-fwy-tebygol-o>

ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, y disgwylir iddo ddechrau yn ystod haf 2021. Yn y cyfamser, ac mewn achosion lle mae person anabl ychydig y tu allan i feini prawf cymhwysedd Nyth, gall Nyth gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru gymeradwyo cymorth.

Cymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)

Pwyntiau allweddol

- Mae 28% o bobl nad ydynt yn perthyn i grŵp ethnig gwyn yn byw mewn llety rhent preifat o gymharu â 15% o bobl sy'n perthyn i grŵp ethnig gwyn⁶².
- Mae gan anheddau a adeiladwyd ers 2002 sgôr SAP gyfartalog o 73 o gymharu â sgôr SAP gyfartalog o 53 ar gyfer anheddau hŷn a adeiladwyd cyn 1919. Adeiladwyd mwy na 40% o anheddau a gaiff eu rhentu'n breifat cyn 1919⁶³.
- Mae ystadegau a ddarparwyd gan Rhentu Doeth Cymru yn awgrymu bod gan dros 4,300 o gartrefi yn y sector rhentu preifat sgôr EPC o F/G (2019).

194. Mae Llywodraeth y DU yn gosod safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol ar gyfer y sector rhentu preifat. Nododd ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2021⁶⁴ gynigion i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid sicrhau bod gan eu stoc dai sgôr EPC o C erbyn 2025 ar gyfer tenantiaethau newydd, ac erbyn 2028 ar gyfer tenantiaethau presennol.

195. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynllun y Rhaglen Cartrefi Clyd a arweinir gan alw yn 2016⁶⁵. Gwnaethom ofyn a ddylid parhau i roi cymorth i'r sector rhentu preifat ar gyfer y rheini y caiff eu heiddo ei ddefnyddio i fynd i'r afael â digartrefedd, ond rhoi'r gorau i gefnogi'r holl landlordiaid preifat eraill, y dylid eu hannog i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo drwy ddarparu benthyciadau cost isel ad-daladwy.

196. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn derbyn ar y cyfan y dylai landlordiaid preifat fod yn gyfrifol am osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo, ond yn teimlo nad dyma'r adeg gywir i dynnu cymorth grant yn ôl o dan y cynllun am fod diffyg cymorth amgen ar hyn o bryd. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd 'Benthyciadau Gwella Cartrefi' yn cynnig opsiwn amgen digonol ar eu pen eu hunain am fod diffyg cymhellion neu ddatgymhellion i sicrhau bod landlordiaid yn gweithredu yn y maes hwn.

⁶² <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-09/housing-tenure-by-protected-characteristics-year-ending-december-2019.ods>

⁶³ <https://gov.wales/welsh-housing-conditions-survey>

⁶⁴ <https://www.gov.uk/government/consultations/improving-the-energy-performance-of-privately-rented-homes>

⁶⁵ <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-01/170110-responses-cy.pdf>

197. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, nododd Llywodraeth Cymru mai ei safbwynt o ran polisi oedd atal y sector rhentu preifat rhag bod yn gymwys i gael cymorth grant dros amser. O dan Gynllun 2 Nyth, rhoddwyd trefniadau ar waith i gyfyngu ar nifer yr aelwydydd sydd dan berchenogaeth un landlord a all elwa ar y cynllun i dri.
198. Mae diffyg systemau cymorth amgen i gynorthwyo'r sector rhentu preifat yn parhau i fod yn broblem, a thynnwyd sylw at hyn gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd yn yr adroddiad ar ei ymchwiliad i dlodi tanwydd, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2020⁶⁶. Cydnabyddir mai'r sector rhentu preifat sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd mewn tlodi tanwydd. Dengys amcangyfrifon⁶⁷ fod oddeutu 20% o'r holl aelwydydd sy'n rhentu'n breifat mewn tlodi tanwydd o gymharu ag 11% o dai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr a 9% o dai cymdeithasol.
199. Priodolwyd lefelau tlodi tanwydd yn y sector rhentu preifat yn rhannol i'r gyfran uchel o stoc dai cyn 1919 ac aelwydydd incwm isel. I ychwanegu at hyn, roedd y sector **"yn cael ei ddefnyddio i gartrefu niferoedd cynyddol o denantiaid sy'n agored i niwed"**. Dywedodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl wrth y pwyllgor nad yw'r cynlluniau presennol **"wedi gwneud fawr ddim i leihau tlodi tanwydd yn y Sector Rhentu Preifat ac nad oes fawr o gyllid a chymorth i landlordiaid yn y sector hwn o'i gymharu â'r sector tai cymdeithasol"**. Mynegwyd barn debyg gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru, a nododd: **"...rydym yn bryderus na all landlordiaid preifat, sy'n fusnesau bach i raddau helaeth, gael y buddsoddiad sydd ei angen i uwchraddio eu cartrefi ar y cyflymder a'r raddfa ac i'r safon sy'n ofynnol heb gymorth ac arbenigedd technegol sylweddol, yn ogystal â chymorth ariannol."**
200. Cafodd y teimladau a fynegwyd gan randdeiliaid yn yr ymgynghoriad yn 2016 ac yn yr ymchwiliad mwy diweddar i dlodi tanwydd a gynhaliwyd gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd yn 2020, eu cyfleu mewn ymatebion i'n hymgynghoriad ar y cynllun drafft i drechu tlodi tanwydd hefyd. Gan fod cymunedau BAME yn cael eu gorgynrychioli yn y stoc dai sydd leiaf thermol effeithlon yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru, fel mesur dros dro, wedi parhau i fuddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni cartref i denantiaid yn y sector rhentu preifat drwy gynllun Nyth.
201. Mae adroddiad blynyddol Nyth ar gyfer 2019/20⁶⁸ yn dangos bod bron chwarter o'r 4,544 o aelwydydd a gafodd fudd o fesurau effeithlonrwydd ynni cartref drwy Gynllun Nyth yn 2019/20 yn y sector rhentu preifat yng Nghymru. Caiff cynigion ar gyfer cymorth yn y dyfodol i drechu tlodi tanwydd ymhellach i aelwydydd incwm is yn y sector rhentu preifat eu cyflwyno yn ein hymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd.

⁶⁶ <https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=25969&Opt=0>

⁶⁷ ⁶⁷ <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018>

⁶⁸ <https://nest.gov.wales/workspace/uploads/files/nest-annual-report-welsh-5f5b52d14ba65.pdf>

Cymorth i grwpiau blaenoriaeth (Cyn-filwyr a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr).

Pwyntiau allweddol

- Mae tua 140,000 o gyn-filwyr yn byw yng Nghymru⁶⁹.
- Mae tua 82,000 o'r cyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru yn 65 oed a throsodd.
- Yn 2011, roedd oddeutu 50,000 o gyn-filwyr o oedran gweithio yng Nghymru. Yn 2017, amcangyfrifwyd bod y ffigur hwn yn 58,000. Felly, cynnydd o 8,000 o gyn-filwyr o oedran gweithio dros chwe blynedd.
- Mae gan Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint a Sir Benfro ganran o gyn-filwyr o oedran gweithio sy'n uwch na 3% o'r boblogaeth gyfan o oedran gweithio. Yr Awdurdodau Lleol sydd â'r gyfran isaf o gyn-filwyr o oedran gweithio yw Ceredigion (1.78%) a Chaerdydd (1.59%).
- Ar 23 Ionawr 2020, nodwyd bod 1,092 o garafannau Sipsiwn a Theithwyr a 136 o safleoedd yng Nghymru⁷⁰.
- Rhwng y cyfrifon ym mis Ionawr 2019 a mis Ionawr 2020, mae cyfanswm y carafannau Sipsiwn a Theithwyr wedi cynyddu 4% (42 o garafannau) ac mae cyfanswm y safleoedd (awdurdodedig ac anawdurdodedig) wedi cynyddu 10% (12 safle).
- O blith cyfanswm nifer y carafannau, roedd 89% (972 o garafannau) ar safleoedd awdurdodedig. O blith y rhain, roedd 614 (63%) ar safleoedd Awdurdodau Lleol ac roedd 358 (37%) ar safleoedd preifat.

202. Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cymorth i grwpiau penodol mewn cymdeithas wrth ddatblygu a darparu rhaglenni a ariennir. Gall cyn-filwyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd presennol a nodir yn y Cynllun Cartrefi Clyd gael cymorth i ddiwallu eu hanghenion yn well yn ystod misoedd y gaeaf, ond ni fydd pawb yn gymwys. Nid oes gan Lywodraeth y DU restr gydnabyddedig o gyn-filwyr y gellir ei defnyddio i gadarnhau cymhwysedd ychwaith.

203. Mae nifer o gynlluniau iawndal a weinyddir gan Veterans UK ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gael i bersonél sy'n gwasanaethu a chyn-bersonél a anafwyd o ganlyniad i wasanaeth yn y Lluoedd Arfog. Bydd y cynllun sy'n gymwys i bob unigolyn yn dibynnu ar ble y gwasanaethodd y cyn-filwr a phryd. Gellir hawlio Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog ar gyfer salwch neu anaf a achoswyd o ganlyniad i wasanaethu ar 6 Ebrill 2005 neu ar ôl hynny. Gellir hawlio'r Cynllun Pensiwn Rhyfel os nad yw unigolyn yn gwasanaethu mwyach a chafodd anabledd ei achosi o ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog cyn 6 Ebrill 2005. Gellir hawlio'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (Dramor) os dioddefodd y cyn-filwr neu ei ddibynyddion drosedd dreisgar wrth wasanaethu dramor, a hynny'n gwbl ddiniwed.

⁶⁹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/cyfamod-y-lluoedd-arfog-adroddiad-blynyddol-2019.pdf>

⁷⁰ <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-04/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-ionawr-2020-143.pdf>

204. Mae cymunedau teithwyr ymhlith grwpiau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, ond mae'r meini prawf cymhwysedd presennol yn peri rhwystr i'r gymuned hon. Cynigiwyd prosiect o dan y Cynllun Arbed presennol ond nid yw wedi'i ddatblygu eto. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi oddeutu £18 miliwn i ddatblygu ac adnewyddu safleoedd, ac mae wedi ymrwymo £20.3 miliwn ychwanegol hyd at ddiwedd 2021. Byddai ymdrechion i wella effeithlonrwydd ynni gan ddefnyddio'r gronfa gyfalaf hon o bosibl yn arwain at fuddiannau mwy.

205. Fel rhan o'r cynllun newydd i drechu tlodi tanwydd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ymgynghori ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd. Bydd y cynigion yn cynnwys diwygiadau i'r gofynion cymhwysedd er mwyn i'r grwpiau blaenoriaeth hyn gael cymorth.

Plant a Phobl Ifanc

Pwyntiau allweddol

- Amcangyfrifir bod 564,000⁷¹ o blant dan 16 oed yng Nghymru.
- Mae oddeutu 341,000 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.
- Mae ymchwil yn awgrymu bod 180,000 (yn 2020 – ceir dolen i adroddiad diweddaraf Sefydliad Joseph Rowntree isod) o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru⁷²,
- Mae gwybodaeth Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog y DU ar gyfer 2018-19⁷³ yn awgrymu bod 16% o'r plant mewn teuluoedd sy'n gweithio mewn incwm cymharol isel cyn costau tai o gymharu â 46% mewn teuluoedd heb waith.

206. Diffinnir plentyn o dan Erthygl 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac mae gan blant hawliau sydd wedi'u hamlinellu'n glir. Mae'n debygol y bydd byw mewn tlodi tanwydd yn peryglu nifer o hawliau plant, gan gynnwys: yr hawl i safon byw ddigonol (Erthygl 27), yr hawl i fyw, goroesi a datblygu (Erthygl 6) a'r hawl i iechyd a gwasanaethau iechyd (Erthygl 27) a hyd yn oed yr hawl i addysg (Erthygl 24).

207. Bydd camau gweithredu cynllun a gaiff eu datblygu o safbwynt hawliau plant o'r cychwyn cyntaf yn werthfawr iawn o ran sicrhau newid i blant a phobl ifanc sy'n byw yn yr amgylchiadau hyn ac, o bosibl, yn dibynnu ar gwmpas y cynllun, i boblogaeth plant Cymru yn ehangach⁷⁴.

⁷¹ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-age>

⁷² <https://www.jrf.org.uk/report/poverty-wales-2020>

⁷³ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/875261/household-s-below-average-income-1994-1995-2018-2019.pdf

⁷⁴ Barn cynrychiolydd, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. E-bost ar 24 Mai 2019.

208. Yn yr ymgynghoriad ar y cynllun drafft i drechu tlodi tanwydd, cynigiodd Llywodraeth Cymru gadw teuluoedd sydd â phlant hyd at 16 oed yn y diffiniad o aelwyd agored i niwed. Cynigiwyd y dylid cynnwys pobl ifanc dan 25 oed sy'n byw mewn aelwyd un person hefyd. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (47%) yn cytuno y dylid diwygio'r diffiniad i gynnwys pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n byw mewn aelwyd un person. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod costau byw a chostau tai cynyddol yn golygu bod pobl ifanc yn byw mewn aelwydydd amlfeddiannaeth er mwyn helpu i rannu costau byw, gan gynnwys costau ynni.

209. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio'r diffiniad o aelwyd agored i niwed i gynnwys unrhyw aelwyd lle mae rhywun dan 25 oed yn byw. Ni chynigir ymestyn yr ystod oedran i gartrefi lle mae pobl rhwng 16 a 34 oed yn byw ychwaith, er bod y grŵp oedran hwn wedi'i orgynrychioli yn yr amcangyfrifon tlodi tanwydd diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019. Bydd aelwydydd yn y categorïau sy'n wynebu tlodi tanwydd yn parhau i fod yn gymwys i gael mesurau effeithlonrwydd ynni cartref o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod aelwydydd lle mae sawl person rhwng 16 a 24 oed yn byw, neu aelwydydd lle mae un person rhwng 25 a 34 oed yn byw, yn wynebu mwy o risg o fyw mewn tlodi tanwydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu hyn wrth i amcangyfrifon tlodi tanwydd newydd gael eu paratoi.

Y Gymraeg

210. Bydd y darparwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol am gyflawni unrhyw elfen o'r Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Mae'r gwasanaethau cyngor presennol yn ystyried Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys ateb y ffôn a chyhoeddi gwybodaeth yn ddwyieithog a sicrhau yr ymdrinnir â chwsmeriaid a rhanddeiliaid yn eu dewis iaith.

211. Mae cadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yn ardaloedd gwledig y gogledd a'r gorllewin (Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin). Mae angen i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ychwanegol ystyried hyn ar y cam dylunio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir mewn ardaloedd sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ac yn cyfrannu at gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

212. Bydd dyluniad gwasanaethau ychwanegol neu newid sylweddol i ddulliau darparu gwasanaethau presennol yn ddarostyngedig i asesiad llawn o'r effaith ar y Gymraeg, gyda mewnbwn gan y tîm safonau perthnasol.

213. Bydd dylunio a chyflawni'r nodau a'r camau polisi canlynol yn briodol yn sicrhau y caiff y Gymraeg ei thrin yn gyfartal:

- Treialu gwasanaeth allgymorth a chyngor ar ynni ledled Cymru.
- Gwerthuso'r cynllun allgymorth ac ymgynghori ar ffyrdd o ehangu cymorth ledled Cymru.
- Parhau i ddarparu ein Rhaglen Cartrefi Clyd.

- Ymgynghori ar drefniadau diwygiedig ar gyfer darparu'r Rhaglen Cartrefi Clyd.

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

214. Canfu gwaith ymchwil i ddeall nodweddion aelwydydd incwm isel sy'n wynebu'r risg fwyaf o fyw mewn cartrefi oer⁷⁵ y gall byw mewn cartref oer gael effeithiau andwyol sylweddol a pharhaus ar iechyd, addysg ac agweddau cymdeithasol ar fywydau pobl. Mae astudiaethau niferus yn nodi cysylltiadau rhwng nodweddion penodol unigolion neu aelwydydd, a bod yn arbennig o agored i effeithiau niweidiol byw mewn cartref oer. Yn benodol, cydnabyddir bod y mathau canlynol o aelwydydd yn agored i niwed:

- Aelwydydd sy'n cynnwys oedolion hŷn (65 oed a throsodd);
- Aelwydydd sy'n cynnwys plant dibynnol (o bob oedran, ond gan gydnabod bod plant iau, dan 5 oed, yn arbennig o agored i niwed);
- Aelwydydd sy'n cynnwys o leiaf un person sydd ag anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor;
- Aelwydydd sy'n cynnwys unigolion sydd â chlefyd anadlol neu glefyd cylchrediad y gwaed; ac aelwydydd sy'n cynnwys unigolion sydd â chyflwr iechyd meddwl.

215. Yn ogystal â bod yn fwyaf agored i effeithiau byw mewn cartref oer, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr aelwydydd hyn yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn byw mewn cartref oer, ac yn fwy tebygol o fod ar incwm isel.

216. Mae canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar gyfer salwch a Marwolaethau Ychwanegol dros y Gaeaf a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chartrefi oer, yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwneud i bob cyswllt gyfrif drwy asesu anghenion gwresogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau sylfaenol a gwasanaethau gofal cartref.

217. Yn benodol, mae'n annog darparwyr gwasanaethau iechyd i fod yn ymwybodol y gall byw mewn cartref oer gael mwy o effaith ar bobl y mae'n rhaid iddynt dreulio mwy o amser gartref na'r cyfartaledd. Gallai hyn gynnwys y rhai sydd â chyflyrau iechyd cronig (gan gynnwys salwch angheuol) neu anableddau.⁷⁶

218. Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru friff dystiolaeth yn cymharu iechyd y rhai sy'n elwa ar gynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth ac Arbed y Rhaglen Cartrefi Clyd⁷⁷. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar y rhai a wnaeth elwa ar gynllun Nyth rhwng 2011 a 2017 a chymharu'r rhai a wnaeth elwa ar gynllun Nyth a chynllun Arbed yn 2011. Dangosodd yr astudiaeth nad oedd y naill gynllun na'r llall yn cael effaith ar b'un a oedd y bobl dan sylw yn dioddef cyflwr iechyd yn y lle cyntaf. Ar

⁷⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/deall-pa-fath-o-bobl-syn-byw-mewn-cartrefi-incwm-isel-y-mae-byw-mewn-cartref-oer-yn-fwy-tebygol-o-ffeithio-arnyn-nhw-adroddiad-terfynol.pdf>

⁷⁶ <https://www.nice.org.uk/guidance/ng6/chapter/1-Recommendations>.

⁷⁷ <https://llyw.cymru/effaith-cynlluniau-cartrefi-clyd-llywodraeth-cymru-ar-iechyd-html>

gyfer Nyth ac Arbed, gwelwyd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau meddyg teulu ar gyfer iechyd anadlol o gymharu â'u priod grwpiau priodol. Mae'r patrwm cyson o ostyngiadau mewn perthynas â'r ddau gynllun, er nad yw'n arwyddocaol yn ystadegol bob tro, yn awgrymu bod y ddau gynllun yn gwella iechyd anadlol.

219. Fel y byddai disgwyl, mae'n ymddangos bod yr effaith hon yn fwy ymhlith y rhai sy'n elwa ar y cynllun a arweinir gan alw, sef Nyth. Yn ôl y disgwyl, ni chafodd y naill gynllun na'r llall effaith sylweddol ar nifer cyfartalog y presgripsiynau gan feddyg teulu ar gyfer asthma. Mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd, ar y cyfan, caiff meddyginiaeth ei rhoi ar bresgripsiwn ar gyfer asthma fel triniaeth ataliol ac mae'n debygol y byddai hyn yn parhau ni waeth sawl pwl aciwt o asthma y byddai'r unigolyn yn ei gael. Fodd bynnag, i'r rhai sy'n cael mwy nag un presgripsiwn gan Feddyg Teulu ar gyfer haint, awgrymwyd bod Nyth ac Arbed yn cael effaith gadarnhaol. Nid oedd y canfyddiadau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol, o bosibl oherwydd y niferoedd bach. Fodd bynnag, mae'r patrwm cyson ar draws y cynlluniau yn awgrymu bod effaith gadarnhaol gymedrol ar roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn i unigolion sydd â heintiau mwy difrifol neu sy'n cael haint dro ar ôl tro.

220. Mae **Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi**⁷⁸ yn tynnu sylw pellach at bwysigrwydd buddsoddi mewn tai oherwydd y buddiannau iechyd a llesiant sylweddol y gellir eu cyflawni a'r arbedion sylweddol y gellir eu gwneud o ran costau. Drwy edrych ar ychydig o enghreifftiau yn unig, gall uwchraddio tai arwain at 39% yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau cardio-anadlol, a gall gwario £1 ar wella cynhesrwydd mewn aelwydydd agored i niwed arwain at werth £4 o fuddiannau iechyd.

221. Mae gwella gwresogi ac awyru yn gwella asthma plant ac mae'n debygol y bydd yn lleihau absenoldebau o'r ysgol, a gall addasiadau mewn cartrefi cyn rhyddhau o'r ysbyty arbed £7.50 mewn costau iechyd a gofal cymdeithasol am bob £1 a gaiff ei gwario. Dangosir buddiannau gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar hefyd, megis mentrau atal cwmpadau yn talu'n ôl mewn llai na thair blynedd.

222. Fel rhan o'r cynllun i drechu tlodi tanwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni cartrefi drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol ac ymgynghori ar gynigion ar gyfer iteriad nesaf y rhaglen. Cynigir y dylid parhau â'r cynllun peilot yn seiliedig ar gyflyrau iechyd hefyd, er mwyn cefnogi deiliaid tai yn well a chefnogi deiliaid sy'n byw gyda chyflwr iechyd ac sy'n wynebu mwy o risg o ddatblygu salwch y gellid ei osgoi i gynnal trefn wresogi foddhaol am gost fforddiadwy.

Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant

223. Bydd ein dull arfaethedig o drechu tlodi tanwydd yn arwain at fuddiannau niferus ar draws y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

⁷⁸ <https://phw.nhs.wales/files/housing-and-health-reports/a-case-for-investment-report/>

224. Mae camau gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru i drechu tlodi tanwydd wedi'u cynllunio i barhau i wella effeithlonrwydd ynni'r cartref ac effeithio ar agweddau ac ymddygiadau, a fydd yn sicrhau gwelliant hirdymor yn ansawdd y stoc dai ac yn lleihau ei hól troed carbon wrth leihau'r defnydd diangen o ynni a chost yr ynni a ddefnyddir. Bydd y cynllun yn cyfrannu'n glir at y Nodau Llesiant:

- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru lewyrchus a Chymru gydnerth.** Mae gweithredu ar effeithlonrwydd ynni yn ffactor pwysig o ran twf glân a datblygu swyddi, sgiliau a chadwyni cyflenwi. Mae'n un o'r ffyrdd mwyaf cost effeithiol o gyflawni ein hymrwymadau i leihau allyriadau carbon, mae'n mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn uniongyrchol ac yn lleihau biliau ynni domestig.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** Bydd ehangu terfynau gwario fel rhan o'r Rhaglen Cartrefi Clyd ar gyfer eiddo nad yw ar y grid nwy mewn ardaloedd gwledig yn helpu i sicrhau bod byw yn yr ardaloedd hynny'n fwy fforddiadwy, a thrwy hynny'n galluogi pobl i aros yn eu cymunedau. Bydd yr elfennau o'r Cynllun sydd dan gontract yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal.** Gall cartref cynnes helpu i leihau allgáu cymdeithasol drwy alluogi deiliaid tai i wahodd cymdogion i'w cartrefi a sicrhau bod mwy o incwm gwario ar gael ar gyfer bwyd a chostau eraill o ddydd i ddydd a gweithgareddau cymdeithasol.
- **Cymru iachach.** Drwy sicrhau amgylchedd cynnes yn y cartref, gallwn gyfrannu at leihau nifer y marwolaethau ychwanegol dros y gaeaf a gwella cyrhaeddiad addysgol plant drwy leihau nifer yr absenoldebau o'r ysgol o ganlyniad i salwch a chreu lle cynnes i astudio.

225. O ran cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir o dan yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae cael camau gweithredu i gefnogi aelwydydd sy'n dlawd o ran ynni yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn wydn yn yr hirdymor ac atal niwed yn y dyfodol o ganlyniad i dai oer a llaith. Bydd gweithio gydag eraill ac ystyried agendâu polisi perthnasol ehangach yn amddiffyn aelwydydd rhag bod mewn sefyllfaoedd lle mae'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd sy'n effeithio ar lesiant. Mae swyddogion wedi nodi a chydweithio â rhanddeiliaid allweddol er mwyn helpu i ddatblygu'r cynllun. Bydd y partneriaid hyn yn hollbwysig wrth gyflawni amcanion y cynllun newydd, ac mae'n bosibl y bydd llawer ohonynt yn ymuno â'r Panel Cyngori newydd.

226. Mae ein Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, yn cynnwys 14 o amcanion llesiant ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2021, a dylai cyflawni'r amcanion hyn gael ei gynnwys mewn polisi. Mae cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun newydd yn cyfrannu'n sylweddol at o leiaf chwech o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru:

- **Gwella ffyniant i bawb ledled Cymru, gan helpu pobl i ddod o hyd i swyddi a'u cadw.**
- **Meithrin amodau ar gyfer datblygu economaidd a chyflogaeth gynaliadwy, gan ysgogi arloesedd a thwf ar gyfer economi carbon isel fodern.** Ar hyn o

bryd, mae cynlluniau'r Rhaglen Cartrefi Clyd wedi'u dylunio i sicrhau buddiannau economaidd i Gymru o ran cyfleoedd cyflogaeth a busnes. Mae'r cynllun newydd yn nodi bod angen defnyddio arloesedd i ystyried y ffordd orau o leihau'r defnydd o ynni am gost is mewn eiddo sy'n anos ei drin, gan gynnwys cartrefi mewn ardaloedd nad ydynt ar y grid nwy.

- **Helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol a chefnogi gweithlu iach.** Mae tlodi tanwydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant cymdeithasol ac economaidd deiliaid tai. Mae'n arwain at effeithiau negyddol mewn perthynas â chyrhaeddiad addysgol, cynhwysiant cymdeithasol, cydlyniant cymunedol a'r economi hefyd.
- **Cefnogi'r broses o drawsnewid i gymdeithas carbon isel sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd.** Bydd y cynllun yn helpu i leihau'r galw am ynni mewn lleoliadau domestig.
- **Gwella mynediad i gartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy.** Bydd lleihau'r ynni a ddefnyddir drwy wella effeithlonrwydd ynni yn creu amgylchedd mwy sefydlog a chynnes yn y cartref a allai fod yn rhatach ei redeg.
- **Hwyluso gwasanaethau cyhoeddus ymatebol, o ansawdd uchel ac sydd wedi'u hintegreiddio'n well i'r rhai sydd eu hangen fwyaf, gan alluogi dinasyddion i fod yn bartner cyfartal.**

227. Ym mis Rhagfyr 2020, adroddodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ar ymdrechion yng Nghymru i leihau allyriadau carbon tuag at gyflawni sero net erbyn 2050⁷⁹. Cyflwynodd rheoliadau a wnaed yn y Senedd ar 9 Chwefror 2021 darged statudol i gyflawni sero net erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall y cynlluniau i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a lleihau tlodi tanwydd gyfrannu at ddatgarboneiddio tai er budd y targed statudol hwn.

228. I wneud hynny, bydd yr argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn rhan annatod o iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid pennu dyddiad ar gyfer rhoi'r gorau i osod boeleri tanwydd ffosil yn raddol cyn 2035, er mwyn i'r defnydd o opsiynau gwresogi carbon isel fod yn ddigonol i ddatgarboneiddio adeiladau erbyn 2050. Dylai gwerthiannau boeleri olew, ac felly'r gallu i'w prynu a'r gwaith o'u gosod, ddod i ben yn raddol erbyn 2028, a boeleri nwy erbyn 2033 mewn cartrefi preswyl, ac eithrio boeleri nwy sy'n barod i ddefnyddio hydrogen mewn ardaloedd lle y bwriedir newid y grid nwy yn un hydrogen carbon isel.

⁷⁹ <https://www.theccc.org.uk/publication/the-path-to-net-zero-and-progress-reducing-emissions-in-wales/>

229. Mae amcangyfrifon Tlodi Tanwydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (2018) yn awgrymu bod 14% o gartrefi mewn ardaloedd gwledig mewn tlodi tanwydd, o gymharu â dim ond 10% o'r rhai mewn ardaloedd trefol⁸⁰. Mae'r diffiniad o ardaloedd 'gwledig' a ddefnyddir amlaf yn cyfeirio at aneddiadau sydd â 10,000 o breswylwyr neu lai. Ceir nifer anghymesur o gartrefi ynni aneffeithlon a thermol aneffeithlon mewn ardaloedd gwledig, ac felly mae'n fwy tebygol y bydd y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn byw mewn cartref oer (Gweithredu Ynni Cenedlaethol, 2013a).

230. Mae penderfynyddion fel y rhai canlynol yn effeithio ar gymunedau gwledig:

- Y gallu i gael gafael ar wasanaethau. Gall fod yn anodd i gymunedau gwledig gael yr un lefel o wasanaethau ag ardaloedd trefol.
- Teimlo'n ynysig – nodir y gellir cael 'cylch pellenigrwydd' mewn rhai ardaloedd gwledig o ganlyniad i ddiffyg seilwaith
- Trafnidiaeth gyhoeddus – mae diffyg trafndiaeth gyhoeddus yn broblem a nodir yn aml. Mae angen rhyw fath o gludiant hyd yn oed ar gyfer teithiau byr. Mae hyn yn gysylltiedig â mynediad at wasanaethau. Er enghraifft, mae'r amseroedd cyfartalog ar gyfer trafndiaeth breifat yn 2015 yn dangos y gall yr amser sydd ei angen i deithio i feddygfeydd fod yn hwy mewn ardaloedd gwledig o gymharu â'u cymheiriaid trefol.⁸¹
- Mae'n fwy tebygol na fydd pobl sy'n byw mewn ardaloedd prin eu poblogaeth ar y prif rwydwaith nwy ac y byddant yn dibynnu ar danwyddau eraill ar gyfer gwresogi a choginio, megis Nwy Petrolewm Hylifedig (LPG).
 - Gall costau tanwydd fod yn uwch
 - Gellir effeithio'n andwyol ar incwm aelwydydd
 - Gall fod yn anodd dosbarthu LPG pan fo'r tywydd yn wael.
- Seilwaith gwael, gan gynnwys ffyrdd a darpariaeth band eang, a all olygu:
 - Bod teithio gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth gymunedol yn heriol
 - Ei bod yn anodd ymgysylltu â'r farchnad
 - Bod cyfleoedd i arloesi gan ddefnyddio TGCh yn gyfyngedig.
- Poblogaeth sy'n heneiddio – mae gan gymunedau gwledig broffil oedran hŷn

231. Ar hyn o bryd, mae gan gynlluniau Nyth ac Arbed y Rhaglen Cartrefi Clyd derfynau gwario o ran faint y gellir ei wario ar eiddo unigol. Mae'r terfynau hyn yn uwch ar gyfer eiddo nad yw ar y grid nwy (sy'n gyffredin mewn ardaloedd gwledig) er mwyn cydnabod natur anodd ei thrin eiddo o'r fath. Bydd y cynllun trechu tlodi tanwydd newydd yn adeiladu ar y cymorth a gynigir i ardaloedd gwledig ar hyn o bryd. Gellir gwneud hyn drwy ddatblygu'r cymorth a roddir i grwpiau agored i niwed, gwella'r cyngor a'r cymorth

⁸⁰ <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018>

⁸¹ <http://ppi.w.org.uk/files/2016/06/An-introduction-to-Rural-Poverty.pdf>

a ddarperir ac ystyried cyfleoedd i arloesi er mwyn annog pobl i newid eu hagwedd a'r ffordd y maent yn defnyddio ynni.

232. Er mwyn sicrhau effaith sylweddol a chadarnhaol mewn cymunedau gwledig, rydym wedi cynnig gwneud y canlynol yn y cynllun newydd:

- Paratoi a chyhoeddi data ar ynni domestig yng Nghymru yn flynyddol er mwyn ein helpu ni a'n partneriaid i ganolbwyntio ar y cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf o fyw mewn tlodi tanwydd
- Treialu gwasanaeth allgymorth a chynghor ar ynni ledled Cymru. Mae'r cynllun peilot ar waith yng Ngwynedd a Cheredigion. Byddwn yn gwerthuso'r cynllun allgymorth ac yn ymgynghori ar ffyrdd o ehangu cymorth ledled Cymru.
- Parhau â'n Rhaglen Cartrefi Clyd yn y sector perchen-feddiannwyr a'r sector rhentu preifat.

233. Yn dilyn ei ymchwiliad i dlodi tanwydd, argymhellodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd y dylai'r strategaeth tlodi tanwydd newydd gynnwys darpariaethau sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r heriau gwahanol a wynebir mewn ardaloedd gwledig⁸². Dylai hyn gynnwys rhaglen bwrpasol gyda lefelau priodol o gyllid sy'n ystyried y mesurau mwy cymhleth a drutach sydd eu hangen i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig.

234. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, mynegodd y pwyllgor bryder bod y terfynau gwario presennol yn atal aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd ac sy'n byw mewn eiddo 'anodd ei drin' rhag elwa ar gynlluniau presennol. Mae risg y bydd y bwlch presennol rhwng lefelau tlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig a threfol yn cynyddu os bydd eiddo sy'n hawdd ei wella yn parhau i gael blaenoriaeth ar gyfer cymorth. Gall gwelliannau effeithlonrwydd ynni fod yn gostus mewn ardaloedd gwledig ac, mewn rhai achosion, yn ormodol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall cynlluniau effeithlonrwydd ynni yn y dyfodol gefnogi aelwydydd gwledig nad ydynt ar y grid nwy.

235. Caiff ffyrdd o ddiwallu anghenion cymunedau gwledig sydd ar incwm is eu hystyried yn ystod yr ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Trechu Tlodi

236. Mae'r hinsawdd ariannol sydd ohoni yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i drechu tlodi drwy flaenoriaethu anghenion y bobl dlotaf a diogelu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed rhag tlodi ac ymyleiddio. Mae cysylltiad agos rhwng y ffactorau sy'n achosi tlodi ac anghydraddoldeb.

⁸² <https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=25969>

237. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i gael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n byw mewn tlodi. Mae llawer o ffactorau yn dylanwadu ar dlodi, ac mae tlodi tanwydd yn un canlyniad i aelwydydd. Mae'r cynigion a nodir yn y cynllun yn cyfrannu'n helaeth at amcanion Llywodraeth Cymru i drechu pob math o dlodi. Mae tlodi yn cael effaith negyddol ddifrifol ar fywydau pobl ac ar gymunedau. Yn benodol, gall tlodi tanwydd arwain at gartrefi oer a risg o salwch a marwolaeth. Gall fod yn rhwystr i gyrhaeddiad addysgol gan nad oes lle cynnes i astudio, a gall achosi ynysigrwydd cymdeithasol a bod yn niweidiol i iechyd meddwl. Bydd y cynllun newydd yn ceisio torri'r cylch tlodi tanwydd a helpu'r rhai sy'n dioddef effeithiau hirdymor.
238. Mae'r cynllun yn amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid i gyflawni'r nod o liniaru tlodi tanwydd mewn aelwydydd incwm is. Mae'r partneriaid yn cynnwys adrannau ehangach Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r trydydd sector. Bydd cynnwys agendâu polisi eraill a chydweithredu'n ehangach â rhanddeiliaid yn helpu i sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf. Bydd yn arwain at fwy o wybodaeth, rhwydweithiau ac adnoddau o bosibl er mwyn trechu problem ehangach tlodi mewn modd cyfannol. Drwy gyflwyno dull o fesur tlodi tanwydd i aelwydydd sy'n wynebu risg o fyw mewn tlodi tanwydd, gan eu bod yn gwario rhwng 8% a 10% o'u hincwm ar anghenion tanwydd, rydym yn cydnabod y bydd aelwydydd yn symud i mewn ac allan o dlodi tanwydd mewn ffordd fyrhoedlog.

Effeithiau ar y Trydydd Sector

239. Mae'r Trydydd Sector yng Nghymru yn cynnwys casgliad bywiog ac amrywiol o elusennau, cymdeithasau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Mae ymchwil gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn awgrymu bod mwy na 31,000 o sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau datblygu, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau cydfuddiannol.
240. Roedd y broses o ddatblygu Cynllun Trechu Tlodi Newydd yn cynnwys dadansoddiad o randdeiliaid sydd wedi casglu manylion sefydliadau allweddol yn y trydydd sector sydd â chryn dipyn o ddiddordeb mewn trechu tlodi tanwydd a dylanwad yn hyn o beth. Mae gan y sefydliadau hyn gylch gwaith clir a diffiniedig o ran gweithredu i drechu tlodi tanwydd. Maent yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru ar y cyfan ac yn cydweithio â swyddogion ar ffrydiau gwaith perthnasol. Maent yn hyddysg iawn ac mae ganddynt eu rhaglenni gwaith perthnasol eu hunain. Mae'n debygol y byddant yn bartneriaid allweddol wrth gyflawni'r amcanion a'r camau gweithredu.
241. Gwahoddwyd amrywiaeth o randdeiliaid allanol allweddol i gymryd rhan mewn digwyddiad bord gron ar 5 Mehefin 2019 yn Nhŷ Hywel. Y digwyddiad hwn oedd dechrau ffurfiol yr ymgynghoriad i ddatblygu'r cynllun newydd. Fodd bynnag, mae swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â phartneriaid yn y trydydd sector er mwyn meithrin cydberthnasau proffesiynol a chasglu safbwyntiau ynghylch pynciau allweddol y dylid eu cynnwys yn y cynllun newydd ers mis Hydref 2018.

242. Mae sefydliadau'r Trydydd Sector, megis Gweithredu Ynni Cenedlaethol a Gofal a Thrwsio Cymru, wedi cynnal cynadleddau, gweithdai a fforymau lle mae'r pynciau trafod wedi cynnwys datblygu'r cynllun trechu tlodi tanwydd newydd, ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael gwahoddiad i roi cyflwyniadau yn y digwyddiadau hyn. Yn dilyn sylwadau a wnaed yn ystod trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, ynghyd ag argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru yn ei adolygiad o gefndir tlodi tanwydd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, diwygiodd Llywodraeth Cymru y cynllun arfaethedig i drechu tlodi tanwydd, drwy gynnwys ymrwymiad i sefydlu grŵp cynghori er mwyn helpu i ddatblygu ymyriadau i leihau lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru a'u rhoi ar waith. Drwy wneud hynny, bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle cynnar i ddylanwadu ar fesurau sydd â'r nod o leihau tlodi tanwydd ledled Cymru, a'u gwella.

Newid yn yr Hinsawdd

243. Nodwyd bod newid yn yr hinsawdd ymhlith y bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen inni leihau allyriadau drwy gymryd camau i ddatgarboneiddio ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu ein gwydnwch.

244. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi targed cyfreithiol ar gyfer lleihau allyriadau erbyn 2050 ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu cyfres o dargedau dros dro (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon. Bydd y cyllidebau'n pennu terfynau ar gyfanswm yr allyriadau yng Nghymru dros gyfnod o bum mlynedd ac yn gweithredu fel cerrig llamu i sicrhau y caiff cynnydd rheolaidd ei wneud tuag at gyflawni'r targed hirdymor. Ar hyn o bryd, mae Cymru wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon 95% erbyn 2050, ond mae wedi cyflwyno rheoliadau gerbron y Senedd i anelu at darged sero net.

245. Er mwyn inni gyflawni ein targedau uchelgeisiol a phwysig, mae angen inni weithio gyda phob rhan o'r Llywodraeth i ystyried sut mae ein holl bolisiâu yn effeithio ar ein hallyriadau yng Nghymru. Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o bryd i'w gilydd sy'n trafod y canlynol:

- amcanion Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag allyriadau nwyon tŷ gwydr ac effaith newid yn yr hinsawdd yng Nghymru,
- y camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru ac eraill i fynd i'r afael ag allyriadau ac effeithiau o'r fath,
- blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ac eraill ar gyfer y dyfodol o ran mynd i'r afael ag allyriadau ac effeithiau o'r fath.

246. Mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn golygu bod yn barod ar gyfer effeithiau megis tymereddau uwch, gwyntoedd cryfach, cynnydd yn lefel y môr a mwy o law. Bydd y Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd newydd yn ystyried sut y gall gyfrannu at y targedau statudol a lleihau'r galw am ynni mewn lleoliadau domestig. Bydd y cynllun yn cyfrannu at y gwaith o gyflwyno agenda ddatgarboneiddio ehangach, gan chwarae rhan hanfodol yn nhrawsnewidiad Llywodraeth Cymru i economi carbon isel a ffyniannus.
247. Y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yw'r fethodoleg a ddefnyddir gan y Llywodraeth i asesu a chymharu perfformiad ynni a pherfformiad amgylcheddol cartrefi. Diben y weithdrefn yw darparu asesiadau cywir a dibynadwy o berfformiad ynni cartrefi, a ddefnyddir fel sail i fentrau polisi ynni ac amgylcheddol. Rhoddir tystysgrifau perfformiad ynni (EPC) i gartrefi yn seiliedig ar fethodoleg SAP. Bydd y fethodoleg SAP yn parhau i gael ei defnyddio yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru.
248. Yn y cynllun trechu tlodi tanwydd drafft, cynigiodd Llywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer y dyfodol fel rhan o'r Rhaglen Cartrefi Clyd a ddylai anelu at leihau'r ynni a ddefnyddir i wresogi 21%, ac o leiaf 15%, ar gyfer pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd ar ôl gosod mesurau effeithlonrwydd ynni cartref o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd. Dylai'r newid hwn gyd-fynd yn well â'r angen i leihau biliau deiliaid tai o gymharu â'r fethodoleg SAP. Nid oedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn. Awgrymodd mwyafrif fod parhau i ddefnyddio'r system sgorio EPC yn ddull mesur mwy effeithiol, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod gan y ddau ddull mesur wendidau. Gall diffyg data cywir a gorddibyniaeth ar ganlyniadau wedi'u modelu arwain at ganlyniadau camarweiniol, gan danseilio hygredd adroddiadau ar ymdrechion i drechu tlodi tanwydd. Mae canlyniad yr ymgynghoriad yn amhendant, a chafwyd dadleuon rhesymol o blaid y ddau ddull.
249. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid defnyddio'r ddau ddull mesur pan gyflwynir cynigion ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd ar gyfer ymgynghoriad yn ddiweddarach yn 2021.

Effaith Economaidd

250. Ym mis Hydref 2020, nododd y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol/y Gweinidog Pontio Ewropeaidd flaenoriaethau ar gyfer ail-greu wrth inni ddechrau dod allan o'r pandemig⁸³. Un o flaenoriaethau pwysig ein gwaith adfer yw helpu llawer o'r bobl a'r busnesau sydd wedi colli eu bywoliaeth yn sgil y cyfyngiadau symud, neu y mae'r pandemig wedi cael effaith andwyol arnynt, i ddod o hyd i waith a chael sicrwydd ar gyfer y dyfodol. Drwy ein Cronfa Cadernid Economaidd a'n cymorth sgiliau ehangach, rydym yn helpu unigolion a chwmnïau yng Nghymru i bontio i economi a swyddi'r dyfodol.
251. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, er eu bod yn croesawu'r cynllun drafft, yn dadlau y dylid cynnwys targedau dros dro. Mae swyddogion yn gwerthfawrogi'r buddiannau y gallai targedau dros dro eu cyflwyno, ond maent yn ymwybodol bod effeithiau economaidd pandemig COVID-19 yn ansicr o hyd, ac y gall lefelau amcangyfrifedig tlodi tanwydd gynyddu'n sylweddol.

⁸³ <https://llyw.cymru/ail-greu-ar-ol-y-coronafeirws-yr-heriau-ar-blaenoriaethau-html#section-52303>

252. Mae gwaith ymchwil pellach yn cael ei gomisiynu i asesu'r effaith. Nes y bydd yr asesiad hwn wedi'i gwblhau, ystyrir y byddai gosod targedau dros dro yn dybiannol iawn, ac nid ydym yn argymhell y dylid eu cynnwys ar yr adeg hon.
253. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai camau gweithredu ychwanegol ar gyfer y tymor byr iawn, i ymateb i bandemig COVID-19, ac ar gyfer y tymor hwy (ar ôl 2023), gael eu cynnwys yn y cynllun hefyd. Mae mesurau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru eisoes wedi cael eu cyflwyno i gefnogi aelwydydd drwy'r pandemig, gan gynnwys taliadau tanwydd ychwanegol drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn helpu pobl i brynu nwy hylifedig ac olew gwresogi.
254. Mae dileu tlodi tanwydd yng Nghymru gan ddefnyddio dull blaengar a defnyddio'r cynllun i greu economi decach wrth inni ddechrau dod allan o'r pandemig yn flaenoriaeth. Wrth gwrs, dim ond un elfen o'n dull llawer ehangach o ysgogi effeithlonrwydd ynni yng Nghymru yw'r Cynllun hwn. Rydym wedi datblygu a chyflwyno ymyriadau credadwy mewn amrywiaeth o feysydd er mwyn helpu pobl i ddefnyddio llai o ynni, gan leihau eu biliau yn ogystal ag amddiffyn yr amgylchedd naturiol.
255. Mae ein Rhaglen Tai Arloesol wedi buddsoddi £145m dros bedair blynedd i adeiladu cartrefi fforddiadwy'r dyfodol, yn enwedig o ran bod yn ynni effeithlon. Mae nifer o'r 1,900 o gartrefi a ariannwyd gan y rhaglen wedi anelu at ddileu tlodi tanwydd yn llwyr. Mae rhai o'r dulliau a dreialwyd wedi lleihau biliau tanwydd o oddeutu £1,300 y flwyddyn i lai na £200. Yn syml, mae adeiladu cartrefi gwell yn rhoi mwy o arian ym mhocedi tenantiaid.
256. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i brif ffrydio'r hyn a ddysgwyd o'r Rhaglen Tai Arloesol a'n Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i raglenni tai craidd, er mwyn sicrhau mai dyma'r ffordd y caiff *pob* tŷ ei adeiladu yn y dyfodol. Rydym yn parhau i sicrhau bod pob cartref cymdeithasol yng Nghymru yn effeithlon o ran ynni er mwyn lleihau tlodi tanwydd i rai o'n tenantiaid mwyaf agored i niwed.
257. Mae ein hymrwymiad hirsefydlog i sicrhau buddsoddiad drwy Safon Ansawdd Tai Cymru wedi golygu y bu'n ofynnol i gartrefi cymdeithasol gyflawni sgôr effeithlonrwydd ynni o EPC D o leiaf. Mae'r safon newydd y bwriedir ei chyhoeddi flwyddyn nesaf yn ystyried targed uchelgeisiol o roi hwb i berfformiad ynni y cartrefi hyn fel eu bod yn cael sgôr A, sef y lefel uchaf.
258. Bydd ein buddsoddiad parhaus yn y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cefnogi ymdrechion i adfywio ein heconomi. Bydd yn helpu i gynnal cyfleoedd cyflogaeth presennol a chreu rhai newydd wrth inni ddechrau dod allan o'r pandemig presennol. Er ein bod wedi buddsoddi mwy na £366m dros y deng mlynedd diwethaf, gan wella bywydau mwy na 61,400 o aelwydydd yn y sector perchen-feddiannwyr a'r sector rhentu preifat, mae'n annhebygol y bydd lefelau presennol gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartrefi yn ailafael yn y momentwm o ran lleihau lefelau amcangyfrifedig tlodi tanwydd, o ystyried y rhagolygon economaidd presennol.
259. Mae angen model newydd ac amcanestyniadau newydd i sefydlu sylfaen gadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn deall beth arall y mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ei wneud i gyflawni ein targedau erbyn 2035. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau o ran pa dargedau dros dro cyflawnadwy ac ystyrlon y gellir eu hychwanegu at y cynllun hwn. Mae'r nodau polisi yn y cynllun wedi cael eu diwygio er

mwyn cyfeirio'n glir at egwyddorion dull gweithredu "adeiladwaith yn gyntaf" wrth osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, a dull gweithredu "y gwaethaf yn gyntaf" er mwyn blaenoriaethu aelwydydd incwm is y mae angen cymorth Llywodraeth Cymru arnynt fwyaf.

260. Mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol yn cefnogi gweithwyr llafur a gyflogir yn uniongyrchol a chyflogaeth ehangach yn y diwydiant gweithgynhyrchu a'r gadwyn gyflenwi. Caiff asesiad llawn o lefelau presennol anweithgarwch economaidd a gefnogir drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol, ac iteriadau'r rhaglen yn y dyfodol, ei gyflwyno ar y cyd â'r ymgynghoriad ar y Rhaglen Cartrefi Clyd, y disgwylir iddo ddechrau yn ystod haf 2021.

Rheoliadau Cymorth Gwladol ac asesiad cystadleuaeth marchnadoedd

261. Rhaid i'r holl gymorth cyhoeddus a roddir i sefydliadau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch economaidd gydymffurfio â Rheoliadau Cymorth Gwladol. Diffinnir cymorth gwladol o dan Erthygl 107(1) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd fel a ganlyn (nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):
"any public resource given selectively to an undertaking that could potentially affect competition and intra-community trade."
262. Mae gweithgarwch yn economaidd ei natur os yw'n ymwneud â darparu nwyddau a/neu wasanaethau y mae marchnad ar eu cyfer a lle mae'r sector preifat yn darparu'r nwyddau a/neu'r gwasanaethau am elw, neu lle y gallai wneud hynny⁸⁴.
263. Mae pum maen prawf sy'n darparu fframwaith ar gyfer nodi a yw cymorth cyhoeddus yn gyfystyr â Chymorth Gwladol. Caiff cymorth ei ystyried yn Gymorth Gwladol os bodlonir y pum maen prawf canlynol:
- Rhoddir y cymorth drwy'r Wladwriaeth neu drwy adnoddau'r Wladwriaeth;
 - Mae'r cymorth yn rhoi mantais i'r derbynnydd;
 - Mae'r cymorth yn ddetholus;
 - Mae'r cymorth yn ystumio cystadleuaeth, neu mae ganddo'r potensial i wneud hynny;
 - Mae'r cymorth yn effeithio ar fasnach ar draws aelod-wladwriaethau.

⁸⁴ <https://wales365uk.sharepoint.com/sites/Intranet-Money/SitePages/How-to-Identify-State-aid.aspx>

264. Mae'r gweithgarwch arfaethedig a gyflwynir drwy'r cynllun Trechu Tlodi Tanwydd newydd yn cynnwys ymgymeriadau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, er bod y cymorth yn cael ei roi gan y wladwriaeth, yn rhoi mantais i'r derbynnydd ac yn ddetholus, ni ddylai ystumio cystadleuaeth na chael y potensial i ystumio cystadleuaeth nac effeithio ar fasnach ar draws aelod-wladwriaethau. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn casglu nad yw'r cyllid na'r gweithgarwch a gynigir gennym yn Gymorth Gwladol anghyfreithlon.
265. Mae'n bosibl y bydd newidiadau sylweddol i weithgarwch a amlinellir yn y cynllun mewn perthynas â chanlyniadau economaidd, sy'n effeithio ar ddefnyddwyr, yn ddarostyngedig i ystyriaeth gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.
266. O dan y trefniadau presennol, caiff cyngor ar effeithlonrwydd ynni a gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni cartref a ddarperir o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd eu darparu dan gontract, yn unol â Chyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a rheoliadau caffael cyhoeddus. O dan y dull arfaethedig, byddwn yn ystyried modelau i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyngor ac allgymorth, yn dibynnu ar ganlyniad cynllun peilot i "brofi cysyniad". Os caiff ei brofi, bydd angen ystyried opsiynau i ddarparu gwasanaeth cyngor ac allgymorth, sydd ar gael yn gyffredinol ar safon gyson ledled Cymru, mewn perthynas â rheolau Cymorth Gwladol. Caiff y trefniadau presennol ar gyfer gosod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi eu hasesu ymhellach ynghyd â ph'un a yw'r model hwn yn cynnig y gwerth gorau am arian i gyllid cyhoeddus Cymru.
267. Nid oes penderfyniadau wedi cael eu gwneud eto ynghylch dull gweithredu'r Rhaglen Cartrefi Clyd a chynlluniau peilot yn y dyfodol, megis y cynllun peilot ar gyfer y gwasanaeth cyngor ac allgymorth arfaethedig. Caiff asesiadau o'r effaith ar Gymorth Gwladol eu hystyried unwaith y bydd dull gweithredu wedi'i ddatblygu.

Asesiad o'r effaith ar breifatrwydd

268. Mae angen prosesu data personol er mwyn nodi unigolion sydd wedi gwneud cais am gymorth / wedi cael cymorth o dan Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, a chynlluniau Nyth ac Arbed. Efallai y bydd angen prosesu data er mwyn sicrhau bod cyngor a chymorth ar gael ac wedi'u cydgysylltu'n well er mwyn helpu pobl sy'n byw ar incwm is i leihau eu defnydd o ynni, cost yr ynni a ddefnyddir a gwella effeithlonrwydd ynni eu cartref.
269. Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (y GDPR) yn nodi y dylai unrhyw ddata personol a gaiff eu prosesu gan brosesydd fod yn destun contract sy'n cynnwys darpariaethau penodol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y caiff pob contract presennol, yn ogystal â phob contract newydd, ei amrywio er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r GDPR. Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn darparu'r cyfyngiadau a'r pyrth ar gyfer 'prosesu' data. Rhaid i bob defnyddiwr gydsynio i unrhyw waith prosesu data angenrheidiol.

270. Felly, y sail gyfreithiol a'r porth priodol ar gyfer prosesu'r data fydd 'cydsyniad testun data', yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 1998.
271. Ar hyn o bryd, caiff y gwaith o brosesu data ei gwmpasu gan ofynion a nodir yn y contract â rheolwr cynllun y Rhaglen Cartrefi Clyd, a chynlluniau Nyth ac Arbed. Dim ond at ddibenion cadarnhau cymhwysedd y defnyddir data sensitif a dim ond y wybodaeth sy'n berthnasol i'w rôl yn y broses y bydd partneriaid cysylltiedig yn ei gweld, gyda chydsyniad penodol a llawn gan y cwsmer ar bob cam ac wedi'i gwmpasu gan gontractau llywodraethu â phob parti perthnasol.
272. Mae'n bosibl y caiff manylion derbynyddion y Rhaglen Cartrefi Clyd a'r mesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd eu cysylltu'n ddiennw â data eraill er mwyn gwerthuso effeithiau mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, er enghraifft, fel rhan o'r prosiect Cysylltu Data Tlodi Tanwydd.
273. Bydd y gwaith o gyflawni camau gweithredu a nodir yn y cynllun gan bartion trydydd sector yn ddarostyngedig i delerau ac amodau contract Llywodraeth Cymru, a fydd yn nodi'r gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel. Bydd angen i gynlluniau newydd lle mae cipio data'n ofynnol gael eu hystyried ar gyfer asesiad unigol o'r effaith ar breifatrwydd. Os gwneir newidiadau i unrhyw gontractau neu gynlluniau lle mae cipio data personol yn ofynnol, caiff yr angen am asesiad o'r effaith ar breifatrwydd ei adolygu.

Asesiadau effaith nas cyflawnwyd

274. Yn ystod yr asesiad cwmpasu effeithiau, gwnaeth swyddogion ystyried a dogfennu'r asesiadau effaith canlynol, gan benderfynu wedi hynny nad oedd angen eu cynnal:

- Cyfiawnder
- Bioamrywiaeth
- Amgylcheddol
- Rheoliadau Cynefinoedd
- Amgylchedd strategol

Asesiadau Effaith Rheoleiddiol

275. Er ei bod yn bosibl na fydd angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer pob polisi, mae angen gwneud hyn ar gyfer pob Bil Cynulliad o dan y Rheolau Sefydlog. Felly, lle bydd yr opsiynau cyflawni ar gyfer y polisi yn nodi y gall Bil Cynulliad fod yn ofynnol, bydd angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Os bydd yr opsiwn a ffeirir i gyflawni rhan o'r polisi neu'r polisi cyfan drwy Fil Cynulliad, bydd angen llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a manwl a'i gyflwyno gerbron y Cynulliad.
276. Ar ôl cwblhau'r gwaith o ddatblygu'r dull polisi ar gyfer trechu tlodi tanwydd, gellir diwygio Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ofynnol ar y cam hwn a chaiff ei gwblhau.

DADANSODDIAD O GOSTAU POSIBL Y CYNLLUN NEWYDD

Targedau

277. Fel y nodir uchod ym mis Mawrth 2020, ac ers ei gyflwyno yn 2009/10, mae mwy na £366m wedi cael ei fuddsoddi i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, ac mae dros 61,400 o gartrefi wedi elwa arni. Dros yr un cyfnod, mae mwy na 144,000 o aelwydydd wedi cael cyngor diduedd am ddim ar effeithlonrwydd ynni eu cartref drwy linell gymorth effeithlonrwydd ynni Nyth. Dros y deng mlynedd, mae 6,140 o gartrefi wedi cael eu cefnogi'n flynyddol ar gyfartaledd, gyda gwariant cyfartalog o £5,960 fesul aelwyd, gan gynnwys costau'r llinell gymorth.
278. Yn ogystal â'r gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni cartref a ddarperir drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, mae aelwydydd yng Nghymru wedi cael budd o fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU drwy'r Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni. Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU⁸⁵ ym mis Ionawr 2021 yn nodi bod 155,891 o aelwydydd (5.2% o gyfanswm yr aelwydydd ym Mhrydain Fawr sydd wedi cael mesurau) wedi elwa ar welliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ystod y chwe blynedd ers cyflwyno cynllun ECO. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 22,270 o aelwydydd yng Nghymru yn elwa ar fesurau ECO bob blwyddyn.
279. Tai Cymdeithasol sy'n cyfrif am 18%⁸⁶ o'r holl aelwydydd yng Nghymru. Tai cymdeithasol sydd â'r sgoriau EPC uchaf ar gyfartaledd ar draws yr holl ddeiliadaethau tai. Bydd cyllid drwy Safon Ansawdd Tai Cymru wedi cyfrannu at wella effeithlonrwydd ynni a lefelau is o dlodi tanwydd mewn tai cymdeithasol.
280. Yn 2019/20, cyn iddynt gael gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni cartref, canfu fod 36.3% o aelwydydd a oedd yn cysylltu â Nyth yn byw mewn tlodi tanwydd⁸⁷. Mae hyn yn cynnwys 9.6% o aelwydydd a oedd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol. Ar ôl gosod mesurau effeithlonrwydd ynni cartref, gostyngodd nifer y tai mewn tlodi tanwydd o 26.7% i 16.8%, gyda nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd difrifol yn gostwng o 9.6% i 5%.
281. Roedd yr holl eiddo lle y gosodwyd mesurau yn aelwydydd aneffeithlon iawn o ran ynni, gyda sgôr E (6.3%), F (32.1%) neu G (61.6%). Ar ôl gosod y pecyn i wella effeithlonrwydd ynni cartref, cododd 83.2% o eiddo i sgôr C-D (cynnydd o 3.2% o 2018-19), a chododd 14.4% pellach i sgôr E a 2.4% i sgôr F. Mae'n bosibl mai sgôr E fydd gan ambell eiddo lle y gwnaed gwelliannau o hyd, am nad yw wedi bod yn bosibl dangos gwerth am arian ar gyfer y mesurau mwy datblygedig a oedd yn ofynnol.

⁸⁵ <https://data.gov.uk/dataset/1656fb7d-1ca3-462d-a11b-8078acc33275/household-energy-efficiency-statistics>

⁸⁶ <https://gov.wales/welsh-housing-conditions-survey>

⁸⁷ <https://nest.gov.wales/workspace/uploads/files/nest-annual-report-welsh-5f5b52d14ba65.pdf>

282. Yn 2019-20, nid oedd gan unrhyw eiddo a wnaeth elwa ar fesurau sgôr G o hyd. Er nad oedd aelwydydd a wnaeth elwa ar gynllun Nyth o reidrwydd yn byw mewn tldi tanwydd, byddant wedi wynebu risg o fod mewn tldi tanwydd. Yn y dyfodol, efallai y bydd angen gwneud gwaith targedu er mwyn cynyddu nifer yr aelwydydd mewn tldi tanwydd.

283. Mae'n rhaid i'n cynllun trechu tldi gynnwys targedau clir sy'n bodloni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyfyngu ar gapasiti i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach tldi tanwydd, mae ein cynllun yn cynnwys targedau ystyrion ond sy'n uchelgeisiol o hyd, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'r targedau yn y cynllun i'w cyflawni erbyn 2035:

- Amcangyfrifir nad oes unrhyw aelwydydd yn byw mewn tldi tanwydd difrifol neu barhaus⁸⁸ cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- Amcangyfrifir nad oes mwy na 5% o aelwydydd yn byw mewn tldi tanwydd ar unrhyw adeg benodol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- Bydd nifer yr aelwydydd sydd "mewn perygl" o fyw mewn tldi tanwydd wedi mwy na haneru yn seiliedig ar amcangyfrif 2018⁸⁹

284. Caiff y tri tharged hyn eu defnyddio i benderfynu pa mor llwyddiannus y bu Llywodraeth Cymru o ran cyflawni'r amcan statudol.

285. Mewn ymateb i'r her a gyflwynir gan y pandemig byd-eang sy'n mynd rhagddo, mae cyllideb Llywodraeth Cymru i drechu tldi tanwydd wedi cael ei chynyddu £5m, gydag 80% wedi'i ddyrannu i fuddsoddiad cyfalaf mewn gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni cartref a ddarperir drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Ar y sail hon, rydym yn disgwyl y bydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn £27m o fuddsoddiad cyfalaf yn 2021/22, gydag £8.7m ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy gyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer Cynllun Arbed, gan olygu y bydd cyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn £35.7m. Rhagwelir y bydd mwy na 5,400 (1,080 drwy Arbed a 4,420 drwy Nyth) o aelwydydd yn elwa ar y cyllid hwn yn ystod 2021/2022. Mae'r proffil cyflawni hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd deng mlynedd blyneddol. Mae'n debygol y bydd cyflawniad yn is yn ystod chwarter cyntaf 2021/22 wrth i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu llacio'n raddol. Hefyd, dim ond tan fis Hydref 2021 y mae'r amcanestyniadau wedi'u cynnwys ar gyfer Arbed, sef pan allai'r contract presennol ddod i ben. Rydym yn disgwyl y bydd lefelau gweithgarwch yn aildechrau yn 2022/23.

286. Mae lefelau gweithgarwch ar gyfer 2023/24 ymlaen, sef iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, a fydd yn destun ymgynghoriad yn ddiweddarach yn 2021, wedi'u nodi yn ein cynllun gweithredu. Mae gwaith modelu ychwanegol i bennu lefel y gweithgarwch sydd ei hangen i gyflawni ein targedau erbyn 2035 yn cael ei gomisiynu er mwyn llywio'r ymgynghoriad. Rydym yn parhau i ddisgwyl y bydd angen buddsoddiad ychwanegol er

⁸⁸Ystyr tldi tanwydd parhaus yw bod yn dlawd o ran tanwydd am ddwy o'r tair blynedd flaenorol

⁸⁹ Amcangyfrifir bod 144,504 o aelwydydd yn wynebu risg o fyw mewn tldi tanwydd yng Nghymru, gan wario rhwng 8% a 10% o incwm y cartref ar gostau tanwydd. Mae hyn yn cyfateb i 11% o aelwydydd yng Nghymru.

mwyn cyflawni'r targedau erbyn 2035, ond bydd angen gwneud gwaith dadansoddi pellach i bennu faint o fuddsoddiad y bydd ei angen.

287. Mae tystiolaeth⁹⁰ a gyhoeddwyd yn 2016 yn awgrymu y gall gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi sydd â sgôr EPC E, F a G drwy ddefnyddio mesurau sy'n costio £2,335 ar gyfartaledd, arwain at wella'r sgoriau SAP 12 pwynt ar gyfartaledd (£195 fesul pwynt) gan arbed £319 ar filiau tanwydd domestig y flwyddyn ar gyfartaledd. Gwnaeth Adroddiad Blynyddol Nyth ar gyfer 2019/20⁹¹, oramcangyfrif y gwelliant SAP cyfartalog yn 2019/20, ac mae'n cael ei ailwerthuso.

288. Er bod yr arbedion cyfartalog wedi'u modelu mewn biliau a gyflawnwyd drwy'r buddsoddiad hwn yn gyfystyr â £282 fesul aelwyd ar gyfartaledd, tybiwyd bod aelwydydd yng Ngwynedd a Cheredigion wedi arbed oddeutu £500 y flwyddyn ar eu biliau⁹². Cafwyd arbedion mwy cymedrol mewn ardaloedd trefol megis Casnewydd (£184) a Sir Ddinbych (£202). Mae hyn yn awgrymu bod buddsoddi mewn aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn arwain at fuddiannau gwell i aelwydydd incwm is. Buddsoddwyd £20.6m yng Nghynllun Nyth yn ystod 2019/20, heb gynnwys £1.5m ar gyfer darparu llinell gymorth Nyth.

289. O ran y gwelliannau a gofnodwyd ar gyfer yr ardal yn seiliedig ar Gynllun Arbed yn 2019/20⁹³, gwnaeth y 1,945 o aelwydydd a gafodd fudd o'r buddsoddiad gwerth £18.1m arbed £289 ar eu biliau ar gyfartaledd, gan wella 16 pwynt SAP fesul eiddo ar gyfartaledd. Yn achos cynllun Arbed, mae prosiectau a ddatblygir ar sail ardal yn fwy cymhleth ac yn ymwneud â mesurau ychwanegol, gan gynnwys paneli solar ffotofoltäig a goleuadau a chynhyrchion dŵr sy'n arbed ynni.

Cynllun	Buddsoddiad (£)	Aelwydydd	Cost gyfartalog fesul aelwyd	Gwelliant SAP cyfartalog	Cost fesul pwynt SAP
Nyth	£20.6m*	4,544	£4,533	16**	£283
Arbed	£18.1m	1,945	£9,305	16	£581

*Ac eithrio £1.5m i ddarparu llinell gymorth Nyth

** Codiad SAP cyfartalog Nyth wedi'i oramcangyfrif yn 2019/20 – codiad Arbed wedi'i ddefnyddio fel procsi

Ffigur 12 – Rhaglen Cartrefi Clyd – cymharu cynlluniau 2019/20

290. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cryn dipyn o ymchwil i'r costau sy'n gysylltiedig â gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol, fel rhan o'n gwaith i ddatgarboneiddio'r stoc dai bresennol. Fel rhan o astudiaeth Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory⁹⁴, nodwyd astudiaethau achos sy'n cynrychioli'r stoc tai cymdeithasol ehangach, drwy gymharu â'r mathau gwahanol o dai cymdeithasol yng Nghymru. Darparwyd canlyniadau Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) a manylion unrhyw waith ôl-osod neu fesurau Atgyweirio, Cynnal a Chadw a Gwella a oedd eisoes wedi'u gosod. Drwy drafod

⁹⁰“Deall pa fath o bobl sy'n byw mewn cartrefi incwm isel y mae byw mewn cartref oer yn fwy tebygol o effeithio arnyn nhw”. Cyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2016 SRN/41/2016, <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/deall-pa-fath-o-bobl-syn-byw-mewn-cartrefi-incwm-isel-y-mae-byw-mewn-cartref-oer-yn-fwy-tebygol-o-ffeithio-arnyn-nhw-adroddiad-terfynol.pdf>

⁹¹ <https://nest.gov.wales/workspace/uploads/files/nest-annual-report-welsh-5f5b52d14ba65.pdf>

⁹² <https://nest.gov.wales/workspace/uploads/files/nest-annual-report-welsh-5f5b52d14ba65.pdf>

⁹³ <https://www.arbedambyth.wales/adroddiad-blynyddol-2019-20.pdf>

⁹⁴ <http://orca.cf.ac.uk/115442/>

ymhellach â phob landlord, nodwyd cyflwr presennol pob annedd yn yr astudiaeth achos, yn ogystal â chwmpas unrhyw weithgareddau Atgyweirio, Cynnal a Chadw a Gwella a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Case study	Identifier	Type	Age	SAP rating		Decarbonisation		Fuel bills		Capital cost
				now	after	now	after	now	after	
01	Torfaen Terrace	End terrace	Pre 1919	62	92	61%	96%	£1066	£231	£33k
02	Ocean Way	Mid terrace	1945-1964	60	96	57%	97%	£844	£93	£31k
03	Ael Y Bryn	Semi-detach	1945-1964	48	97	26%	97%	£1022	£62	£29k
04	Bryn Hyfryd	Semi-detach	1945-1964	42	93	33%	96%	£1277	£148	£31k
05	Elmwood Road	Semi-detach	1965-1990	84	94	61%	96%	£373	£135	£27k
06	Cae Bold	Semi-detach	Post 1990	67	94	54%	95%	£704	£127	£28k
07	Cove Road	Flats	1945-1964	58	96	51%	96%	£773	£66	£25k
08	Y Bwrthyn	Flats	1965-1990	53	84	36%	94%	£754	£261	£19k
09	Cae Clyd	Flats	1965-1990	56	84	41%	94%	£794	£284	£22k
10	Gerddi Morfa	Flats	Post 1990	69	85	77%	96%	£453	£214	£19k
average				60	90	51%	96%	£802	£189	

Ffigur 13 – effaith ddisgwyliedig gweithgareddau Atgyweirio, Cynnal a Chadw a Gwella a aseswyd fel rhan o astudiaeth Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory

291. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad y gellir defnyddio sgoriau SAP i ragweld costau effeithlonrwydd ynni a thanwydd, ond na ellir eu defnyddio fel yr unig sail ar gyfer penderfynu a fydd mesurau ôl-osod yn cyflawni targedau datgarboneiddio. Rhaid i ffynhonnell gwres carbon isel fod yn rhan o'r strategaeth ddatgarboneiddio hefyd.

292. Os caiff adeiladwaith annedd ei wella i safon uwch, gall ôl-osod systemau gwresogi carbon isel fod yn opsiwn costeffeithiol i denantiaid (sy'n golygu, ar brisiau tanwydd presennol, y bydd biliau tanwydd blyneddol yn aros tua'r un peth), a gallai newid i ffynonellau gwres carbon isel ddisodli rhaglenni newid boeleri presennol. Mae opsiynau ynni adnewyddadwy, megis gosod paneli ffotofoltäig ar y to, hefyd yn ffordd effeithiol iawn o leihau biliau tanwydd i denantiaid, sy'n golygu bod mesurau ôl-osod er mwyn datgarboneiddio yn ddymunol i ddeiliaid tai. Mae opsiynau adnewyddadwy yn lleihau'r

galw am ynni sydd, yn ei dro, yn lleihau'r pwysau ar y rhwydwaith cyflenwi ynni. Gallai hyn fod yn ystyriaeth gynyddol bwysig. Gall tenantiaid nad ydynt yn manteisio ar y cynllun leihau effeithlonrwydd mesurau ôl-osod yn sylweddol. Mae gwaith modelu cywir, mesurau ôl-osod cyfannol sydd o fudd i'r tenant, ac ymgysylltiad tenantiaid yn hollbwysig i sicrhau canfyddiad cadarnhaol o ddatgarboneiddio ymhlith tenantiaid.

293. Awgrymodd amcangyfrifon tlodi tanwydd a gyhoeddwyd yn 2018 fod oddeutu 145,000 o aelwydydd yng Nghymru "mewn perygl" o fod mewn tlodi tanwydd. Gan eu bod yn gwario rhwng 8% a 10% o incwm yr aelwyd ar ynni domestig, nododd Llywodraeth Cymru y gallai aelwydydd sydd ar ymylon tlodi tanwydd fod yn byw mewn tlodi tanwydd yn hawdd petai mân newidiadau i incwm yr aelwyd neu brisiau ynni. Digwyddodd y ddau beth hyn yn 2020. Yn ôl yr arwyddion cynnar, mae llawer o'r aelwydydd hyn bellach yn byw mewn tlodi tanwydd. Yn seiliedig ar asesiad cychwynnol, amcangyfrifir y bydd lefelau tlodi tanwydd yn 2020 yng Nghymru wedi cynyddu. Bydd asesiad pellach o'r lefelau rhagamcanol o dlodi tanwydd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi yn 2021. Cynlluniwyd amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer 2023 i ddechrau, ond maent yn debygol o gael eu gohirio. Bydd yr amcanestyniadau a gomisiynir bellach yn llywio costau cyflawni'r cynllun newydd.

Cynllun Peilot ar gyfer Gwasanaeth Cyngor ac Allgymorth

294. Ar hyn o bryd, caiff Cyngor ar Effeithlonrwydd Ynni Domestig yng Nghymru ei ddarparu fel rhan o Gynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae'r gwasanaeth yn costio £1.5m y flwyddyn, ac mae'n ymdrin â 15,000 o ymholiadau y flwyddyn ar gyfartaledd. Yn 2019/20, cafodd 706 o bobl eu hatgyfeirio er mwyn gwirio eu hawl i gael budd-daliadau. Canfu fod 238 o aelwydydd yn gymwys i gael budd-daliadau newydd neu fudd-daliadau ychwanegol gwerth £2,202 fesul aelwyd ar gyfartaledd. Mae hyn yn gyfystyr â hawlio gwerth £524,076 o fudd-daliadau yn ystod y flwyddyn, cynnydd o £248,076 o 18/19.

295. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynllun drafft a oedd yn ei hannog i ehangu'r cyngor a'r cymorth mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni a chynyddu incwm a roddir i aelwydydd incwm is. Er mwyn llywio'r cynigion ar gyfer gwasanaeth estynedig yn well, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau prosiect peilot i weithio gydag aelwydydd agored i niwed sydd wedi ymddieithrio o'r farchnad ynni. Bydd y rhaglen beilot yn rhoi gwell syniad o gostau a buddiannau posibl yn sgil darparu cyngor a chymorth gwell i gartrefi incwm isel. Mae cyllid wedi cael ei ddarparu i gonsortiwm o 11 o sefydliadau, dan arweiniad Cymru Gynnes, er mwyn cyflwyno'r prosiect peilot. Gan weithio ar draws ardaloedd Awdurdod Lleol Gwynedd, Ceredigion a Chaerffili, bydd aelwydydd agored i niwed ac aelwydydd sydd wedi ymddieithrio o'r farchnad ynni yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i fargeinion gwell o ran eu hynni, newid i ddefnyddio mesurydd deallus a, lle bo angen, gwella effeithlonrwydd ynni eu cartref drwy osod mesurau effeithlonrwydd ynni drwy raglenni Cartrefi Clyd ac ECO.

296. Mae'r £1m o gyllid refeniw ychwanegol a ddarparwyd yn y setliad cyllideb ar gyfer 2021/22 yn cael ei ddefnyddio i dalu am gost y cynllun peilot.

Adrodd ar tlodi tanwydd

297. Mae'r cynllun newydd i drechu tlodi tanwydd yn ymrwymo i gyhoeddi amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru yn fwy rheolaidd, ynghyd â chyhoeddi ystadegau sy'n berthnasol i benderfyniadau tlodi tanwydd fel y maent yn gymwys i Gymru. Awgrymodd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad y dylid adrodd ar amcangyfrifon tlodi tanwydd yn flynyddol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai cost gwneud hynny, sef oddeutu £200,000 y flwyddyn, yn anghymesur. Fodd bynnag, mae adrodd ar amcangyfrifon tlodi tanwydd bob dwy flynedd yn sicrhau y bydd costau'n parhau i fod yn gymesur i fudd posibl adrodd yn fwy rheolaidd. Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu amcanestyniadau tlodi tanwydd diwygiedig yn seiliedig ar feincnod 2018 i'w cyhoeddi'n ddiweddarach yn 2021.

298. Bydd y cyllid ar gyfer cyhoeddi'r bwletin data tlodi tanwydd a'r amcanestyniadau tlodi tanwydd diwygiedig yn dod o'r ddarpariaeth refeniw ychwanegol ar gyfer trechu tlodi tanwydd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22.

Gwydnwch dros y Gaeaf

299. Mae Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru yn gwneud Taliadau Cymorth mewn Argyfwng fel grant nad yw'n ad-daladwy er mwyn helpu i dalu costau hanfodol yn achos argyfwng neu drychineb. Ar hyn o bryd, gall y taliad helpu pobl i dalu am gostau bwyd, nwy a thrydan, dillad a theithio mewn achosion brys.

300. Ym mis Tachwedd 2018, ehangwyd y Rhaglen Cartrefi Clyd ymhellach er mwyn cefnogi pobl na allant fforddio ffi peiriannydd diogelwch nwy neu gost mân waith atgyweirio. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Cyngor ar Bopeth Cymru, Gweithredu Ynni Cenedlaethol a Northgate Public Services Ltd, gellir awdurdodi taliadau o hyd at £120 ar gyfer cymorth mewn argyfwng, yn amodol ar fodloni meini prawf cymhwysedd penodol, er mwyn talu am gost gwaith atgyweirio. Mae'r cynllun wedi bod ar waith bob gaeaf ers 2018/2019 ac rydym yn disgwyl y bydd yn parhau felly. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y cynllun gwydnwch dros y gaeaf ar gyfer tlodi tanwydd, y disgwylir ei gyhoeddi yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun gweithredu i drechu tlodi tanwydd.

301. Mewn ymateb i bandemig y coronafeirws, mae'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi cael ei hehangu ymhellach er mwyn darparu taliadau cymorth mewn argyfwng i helpu aelwydydd incwm is sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt ar y grid nwy i dalu costau olew gwresogi a nwy hylifedig. Bydd y prosiect peilot hwn yn llywio mesurau i roi cymorth gwell i aelwydydd incwm is sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt ar y grid nwy fel rhan o'r cynllun gwydnwch dros y gaeaf.

302. Caiff gweithgareddau sy'n rhan o'r cynllun gwydnwch dros y gaeaf/tymhorol eu hariannu drwy'r ddarpariaeth refeniw ychwanegol ar gyfer trechu tlodi tanwydd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22. Bydd angen gwneud gwaith dadansoddi manwl pellach o ran y cyllid sydd ei angen i gyflawni ein targedau tlodi

tanwydd yn ystod 2021/22. Bydd cynigion a nodwyd gan Lywodraeth y DU yn ei phapur gwyn ar ynni⁹⁵, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, dadansoddiad manwl sy'n deillio o Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r dadansoddiad gwerth am arian ar gynlluniau presennol y Rhaglen Cartrefi Clyd sy'n cael ei wneud gan Archwilio Cymru, yn llywio cynigion manwl sy'n cael eu datblygu ymhellach, gyda'r nod o gyflawni ein targedau ar gyfer 2035. Bydd ymrwymïadau o ran cyllid yn y dyfodol yn ddarostyngedig i weithdrefn gosod cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru.

⁹⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/energy-white-paper-powering-our-net-zero-future>